


Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Adroddiad Blynyddol ar Gyflawni Amcanion
Llesiant (Cynllun Gwella Rhan 2) – 2019/20



**Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro**

**Pembrokeshire Coast
National Park**



Cynnwys

Cyflwyniad	2
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	3
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	3
Dibenion y Parc a Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol	4
Cyllid	4
COVID 19	4
Cyd-destun Polisi Ehangach	5
Mesur Perfformiad – Amcanion Llesiant	5
Ein Hamcanion Llesiant a'u cyfraniad at Nodau Llesiant Cymru	6
Amcan Llesiant Llewyrchus – Diogelwr Taith	8
Amcan Llesiant Llewyrchus – Ffrydiau gwaith	10
Amcan Llesiant Cydnerth – Diogelwr Taith	22
Amcan Llesiant Cydnerth – Ffrydiau gwaith	24
Amcan Llesiant Iechyd a Lles – Diogelwr Taith	36
Amcan Llesiant Iechyd a Lles – Ffrydiau gwaith	37
Amcan Llesiant Cydraddoldeb – Diogelwr Taith	47
Amcan Llesiant Cydraddoldeb – Ffrydiau gwaith	48
Amcan Llesiant Cymunedol – Diogelwr Taith	55
Amcan Llesiant Cymunedol – Ffrydiau gwaith	56
Amcan Llesiant Diwylliant – Diogelwr Taith	63
Amcan Llesiant Diwylliant – Ffrydiau gwaith	64
Amcan Llesiant Byd-eang – Diogelwr Taith	76
Amcan Llesiant Byd-eang – Ffrydiau gwaith	77
Llywodraethu a Chynaliadwyedd Ariannol – Diogelwr Taith	90
Llywodraethu a Chynaliadwyedd Ariannol – Ffrydiau gwaith	91

Atodiad 1: Data a Dadansoddiad Cydraddoldeb Recriwtio a Gweithlu	103
--	---------------------

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi cyfraniad a pherfformiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APACP) yn 2019/20 yn erbyn ei amcanion llesiant. Mae hefyd yn dangos sut yr ydym wedi defnyddio'r 5 ffordd o weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ein gwaith. Mae hefyd yn gweithredu fel Ein Cynllun Gwella Rhan 2 o dan y Mesur Llywodraeth Leol.

Dymunwn ddiolch i'r staff, yr Aelodau, gwirfoddolwyr, partneriaid a chymunedau o fewn y Parc a thu hwnt am ein cynorthwyo i gyflawni'r gweithgareddau a amlygir yn y ddogfen hon.

Nodyn ar Ddyletswydd Adran 6: Mae gan yr Awdurdod ddogfen Gyfeirio Adran 6 ([Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau](#)) dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 sy'n nodi'r dull a ddefnyddir gan yr Awdurdod i wreiddio'r ddyletswydd o fewn ei fframwaith a threfniadau adrodd ar gyfer cynllunio corfforaethol. Yr adroddiad hwn yw un elfen o drefniadau'r Awdurdod i adrodd ar y modd y mae'n cydymffurfio â'r ddyletswydd A6. Mae A6 wedi'i nodi ar bwys ffrydiau gwaith perthnasol yn yr adroddiad.

Nodyn ar yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol: Er mwyn sicrhau bod camau gweithredu cydraddoldeb strategol yn cael eu cyflawni maent yn cael eu prif-ffrydio o fewn fframwaith ein cynllun corfforaethol ac mae'r adroddiad hwn yn gweithredu fel ein hadroddiad blynyddol ar gydraddoldeb hefyd. Mae CS wedi'i nodi ar bwys ffrydiau gwaith perthnasol yn yr adroddiad

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cafodd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ei ddynodi yn 1952 o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Mae'r Parc Cenedlaethol yn cwmpasu ardal o 612 cilomedr sgwâr, ac mae tua 23,000 o bobl yn byw mewn rhyw 50 o ardaloedd cyngor cymuned. Mae'r rhan fwyaf o'r Parc Cenedlaethol mewn perchenogaeth breifat a dim ond tua 1% y mae'r Awdurdod yn berchen arno.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cafodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ei greu fel awdurdod lleol annibynnol ac iddo ddiben arbennig, a hynny o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (y Ddeddf). Mae'r Awdurdod yn cynnwys 18 Aelod, y mae 12 ohonynt wedi'u henwebu gan Gyngor Sir Penfro a chwech wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru.



Dibenion y Parc a Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol

Mae Deddf yr Amgylchedd 1995 yn nodi mai Dibenion Awdurdod Parc Cenedlaethol yw

- ❖ **Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol ardal y parc**
- ❖ **Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig yr ardal.**

Hefyd mae'r Ddeddf yn nodi bod dyletswydd ar yr Awdurdod, wrth fynd ar drywydd y dibenion uchod, i feithrin llesiant cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol.

Bob pum mlynedd mae'n ofynnol i'r Awdurdod lunio Cynllun Rheoli y Parc Cenedlaethol sy'n pennu sut yr hoffai weld y Parc Cenedlaethol yn cael ei reoli, a hynny nid gan yr Awdurdod yn unig ond gan yr asiantaethau a'r sefydliadau eraill y gallai eu gweithgareddau effeithio ar y Parc. Cytunodd yr Awdurdod Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol 2020-24 newydd ym mis Rhagfyr 2019.

Yr Awdurdod yw'r awdurdod cynllunio statudol ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol ac mae'n gyfrifol am baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. Aeth Cynllun Datblygu Lleol 2 newydd yr Awdurdod drwy broses archwilio Llywodraeth Cymru yn 2019/20.

Cyllid

Caiff gwariant net yr Awdurdod ei bennu'n bennaf gan Lywodraeth cymru, ar ffurf y Grant Parc Cenedlaethol (G.P.C.) blynyddol ac ardoll gysylltiedig gan Gyngor Sir Penfro. Yn 2019/20 roedd cyfanswm y G.P.C. a'r ardoll yn £3,887k, yr un fath ag yn 2018/19 ond i lawr o £3,940k yn 2017/18. Mae hyn yn dilyn gostyngiadau pellach mewn blynyddoedd blaenorol; yn 2014/15 fe lyncodd yr Awdurdod ostyngiad o £349k, neu 7.4%, ac wedyn gostyngiadau o 4.1% yn 2015/16 a 6.04% ar gyfer 2016/17 a phan gymhwysir y mynegai prisiau defnyddwyr mae'r gostyngiad ar y cyfan mewn termau real ers 2013/14 yn cyfateb i 23.6% neu oddeutu £1.1m. Mae arbedion gweithredol a chynnydd yn yr incwm o werthu nwyddau yn y canolfannau, incwm o'r meysydd parcio a thaliadau eraill ac incwm grant wedi gwneud iawn am y gostyngiad yn yr arian craidd.

COVID 19

Yn ystod mis Mawrth 2020 fe effeithiodd pandemig a rheoliadau COVID 19 ar gyflawni rhai meysydd gwaith a gyflawnir gan yr Awdurdod.

Cyd-destun Polisi Ehangach

Mae gwaith yr Awdurdod tuag at gyflawni ei amcanion llesiant yn rhan o gyd-destun polisi ehangach sy'n dylanwadu ar ein gwaith, ein cyfleoedd a'n dull gweithredu. Mae ystyriaethau polisi allweddol yn cynnwys:

Llywodraeth Cymru - Blaenoriaethau ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol 2018 (gwerthfawr a chydnerth)	Ymateb i Argyfwng Newid yn yr Hinsawdd a Llywodraeth Cymru – Ffyniant i Bawb: cymru carbon isel
Strategaeth Llywodraeth Cymru: Cymru Iachach: Ein Cynllyn Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – Dyletswydd Adran 6 a Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy
Llywodraeth Cymru - Cymraeg 2050 - Miliwn o siaradwyr Cymraeg	Polisi Cynllunio Cymru
Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) – Adroddiad Interim	"Dyfodol Llwyddiannus" Cwricwlwm Cenedlaethol newydd Cymru
Cynllun Llesiant Sir Benfro	Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus
Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, yn arbennig materion sy'n ymwneud â rheoli tir.	Cynllun Rheoli Cyrchfannau Sir Benfro a Croeso Cymru – Strategaeth Croeso i Gymru

Roedd datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru a Datganiad Ardal Forol yn cael eu datblygu yn 2019/20 a byddant yn dylanwadu ar waith yr Awdurdod yn y dyfodol.

Mesur Perfformiad – Amcanion Llesiant

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithredu'n unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy: Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithredu a Chynnwys. Trwy gydol y ddogfen darperir enghreifftiau o sut rydym wedi cymhwyso'r egwyddorion hyn yn ymarferol.

Rydym hefyd wedi asesu ein cynnydd tuag at ein Hamcanion Llesiant trwy ystyried:

- [Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020](#) ac [Offer Diogelwr Taith](#) y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Adroddiadau Archwilio Cymru o ran 5 ffordd o weithio
- [Dangosyddion Llesiant i Gymru](#)
- Data Meincnodi lle bo ar gael.

Nodir mesurau perfformiad, data tueddiadau a chamau gweithredu'r Awdurdod yn ei Gynllun Corfforaethol ac Adnoddau. Mae'r Awdurdod yn monitro ei gynnydd yn erbyn ei amcanion llesiant yn ystod y flwyddyn, drwy adroddiadau perfformiad a ddarperir i Aelodau drwy Bwyllgorau perthnasol. Mae rhai ystadegau'n cael eu cofnodi'n flynyddol. Mae'r Awdurdod hefyd yn defnyddio data ansoddol i helpu i gefnogi'r gwaith o ddadansoddi ei berfformiad.

Ein Hamcanion Llesiant a'u cyfraniad at Nodau Llesiant Cymru

Amcanion Llesiant APCAP	Sut rydyn ni'n cyfrannu at Nodau Llesiant ar gyfer Cymru
<p>Amcan Llesiant Llewyrchus: Cefnogi ac annog datblygiad cyflogaeth a busnesau cynaliadwy, yn enwedig ym maes twristiaeth a hamdden.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ✓ 'Cymru Lewyrchus' – Drwy hyrwyddo busnesau cynaliadwy a chefnogi'r diwydiant twristiaeth drwy weithio i ymestyn y tymor twristiaeth traddodiadol a chynnal yr ased twristiaeth a hamdden allweddol yn y Parc, sef Llwybr yr Arfordir. ✓ 'Cymru Gydnerth' – Drwy gefnogi twristiaeth gynaliadwy a rheolaeth hamdden yn y Parc. ✓ 'Cymru Iachach' – Drwy gynnal a hyrwyddo Hawliau Tramwy Cyhoeddus a helpu i gynnwys mwy o bobl mewn gweithgareddau cerdded a gweithgareddau cysylltiedig.
<p>Amcan Llesiant Cydnerth: Gwella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ✓ 'Cymru Gydnerth' – Drwy gyfrannu at wella iechyd ecosystem Cymru a cheisio mynd i'r afael â'r mater o golli bioamrywiaeth yn y Parc. ✓ 'Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang' – Drwy weithgareddau sy'n ymateb i golli bioamrywiaeth sydd hefyd yn cefnogi'r her o ymateb i newid yn yr hinsawdd sy'n gysylltiedig â'i gilydd. ✓ 'Cymru o Gymunedau Cydlynus' – Drwy gynnig cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn edrych ar ôl ecosystem y Parc.
<p>Amcan Llesiant Iechyd a Lles: Galluogi ac annog mwy o bobl i wella'u llesiant trwy wneud mwy o ddefnydd o'r Parc Cenedlaethol ni waeth beth fo'u hamgylchiadau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ✓ 'Cymru Iachach', 'Cymru sy'n fwy Cyfartal,' 'Cymru o Gymunedau Cydlynus' - Drwy hyrwyddo defnydd mwy rheolaidd o'r awyr agored, bydd profiadau awyr agored i blant, annog gwirfoddolwyr, a chael gwared ar rwystrau i allu manteisio ar yr amcan hwn, yn arwain at fanteision cadarnhaol i les corfforol a meddyliol pobl ac yn helpu i fynd i'r afael â materion megis arwahanrwydd cymdeithasol.
<p>Amcan Llesiant Cydraddoldeb: Parhau i sicrhau bod cydraddoldeb wedi'i sefydlu yng ngwaith a diwylliant yr APC.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ✓ 'Cymru sy'n fwy Cyfartal,' 'Cymru Iachach', 'Cymru o Gymunedau Cydlynus'- Drwy weithio tuag at gyflawni ein nodau tymor hir yng Nghynllun Cydraddoldeb yr Awdurdod a chwalu'r rhwystrau rhag gallu manteisio ar gyfleoedd yn y Parc, bydd yr Awdurdod yn cefnogi'r nodau hyn.

Amcanion Llesiant APCAP	Sut rydyn ni'n cyfrannu at Nodau Llesiant ar gyfer Cymru
<p>Amcan Llesiant Cymunedol: Gweithio ochr yn ochr â chymunedau i'w helpu i gael y gorau o'r Parc Cenedlaethol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ✓ 'Cymru Gydnerth,' 'Chymru â diwylliant bywiog' – Drwy ddenu cyfraniad cymunedau, cymunedau buddiant megis tîrfeddianwyr a grwpiau lleol, a gwirfoddolwyr mewn gweithgareddau sy'n cefnogi ecosystemau a threftadaeth Cymru ✓ 'Cymru o Gymunedau Cydlynus.' – Drwy hyrwyddo cyfleoedd i bobl ddod ynghyd yn y Parc sydd hefyd yn helpu i leihau arwahanrwydd cymdeithasol. ✓ 'Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang' – Drwy gynorthwyo cymunedau i ddatblygu prosiectau cynaliadwyedd drwy'r gronfa CDC.
<p>Amcan Llesiant Diwylliant: Gwarchod a hyrwyddo diwylliant lleol o ran iaith, y celfyddydau a threftadaeth yn yr ardal.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ✓ 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.' – Drwy gefnogi gweithgareddau sy'n hyrwyddo ac yn amddiffyn diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n ceisio ennyn cyfranogiad mwy o bobl yn y gweithgareddau hyn. ✓ 'Cymru o Gymunedau Cydlynus,' 'Cymru Gydnerth.' – Drwy ennyn cyfranogiad cymunedau a gwirfoddolwyr i edrych ar ôl safleoedd treftadaeth.
<p>Amcan Llesiant Byd-eang: Sicrhau bod ein gwaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant bydeang.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang' - Drwy ymateb i her fyd-eang yr argyfwng Newid Hinsawdd, tra hefyd yn ennyn diddordeb pobl mewn natur, yr awyr agored a threftadaeth i gael eu hysbrydoli i edrych ar ôl a dysgu am y byd o'u cwmpas. ✓ 'Cymru Gydnerth', 'Cymru Lewyrchus', 'Cymru Iachach' – Bydd gweithgareddau sy'n ymateb i'r argyfwng Newid Hinsawdd hefyd yn cyfrannu i nodau hyn gan eu bod yn gysylltiedig â'i gilydd.

Hefyd cafodd mesurau a chamau gweithredu eu sefydlu ar gyfer llywodraethu a bod yn gynaliadwy yn ariannol i allu cynnal yr Awdurdod i gyflawni'r canlyniadau uchod yn effeithiol yn awr ac yn y tymor hirach.

Amcan Llesiant Llewyrchus: Cefnogi ac annog datblygiad cyflogaeth a busnesau cynaliadwy, yn enwedig ym maes twristiaeth a hamdden.

Ffrydiau gwaith a roddodd gymorth i gyflawni'r amcan hwn yn 2019/20

Polisi Cynllunio a Gwasanaeth Cynllunio	Cynnal Hawliau Tramwy Cyh. - Ased Twristiaeth	Cefnogi Busnesau Lleol
Twristiaeth a Hamdden Gynaliadwy - Rheoli a Hyrwyddo	Ymgysylltu â Thwristiaeth a Chynulleidfaoedd Newydd	Trawsnewid Cyflogaeth

Crynodeb o'r Diogelwr Taith – Ein Cynnydd yn erbyn yr Amcan hwn

Yn ystod 2019/20 cymeradwywyd y Cynllun Rheoli Cyrchfan ar gyfer Sir Benfro sy'n darparu ffocws strategol hirdymor ar gyfer yr Awdurdod a phartneriaid o ran sut y gallant gefnogi'r diwydiant twristiaeth a hamdden yn y Parc a Sir Benfro. Mae'n cynnwys ffocws ar sut i fynd i'r afael â natur dymhorol, a hybu 'twristiaeth gyfrifol' a chynaliadwyedd. Bydd gan drefniadau gweithio mewn partneriaeth rôl hollbwysig yn y broses adfer o ran rheoli cyrchfan yn dilyn effaith COVID 19 ar dwristiaeth leol. Mae hyn yn eistedd ochr yn ochr â gwaith ehangach y mae'r Awdurdod wedi bod yn rhan ohono i ennyn ymgysylltiad cynulleidfaoedd newydd â'r Parc trwy ddatblygu gwefan newydd, parcmynd haf, y prosiect partneriaeth llwybrau Celtaidd gan hefyd roi camau gweithredu ar waith sy'n cefnogi rheolaeth gyfrifol ar hamdden.

Mae'r Awdurdod wedi parhau i gynnal Llwybr yr Arfordir ac mae wedi defnyddio'r prosiect Parc Digidol i wella'r modd y blaenoriaethir ac y cyflawnir gwaith hawliau tramwy ar lawr gwlad. Cynhaliwyd archwiliad o CDLI 2 yr Awdurdod yn 2019/20 ac unwaith y bydd wedi'i gymeradwyo bydd y cynllun hwn yn dylanwadu ar gyfeiriad polisi cynllunio yn y Parc yn y dyfodol. Parhaodd yr Awdurdod i hybu cyfleoedd i gyflenwyr lleol yn ei ganolfannau; fodd bynnag, gellir gwneud gwaith pellach i ystyried sut y gallem gynyddu i'r eithaf y cymorth i fusnesau lleol trwy ein cadwyni cyflenwi. O ran datblygu sgiliau, mae angen gwneud gwaith pellach i adeiladu ar y gwaith sydd wedi dechrau ar arallgyfeirio ein harlwy ar gyfer gwirfoddolwyr, i ddarparu lleoliadau profiad gwaith a datblygu prosiect dilynol ar gyfer ein prosiect Sgiliau ar Waith blaenorol.

Mae ein gwaith ar draws y ffrydiau gwaith hyn yn cyfrannu at y dangosyddion llesiant cenedlaethol canlynol

21. Y ganran o'r bobl sydd mewn gwaith	28. Y ganran o'r bobl sy'n gwirfoddoli
22. Y ganran o'r bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi'i mesur ar gyfer gwahanol grwpiau oedran	42. Allyriadau nwyon tŷ gwydr sydd i'w priodoli i ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau byd-eang yng Nghymru

16. Y ganran o'r bobl sydd mewn gwaith, sydd ar gontractau parhaol (neu ar gontractau dros dro, ac nad ydynt yn ceisio gwaith parhaol) ac sy'n ennill mwy na 2/3 o gyflog canolrifol y DU.


Mae'r adran nesaf yn amlinellu ein perfformiad yn 2019/20 yn erbyn y ffrydiau gwaith sy'n cyfrannu at ein Hamcan Llesiant Llewyrch.

Ffrwd Waith: Polisi Cynllunio

Meddwl Hirdymor: Gosod Cyfeiriad Hirdymor Polisi Cynllunio yn y Parc

Yn ystod 2019/20 aeth Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig (Dyddiad terfyn 2031) yr Awdurdod trwy'r broses archwilio. Cynhaliwyd gwrandawiadau gan Arolygwyr Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf a mis Hydref. Yn dilyn hyn cyhoeddwyd Newidiadau Materion yn Codi ar gyfer ymgynghori, gyda'r ymgynghoriad yn dod i ben ar 13 Mawrth 2020.

Bydd mabwysiadu'r cynllun yn 2020/21 yn dilyn derbyn adroddiad yr Arolygwyr yn dylanwadu ar gyfeiriad cynllunio yn y Parc yn y dyfodol. Bydd dangosyddion diwygiedig ar gyfer y Cynllun yn helpu'r Awdurdod i fonitro effeithiau yn erbyn yr amcan hwn ac effeithiau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol



Ffrwd Waith: Gwasanaeth Cynllunio

Ystadegau Perfformiad y Gwasanaeth Cynllunio

Ochr yn ochr â chyflawni yn erbyn polisi cynllunio, mae darparu gwasanaeth cynllunio effeithiol yn cynorthwyo'r Awdurdod i gefnogi datblygiad busnesau, cymunedau ac economi leol sy'n gynaliadwy. Effeithiwyd ar berfformiad Rheoli Datblygu, yn enwedig 'Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ynghylch yr holl geisiadau cynllunio mewn diwrnodau' gan swyddi gwag dau swyddog rhwng mis Awst a mis Rhagfyr 2019. Defnyddiwyd ymgynghorwyr ar sail ran-amser gyda'r ddwy swydd yn cael eu llenwi ym mis Ionawr 2020. Mae'r Awdurdod wedi gweld tuedd barhaus yng % y ceisiadau a gymeradwyir sy'n syrthio islaw'r targed o 90% (nid mesur gan Lywodraeth Cymru yw hwn). Cafodd 3 allan o 33 o benderfyniadau gan Aelodau eu gwneud yn groes i argymhellion swyddogion.

Mesur Perfformiad	2017/18 Union	2018/19 Union	2019/20 Union	2019/20 Targed	Meincnodi 2019/20
% y ceisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol	84.91% (Gwyrdd)	89.8% (Gwyrdd)	92.64% (Gwyrdd)	80%	APC Eryri: 72.24%
Yr amser cyfartalog a gymerwyd i benderfynu ar bob cais cynllunio mewn diwrnodau	70.75 (Ambr)	69 (Ambr)	88.25 (Ambr)	<67	APC Eryri: 69 diwrnod
% y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn erbyn argymhelliad swyddogion	4.88% (Gwyrdd)	3.85% (Gwyrdd)	9.09% (Coch)	<5%	APC Eryri: 5%
% yr apeliadau a wrthodwyd	63.64% (Amber)	100% (Gwyrdd)	71.43% (Gwyrdd)	>66%	
Ceisiadau am gostau mewn apêl adran 78 a ganiatawyd yn ystod y cyfnod adrodd	2 (Coch)	0 (Gwyrdd)	0 (Gwyrdd)	0	APC Eryri: 0
% y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd (nid yw hwn yn Ddangosydd gan Lywodraeth Cymru)	85.11% (Ambr)	80.8% (Ambr)	79.75% (Coch)	90%	APC Eryri: 89.70%

93.25%

o geisiadau cynllunio a benderfynwyd dan bwerau dirprwyedig yn 2019/20. Mae hyn yn cymharu â 94.8% yn 2018/19 a 92.07% yn 2017/18. Meincnodi 2019/20: APC Eryri: 95.4%

601

oedd nifer y ceisiadau cynllunio a gofrestrwyd yn 2019/20, roedd hyn yn gynydd o 487 yn 2018/19 a 590 yn 2017/18.

Ffrwd Waith: Cynnal Hawliau Tramwy Cyh. - Ased Twristiaeth (A6)

Meddwl Hirdymor - Ffyrdd Newydd o Weithio: Prosiect y Parc Digidol

Mae Prosiect y Parc Digidol yn brosiect tair blynedd sy'n anelu at gwella systemau 'swyddfa gefn' ar gyfer y Wardeniaid a'r timau cysylltiedig, mewn meysydd megis cofnodi gwaith, casglu data ac amserlennu drwy broses digideiddio a symleiddio. Y deilliant a ddymunir yw blaenoriaethu a chyflawni gwell ar lawr gwlad. Yn 2018/19 fe wnaeth yr Awdurdod gaffael system a gwneud gwaith paratoadol i'w alluogi i ddatblygu ei brosiect parc digidol.

Yn ystod 2019/20 fe dreialodd yr Awdurdod brosesau a meddalwedd gyda thimau Wardeniaid:

- ✓ Lansiyd System Rheoli Swyddi (SRhS) Newydd ym mis Hydref 2019. Mae'r holl wardeniaid bellach yn defnyddio'r SRhS ar ffonau symudol i gael rhestrau gwaith gan eu rheolwyr mewn amser real
- ✓ Cafodd yr holl Dimau Wardeniaid eu hyfforddi ac maent bellach yn defnyddio Apiau Mapiau Symudol ac Apiau Cofnodi Namau.
- ✓ Cafodd y broses Arolygu Llwybrau Troed a Phont ei digideiddio, gan symud i broses di-bapur.
- ✓ Dangosfyrddau wedi'u creu ar gyfer cyflwr Llwybrau Troed ac i weld cynnydd a monitro gwaith a gwblhawyd ar Lwybr yr Arfordir ar gyfer y Tîm Rheoli Cefn Gwlad a'r Tîm Mynediad.

Mae gwaith pellach yn yr arfaeth fel rhan o'r prosiect hwn i ddigideiddio prosesau adrodd. Bydd gwaith ar brotocolau tywydd garw (gwiriadau o dywydd garw a gyflawnir gan reolwyr wardeniaid) yn un o gamau nesaf y prosiect hwn.

Tueddiadau Boddhad: Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Cadwodd Llwybr Arfordir Sir Benfro ei sgôr lefel 5 ar Trip Advisor yn 2019/20.

Mesur Perfformiad	2017/18	2018/19	2019/20	2019/20 Targed
Llwybr Arfordir Sir Benfro - Sgôr Gyffredinol Trip Advisor 1-5.	5 (Gwyrdd)	5 (Gwyrdd)	5 (Gwyrdd)	5


Roedd sylwadau Trip Advisor yn cynnwys:

“Gwych i ymweld naill ai fel cerddwr pellter hir neu fel ni'n galw i mewn bob hyn a hyn yn y trefi ac atyniadau ar ei hyd.”

“Fe gerddais i ar hyd y rhan o Ddoc Penfro i Freshwater East yn ddiweddar. Llwybrau cerdded da gyda golygfeydd syfrdanol.”

“Fe arhosais yn Nine Wells ac fe gerddais i ardal Sant Iwstinian ac yna ymlaen i Dyddewi, a dal y bws yn ôl i Nine Wells. Roedd y tywydd yn garedig ac felly fe fwynheais y golygfeydd syfrdanol ar hyd llwybr yr arfordir.”

Gwelodd yr Awdurdod ostyngiad yn y pryder am safonau Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn 2019/20:



Atal a meithrin cydnerthedd: Mynediad

Parhaodd yr Awdurdod i sicrhau bod dros 86% o Hawliau Tramwy Cyhoeddus y Parc yn agored ac yn hygyrch yn 2019/20.

Mesur Perfformiad	2017/18	2018/19	2019/20	2019/20 Targed
% yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus sy'n agored ac yn hygyrch gan gyrraedd y safon	86.31% (Gwyrdd)	86.92% (Gwyrdd)	86.83% (Gwyrdd)	85

ansawdd

Caewyd rhannau o Llwybr yr Arfordir i'r cyhoedd fel a oedd yn ofynnol dan reoliadau Covid 19 perthnasol ym mis Mawrth 2020 gyda manylion llwybrau a oedd ar gau'n cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

Roedd gwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus a gwblhawyd yn 2019/20 yn cynnwys:

- ✓ Mae'r llwybr troed hwn yn creu cyswllt i Llwybr Arfordir Sir Benfro o bentref bach Brynhellan a chaiff ei hyrwyddo ar wefan y Parc Cenedlaethol fel rhan o'r gylchdaith gerdded. Mae'r llwybr yn 450 metr o hyd, a dros y blynyddoedd, oherwydd nifer y bobl a gerddai ar ei hyd, aeth yn fwy cul a datblygwyd cambr croes a oedd yn ei gwneud yn anoddach cerdded. Mae cefnogaeth Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi galluogi i wyneb y llwybr gael ei lefelu a bydd yn sicrhau bod y llwybr troed bellach yn parhau mewn cyflwr da am flynyddoedd i ddod ac yn cynnig taith gerdded gymharol hawdd i'r arfordir.
- ✓ Llwybr troed newydd i fynd at y ceunant yng Nghwm Gwaun. Gyda Chytundeb Rheoli A39 gyda'r tîrfeddiannwr ac yn cael ei ran-ariannu â grant gan Lywodraeth Cymru.

Atal a meithrin cydnerthedd: Amddiffyn Pompren

Mae Haroldston Wood, Aberllydan yn Llwybr troed cyhoeddus, 2km o hyd ac yn rhan o gylchdaith gerdded ar ymyl pentref Aberllydan. Mae'n boblogaidd gyda thrigolion ac

ymwelwyr fel ei gilydd. Mae pont droed bren yn croesi'r nant yn Haroldston Wood. Ym mis Tachwedd 2018, cafodd y bont droed ei difrodi gan lifogydd eithriadol y nant gan ei gwneud hi'n rhy beryglus i'w chroesi. Caewyd y llwybr troed felly wrth i bont droed newydd gael ei hadeiladu a darparwyd amddiffyniad dros dro ar lan y nant. Arweiniodd stormydd dilynol at golli coed aeddfed ar lan y nant. Ers hynny, mae'r llifogydd a'r coed sydd wedi disgyn yn y gwynt wedi arwain at erydiad parhaus y lan ger ategweithiau'r bont droed. Roedd y gyfradd erydu uwch yn gofyn am ateb mwy parhaol ar frys i sefydlogi'r lan er mwyn amddiffyn ategweithiau'r bont droed newydd.

Cynhaliwyd gwaith i dynnu gwreiddyn coeden a gwmpwyd a rhoddwyd cerrig mawr mewn wal isel i roi diogelwch digonol ar gyfer y bont droed. Bellach 2.3m yw'r lled lleiaf rhwng yr ategweithiau a'r nant tra bod lled lleiaf o 1.6m yn unig yn gwahanu ymyl y nant sy'n erydu o'r bont droed. Bydd y gwaith yn sicrhau bod y bont droed hon yn aros yn gyfan am flynyddoedd i ddod i hwyluso'r daith gerdded boblogaidd hon.

Ffrwd Waith: Twristiaeth a Hamdden Gynaliadwy - Rheoli a Hyrwyddo (A6)

Cydweithio a Gweithio mewn modd Integredig: Rheoli Cyrchfannau

Yn 2019, gyda chyllid uniongyrchol gan Gyngor Sir Penfro ac APCAP, fe roddodd Partneriaeth Cyrchfan Sir Benfro gomisiwn i Blue Sail i gynnal adolygiad o'r Cynllun Rheoli Cyrchfan (CRhC) presennol. Trwy ymgynghori â rhanddeiliaid

allweddol, fe grëwyd cynllun wedi'i ddiweddarau a mwy cyfoes ar gyfer y sir.

Nod trosfwaol y CRhC yw diogelu a thyfu'r economi ymwelwyr er mwyn gwella'r cyfraniad y mae'n ei wneud at lesiant y sir gan fynd ati'n ofalus i reoli'r effeithiau y gall twf twristiaeth eu cael ar yr amgylchedd naturiol yn ogystal â chymunedau lleol. Mae CRhC Sir Benfro 2020 – 2025 yn gyson â'r blaenoriaethau allweddol a nodir yn y Cynllun Llesiant ar gyfer Sir Benfro yn ogystal â Strategaeth Croeso i Gymru Croeso Cymru. Cytunwyd ar y cynllun newydd gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a Chabinet Cyngor Sir Penfro ac fe'i lanswyd yn swyddogol yn Uwchgynhadledd Twristiaeth Sir Benfro ym mis Chwefror 2020. Ochr yn ochr â chytuno ar gynllun newydd fe roddodd yr Awdurdod gymorth i sefydlu Sefydliad Rheoli Cyrchfan ar wahân newydd fel y ffordd orau ymlaen ar gyfer darparu gwasanaethau twristiaeth ledled Sir Benfro dros y pum mlynedd nesaf.

Cynnwys ac Ymgysylltu: Brandio Cyrchfannau

Roedd gweithgareddau a gyflawnwyd yn 2019/20 i roi cymorth i lansio cynllun brandio newydd ar gyfer y cyrchfan yn cynnwys:

- ✓ Mae atyniadau'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, Castell Henllys, Caeriw ac Oriol y Parc yn defnyddio'r cynllun brandio newydd.
- ✓ Mae ystod beilot o nwyddau sy'n defnyddio'r cynllun brandio newydd wedi cael ei chynhyrchu.

- ✓ Mae prif daflen hyrwyddo wedi'i dosbarthu sy'n cario'r brand newydd.
- ✓ Mae'r cynllun brandio wedi cael ei ymgorffori yn nyluniad gwefan newydd APCAP.
- ✓ Mae ymarfer cwmpasu ar gyfer cynllun llysgenhadon brand newydd wedi cael ei gynnal.

Atal a meithrin cydnerthedd: Rheoli Hamdden

Mae'r Awdurdod wedi diwygio'i gynllun hamdden ar ffurf 'Dogfen hyrwyddo'r hyn y gallwn ni ei reoli' y mae'n bwriadu ei hadolygu'n flynyddol gyda phartneriaid. Mae'r ddogfen wedi cael ei chyfnerthu i ymdrin â lleoliadau a gweithgareddau â materion 'byw', parhaus neu newydd. Mae'n cynnwys rhestr o safleoedd a gweithgareddau hamdden sensitif ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro lle mae capasiti neu'r effaith ar yr amgylchedd a'r dirwedd yn achosi pryder. Gall hyn fod yn dymhorol neu pan fo digwyddiadau neu weithgareddau penodol yn cael eu cynnal. Cytunwyd ar y rhestr gyda'r Awdurdod Parc Cenedlaethol a rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyngor Sir Penfro, RNLI, APA, Partneriaeth Natur Sir Benfro a Phartneriaeth Cyrchfan Sir Benfro.

Yn 2018/19 gweithiodd yr Awdurdod gyda Chyngor Sir Penfro ar becyn cymorth digwyddiadau newydd ar gyfer trefnwyr digwyddiadau, y rhoddwyd cyhoedduswydd iddo ar [wefan Cyngor Sir Penfro](#) yn 2019/20. Gan adeiladu ar y gwaith hwn mae'r Awdurdod wedi ariannu Prifysgol Abertawe i wneud ymchwil i reoli digwyddiadau. Y nod yw y bydd yr ymchwil hon yn helpu'r Awdurdod a phartneriaid i ddefnyddio dull

rhagweithiol o reoli digwyddiadau, gan ein helpu i ymgysylltu'n well â threfnwyr digwyddiadau ac i reoli'r nifer gynyddol o ddigwyddiadau 'her' cyn ein bod yn dod ar draws materion o ran gorddefnyddio.

Cydweithio a Gweithio mewn modd Integredig: Tîm Parcmyn a Rheoli Hamdden

Parhaodd tîm Parcmyn yn ystod 2019/20 i weithio'n agos gyda phartneriaid a rhanddeiliaid ar ddull cydweithredol o reoli hamdden yn gynaliadwy yn y Parc:

- ✓ Sefydlwyd fforwm newydd, Fforwm Diogelwch Dŵr Sir Benfro, gydag ymwneud gan APCAP, RNLI. Cyngor Sir Penfro, Gwylwyr y Glannau a phartneriaid eraill. Mae'r Awdurdod yn parhau i logio digwyddiadau ar y blaendraeth a bydd y gwaith hwn yn bwydo i mewn i waith y Fforwm Diogelwch Dŵr.
- ✓ Gweithiodd APCAP gyda Fforwm Arfordir Sir Benfro, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chyngor Sir Penfro i gynnal diwrnod galw heibio cymunedol ar reoli Freshwater West a gorfodi ar wersylla dros nos.
- ✓ Cyfarfu parcmyn â Chyngor Cymuned Llandyfái a phartïon â buddiant ynglŷn â rheoli jet-sgis yn Freshwater East a buont yn cynnal cyswllt â defnyddwyr jet-sgis yn dilyn cwynion.
- ✓ Cyfrannodd parcmyn at y gweithrediad glanhau amlasiantaeth wedi i gynhwysydd ollwng nwyddau i'r môr ym mis Rhagfyr.

- ✓ Cadeiriodd APCAP gyfarfodydd blynyddol y Grŵp Cyswllt Dringo Clogwyni a'r Grŵp Cyswllt Traethau.
- ✓ Arweiniodd Parcmon y De ddigwyddiad hyfforddi ar adar Arfordirol ar gyfer grŵp Siarter Awyr Agored Sir Benfro.

Tueddiadau Ymholiadau a Thrwyddedau Ffilmio

6	o drwyddedau ffilmio wedi'u rhoi gan APCAP yn 2019/20. Mae hyn yn ostyngiad ar y 14 a roddwyd yn 2018/19 a 14 yn 2017/18.
45	ymholiadau ffilmio a dderbyniwyd gan yr Awdurdod yn 2019/20. Mae hyn yn ostyngiad ar y 65 ymholiad yn 2018/19 a 68 yn 2017/18.

Ffrwd Waith: Ymgysylltu â Thwristiaeth a Chynulleidfaedd Newydd (S6 / ER)

Cynnwys ac Ymgysylltu: Parcmyn Haf yn ymgysylltu â chynulleidfaedd newydd a busnesau lleol

Bu'r parcmyn haf yn gweithio yng Ngogledd a De'r Parc yn nhymor yr haf 2019/20. Trwy ddarparu gwybodaeth a gweithgareddau dros dro yn y fan a'r lle, gan gynnwys ar draethau, maent yn cynorthwyo'r Awdurdod i estyn allan at gynulleidfaedd newydd. Gwelodd yr Awdurdod ostyngiad yn nifer y bobl a fynychodd ddigwyddiadau dros dro yn 2019/20 o'i gymharu â 2018/19. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod

digwyddiadau ar thema Blwyddyn y Môr Croeso Cymru wedi cael effaith gadarnhaol ar nifer y digwyddiadau a'r cyfranogwyr yn 2018/19.

1,209

Pobl yn yn mynychu digwyddiadau pop-yp yn 2019/20. Gostyngiad ar 2,089 o gyfranogwyr yn 2018/19, ond cynnydd o'i gymharu â 623 yn 2017/18.

Cafodd y mwyafrif o ddigwyddiadau dros dro eu hwyluso gan y parcmyn haf ac roeddent yn cynnwys gweithgareddau dydd ar y traeth megis hela crancod, sesiynau pyllau cerrig, celf tywod traeth a helfeydd microplastig. Roedd digwyddiadau dros dro eraill yn cynnwys Diwrnod Dathlu Dolydd yn Hostel leuencid Skrinkle gyda 200 o gyfranogwyr.



Gweithgareddau'r Parcmyn Haf

Fe wnaeth y ddau barcmyn haf hefyd barhau â gwaith parcmyn haf blaenorol i feithrin cysylltiadau cadarnhaol â busnesau lleol, darparu gwybodaeth a chwrdd â hwy.

395

pobl yr ymgysylltwyd â hwy drwy weithgareddau busnes y Parcmyn Haf a'u

rhwydweithio â'r cyhoedd yn gyffredino [Data Sylfaenol ar gyfer 2019/20].

Roedd gwaith y parcmon haf yn y De wedi canolbwyntio ar Saundersfoot a Dinbych-y-pysgod yn flaenrol; eleni gwelwyd cyrhaeddiad ymgysylltiad y Parcmon Haf â chymunedau'n ymestyn i Angle, Ystagbwll a Maenorbŷr.

Cynnwys ac Ymgysylltu: Gwefan APCAP

Yn ystod 2019/20 fe barhaodd yr Awdurdod â gwaith ar ddatblygu gwefan newydd sydd wedi'i halinio â'r cynllun brandio cyrchfan. Roedd hyn yn cynnwys gweithgareddau poblogi cynnwys yn Gymraeg ac yn Saesneg, hyfforddiant a phrofi mewnol. Mae gan y wefan newydd fwy o ymarferoldeb gan gynnwys system archebu ar-lein ar gyfer digwyddiadau. Fe wnaeth datblygu'r datrysiad cywir ar gyfer yr elfen o'r wefan sy'n ei gwneud yn bosibl archebu digwyddiadau ar-lein achosi peth oedi gyda datblygiad y wefan yn ystod y flwyddyn. Aeth y [wefan](#) newydd wedi'i diweddarau'n fyw yn gynnar yn 2020/21.

Gwelodd yr Awdurdod ostyngiad yn nefnyddwyr y wefan ond cynnydd yn nifer yr ymweliadau â thudalennau yn 2019/20 o'i gymharu â 2018/19.

281,598

ddefnyddwyr y Prif wefan yn 2019/20. Mae hyn yn ostyngiad o 342,780 yn

2018/19. Cafwyd 1,430,889 golygfeydd tudalennau'r prif wefan yn 2019/20 cynnydd ar 1,302,963 o olygfeydd yn 2018/19.

Cynnwys ac Ymgysylltu: Sesiynau Golwg ar y Parc

Mae sesiynau Parkwise yn rhoi'r wybodaeth i fusnesau allu helpu ymwelwyr i wneud y gorau o ymweliad â'r Parc Cenedlaethol. Yn 2019/20 cafodd parcmy'n eu hyfforddi ac fe gyfranogon nhw mewn cyflwyno sesiynau Parkwise ar y cyd â'r tîm Darganfod. Roedd hyn yn cynnwys sesiwn yn Llyfrgell Abergwaun, Amgueddfa Dinbych-y-pysgod a dwy sesiwn gyda chyflogeion Retreat Group. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda Chyrchfan Bluestone hefyd i gynllunio sut i ddarparu rhaglen sefydlu yn arddull Parkwise ar gyfer staff.

Er bod parcmy'n wedi'u hyfforddi ac wedi cyfranogi mewn 'cyd-gyflwyno' sesiynau Parkwise gyda'r tîm Darganfod, roedd nifer y sesiynau a ddarparwyd yn dal i fod yn is na'r disgwyl ar ddechrau'r flwyddyn, gan gynnwys ar ôl diwygio'r targed yn dilyn adolygiad canol blwyddyn.

Mesur Perfformiad	2017/18	2018/19	2019/20	2019/20 Targed
# Sesiynau hyfforddiant Golwg ar y Parc a gynhaliwyd	4 (Coch)	6 (Ambr)	4 (Ambr)	5 (Diwygiwyd o 10)
# mynychwyr sesiynau	56 (Ambr)	54 (Ambr)	17 (Coch)	50 (Diwygiwyd)

hyfforddiant
Golwg
ar y Parc



yd o 100)

Y Camau Nesaf ar gyfer Gwella: Ym mis Rhagfyr 2019 trafododd un o gyfarfodydd mewnol yr Awdurdod sut y gellid datblygu Parkwise yn y dyfodol gyda briff prosiect drafft yn cael ei gwblhau. Nodwyd fod angen ymgysylltu ymhellach â'r fasnach i oleuo datblygiad y prosiect, gyda cham gweithredu wedi'i gynnwys yn y cynllun corfforaethol 2020/21 i adlewyrchu hyn. Bydd hyn yn helpu i oleuo ymgysylltiad a disgwyliadau yn y dyfodol o ran cyrhaeddiad disgwylidig Parkwise. Ceir cyfleoedd pellach yn y maes hwn hefyd o ran gweithio gyda busnesau fel llysgenhadon y Parc mewn cysylltiad â'r gwaith ar frandio cyrchfan neu drwy ddatblygu'r cynllun Cysylltiadau Naturiol ymhellach.

Cynnwys ac Ymgysylltu: Offer newydd i gynnwys ac ymgysylltu â phobl â Llwybr Arfordir Cymru

Roedd gweithgareddau a deilliannau Prosiect Marchnata Llwybr Arfordir Cymru yn 2019/20 yn cynnwys:

- ✓ Pecyn cymorth busnes ac elfennau realiti rhithwir a lansiwyd trwy weithdai ar gyfer y fasnach dwristiaeth ledled Cymru.
- ✓ Gŵyl gerdded ledled Cymru gyfan wedi'i chynnal trwy gydol mis Mai 2019 gyda sylw cadarnhaol yn y cyfryngau

- ✓ Rhoddwyd comisiwn i ITV Wales i gynhyrchu cyfres 6 x 30 munud ar Lwybr Arfordir Cymru gyda phob pennod yn canolbwyntio ar ran wahanol o'r llwybr.
- ✓ 'Ap' newydd wedi'i lansio gan gynnwys profiad realiti estynedig newydd yn Saundersfoot.
- ✓ Addaswyd gweithgarwch marchnata Llwybr Arfordir Cymru ar ddiwedd 2019/20 i adlewyrchu'r neges #ArosGartrefAchubBywydau oherwydd pandemig COVID-19.

Mae APCAP wedi sicrhau cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithgareddau marchnata Llwybr Arfordir Cymru a bydd yn parhau i reoli gweithgarwch marchnata Llwybr Arfordir Cymru tan fis Mawrth 2021.

Cydweithio a Gweithio mewn modd Integredig: Prosiect ar y cyd i farchnata Cymru ac Iwerddon

Prosiect partneriaeth Interreg ym maes treftadaeth twristiaeth sy'n cynnwys 6 sir ledled Cymru ac Iwerddon ac sydd wedi'i fwriadu i gynyddu niferoedd, gwariant a gwasgariad ymwelwyr yw "Llwybrau Celtaidd". Casgliad o brofiadau twristiaeth sy'n annog teithwyr i Iwerddon a Chymru i ddarganfod yr Ysbryd Celtaidd trwy gynnig nifer o brofiadau Celtaidd diledryw y gellir ymgolli ynddynt ledled y siroedd yw Llwybrau Celtaidd.

Roedd gweithgareddau a chanlyniadau'r prosiect yn 2019/20 yn cynnwys:

- ✓ Digwyddiad rhanddeiliaid wedi'i gynnal ar gyfer rhanddeiliaid twristiaeth i'w gwahodd i roi eu barn ynglŷn â deilliannau'r rhaglen yn ogystal â'r brandio cysylltiedig.
- ✓ Cynllun Marchnata Strategol ar gyfer 2019/2020 yn ei le.
- ✓ Lansio [Gwefan Llwybrau Celtaidd](#).
- ✓ Lansio rhaglen teithiau dysgu i fusnesau lleol ymweld â busnesau cyfatebol yn Iwerddon.

Fe gynhaliodd Grŵp Llywio'r Prosiect ymarfer ailbroffilio'r gyllideb yn ystod y flwyddyn wedi i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ganfod tanwariant, gyda bwriad i ddyrannu cyllid pellach i weithgareddau marchnata i wneud y gorau o'r brand a'r wefan 'Llwybrau Celtaidd'.

Cyflwynwyd cynnig cam 2 gwerth €1.6m i WEFO i gael ei ystyried.

Ffrwd Waith: Cefnogi Busnesau Lleol (A6)

Cefnogi Busnesau Lleol

Yn 2019 Sir Benfro oedd y sir a gafodd sylw penodol yn Sioe Frenhinol Cymru, gan roi cyfle i hyrwyddo Sir Benfro, cynnyrch lleol a'r Parc i gynulleidfaoedd a ddaeth i'r sioe.

Roedd yr Awdurdod i fod i gynnal y Sioe Fwyd Hynod Wylt yn Oriol y Parc yn 2019; fodd bynnag, cafodd hon ei gohirio gyda'r nod y byddai'r sioe'n cael ei chynnal ym mis Mai 2020. Fe wnaed gwaith hyrwyddo i ddeiliaid stondinau ac fe gynhaliwyd gweithgareddau paratoi yn ystod 2019/20. Serch hynny, yn sgîl pandemig Covid 19 bu'n rhaid canslo'r

digwyddiad a oedd yn yr arfaeth ar gyfer mis Mai 2020.

185

o stondinwyr a gymerodd ran mewn ffeiriau a digwyddiadau yn Oriol y Parc a Chaeriw yn 2019/20. Mae hyn yn ostyngiad o'i gymharu â 249 yn 2018/2019 a 262 yn 2017/18.

27

o artistiaid a chrefftwyr a gefnogir yn Oriol y Parc yn 2019/20. Mae hyn yn cymharu â 22 yn 2018/19 a 25 yn 2017/18.

Darparwyd 4 sesiwn gyda chrefftwyr yn rhannu eu sgiliau yng Nghastell Henllys [Data sylfaenol ar gyfer 2019/20]. Ni fydd y mesur hwn yn cael ei ddwyn ymlaen gan bod Castell Henllys wedi newid ei ddull gyda'r ganolfan yn datblygu sgiliau staff i ddarparu sesiynau yn hytrach na darparwyr allanol.

Parhaodd yr Awdurdod i ddarparu cyfleoedd hysbysebu i fusnesau lleol trwy Coast to Coast yn ystod tymor 2019/20.

Cydnherth: Caffael a Cefnogi Cyflenwyr Lleol

Gwelodd yr Awdurdod gynnydd yng % y gwariant a wariwyd yn lleol o gymharu â 2018/19, gydag ychydig o dan hanner ei wariant yn cael ei wario yn ardal cod post SA.

48.42%

y gwariant yr Awdurdod a wariwyd yn lleol yn ardal cod post SA yn 2019/20. Mae hyn yn gynnydd bach o'i gymharu â 46.44% yn 2018/19.

Mae talu cyflenwyr yn brydlon yn arbennig o bwysig o ran cefnogi busnesau llai. Gwelodd yr Awdurdod welliant yng % yr anfonebau a dalodd yn brydlon yn 2019/20 o gymharu â 2018/19.

Mesur Perfformiad	2017/18	2018/19	2019/20	2019/20 Targed
% yr anfonebau a dalwyd ar amser (Cyfartaledd)	97.22% (Gwyrdd)	96.33% (Ambr)	97.01% (Gwyrdd)	97%
Meincnodi 2019/20: APC Eryri– 98.95%.				

Y Camau Nesaf ar gyfer Gwella: Er bod y mesurau'n dangos canlyniadau cadarnhaol ar gyfer 2019/20, mae hwn yn dal yn faes lle gallai'r Awdurdod wneud mwy ac mae'n faes gwella ehangach i gyrff cyhoeddus a nodwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn [Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020](#). Mae cam gweithredu wedi cael ei gynnwys yn y cynllun corfforaethol ac adnoddau 2020/21 ac yng Nghynllun Gweithredu'r Awdurdod ar gyfer Ymateb i Argyfwng yr Hinsawdd a hwnnw'n canolbwyntio ar adolygiad o gaffael yn yr Awdurdod gan gynnwys opsiynau budd cymunedol ac arferion cynaliadwyedd. Mae ystyried arferion caffael yn arbennig o bwysig wrth feddwl am leihau allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â chadwyn gyflenwi'r Awdurdod.

Ffrwd Waith: Trawsnewid Cyflogaeth (CS)

Cydweithio a Gweithio mewn modd Integredig: Dull integredig o ymdrin â Lleoliadau Profiad Gwaith

Yn ystod 2019/20 datblygodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus dan arweiniad Coleg Sir Benfro a'r Adran Gwaith a Phensiynau gynllun profiad gwaith. Mynychodd swyddog Adnoddau Dynol yr Awdurdod gyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar leoliadau gwaith ac mae'r Awdurdod wedi ymrwymo drwy'r cynllun i ddarparu lleoliadau profiad gwaith.

5

lleoliadau profiad gwaith a myfyrwyr gyda'r Awdurdod yn 2019/20 [Data sylfaenol ar gyfer 2019/20].

Diwygiwyd y mesur uchod hwn yn dilyn adolygiad o gofnodi lleoliadau profiad gwaith a myfyrwyr. Mae'n cynnwys dau leoliad profiad gwaith gyda'r Warden yng Nghastell Henllys ar gyfer myfyrwyr Coleg Plas Dwbl, dau leoliad gyda Darganfod ac un lleoliad gyda Cyfeiriad.

Mae'r Awdurdod hefyd wedi parhau i weithio gyda Choleg Sir Benfro trwy ddarparu sesiynau ymarferol ar gyfer myfyrwyr Cadwraeth Amgylcheddol a Pharatoi Milwrol yn ystod 2019/20.

Cynnwys ac Ymgysylltu: Datblygu Sgiliau drwy ein Cynnig Gwirfoddoli

Trwy arallgyfeirio ein harlwy draddodiadol ar gyfer gwirfoddolwyr, mae gwirfoddolwyr yn gallu datblygu ystod ehangach o sgiliau. Er enghraifft, mae un gwirfoddolwr yn

2019/20 wedi bod yn rheoli, golygu a chreu fideos ar gyfer y prosiect Arfordir Newidiol. Mae'r broses o arallgyfeirio cyfleoedd ar gyfer gwirfoddolwyr wedi cael ei chefnogi trwy waith y cydgysylltydd gwirfoddolwyr.

105

Diwrnodau gwirfoddolwyr mewn swyddfeydd a chanolfannau yn 2019/20. [Data sylfaenol ar gyfer 2019/20].

Cafodd llawer o'r cyfleoedd hyfforddi ar gyfer gwirfoddolwyr yn 2019/20 eu gwneud yn bosibl trwy'r prosiect gwirfoddoli â chymorth, Llwybrau, gan gynnwys hyfforddiant gosod perthi a hyfforddiant cadwraeth a oedd yn cynnwys monitro ac adnabod Gwenyn, Pili-Palaod ac iaith Adar. Mae'r sesiynau hyn yn cynorthwyo gwirfoddolwyr unigol i ddatblygu eu sgiliau a'u cymhelliant. Mynychodd gwirfoddolwyr hefyd sesiwn hyfforddi Cymraeg yn y Dirwedd ochr yn ochr â Staff APCAP.

217

cyfranogwyr mewn sesiynau hyfforddi gwirfoddolwyr a drefnwyd gan APCAP yn 2019/20. Mae hyn yn gynnydd ar 107 o gyfranogwyr yn 2018/19.

Meddwl Tymor Hir: Astudiaeth Ddichonoldeb

Yn flaenorol fe wnaeth y cynllun Sgiliau ar Waith gynorthwyo pobl i ennill sgiliau a phrofiad mewn rheoli cefn gwlad trwy weithio ochr yn ochr â Wardeniaid yr Awdurdod. Gan gydnabod llwyddiant y prosiect hwn mae'r Awdurdod yn amcanu at ddatblygu prosiect dilynol. Yn dilyn cyfarfodydd rhwng swyddogion i ddatblygu'r prosiect mae papur amlinellol wedi cael ei ddrafftio i ymchwilio i gyllid ar gyfer astudiaeth gwmpasu a fydd yn bwrw golwg ar gynllun prentisiaeth cefn gwlad ar gyfer Gorllewin Cymru. Bydd cwblhau'r astudiaeth gwmpasu hon yn darparu sail dystiolaeth gyfredol i sicrhau bod y cynllun yn adlewyrchu bylchau o ran sgiliau a chyfleoedd.

Amcan Llesiant Cydnerth: Gwella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol (A6)**Ffrydiau gwaith a roddodd gymorth i gyflawni'r amcan hwn yn 2019/20**

Gwasanaeth Rheoli Tir - Cadwraeth	Prosiectau Bioamrywiaeth a Chysylltedd	Gwasanaeth Cynllunio - Coed a Warchodir
Gofalu am Ecosystem y Parc - Ymgysylltu a Gwirfoddoli	Polisi a Gwasanaeth Cynllunio -SMNR/ Cadwraeth	Strategol a Phartneriaethau - Cadwraeth
Amgylchedd Morol a Blaendraeth (Mae'r ffrwd waith hon wedi cael ei symud o'r amcan Byd-eang fel ei bod yn eistedd o dan yr amcan hwn)		

Crynodeb o'r Diogelwr Taith – Ein Cynnydd yn erbyn yr Amcan hwn

Mae Cynllun Rheoli newydd y Parc Cenedlaethol yn darparu meysydd ffocws sy'n flaenoriaeth ar gyfer gwaith cadwraeth yr Awdurdod yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r Awdurdod yn parhau i asesu'r effaith y bydd ymadael â'r UE yn ei chael ar ei waith rheoli tir cadwraeth. Yn 2019/20 rhoddwyd mwy o gydnabyddiaeth i rôl ei waith cadwraeth o ran ymateb i Argyfwng y Newid yn yr Hinsawdd. Mae'r Awdurdod wedi parhau i wneud gwaith cadwraeth gyda Thirfeddianwyr ac ar ei ystâd ei hun. I gydnabod rôl bwysig Cynllun Gwarchod y Parc o ran meithrin cydnerthedd yn y Parc, fe gynyddodd yr Awdurdod gapasiti swyddogion trwy ddyrannu adnoddau ychwanegol i benodi Swyddog Cadwraeth ychwanegol.

Mae'r Awdurdod yn treialu dulliau newydd trwy'r prosiectau Pobl, Planhigion a Pheillwyr a Ffiniau Traddodiadol. Mae wedi gallu parhau â'i waith ar rywogaethau goresgynnol wedi i'r prosiect Pwyth mewn Pryd gael cyllid Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru (ENRaW), gan ehangu'r dalgylchoedd a gwmpesir a dangos sut y mae swm yr adnoddau y mae eu hangen i gynnal a monitro safleoedd yn dilyn ymyrryd yn gynharach yn lleihau dros amser. Mae dull yr Awdurdod o fynd ar drywydd cadwraeth yn y Parc yn dal i fod yn seiliedig ar gydweithio, gan gyflawni effeithiau trwy gefnogi rhwydwaith Pori Sir Benfro, Grŵp Tanau Gwyllt Sir Benfro, Partneriaeth Natur Sir Benfro, prosiect WAM Fforwm Arfordir Sir Benfro a Grwpiau Awdurdodau Perthnasol Morol ar gyfer ACA. Mae gwirfoddolwyr wedi parhau i gefnogi ymdrechion cadwraeth yr Awdurdod yn y Parc trwy ystod o weithgareddau gwirfoddoli, gan gynnwys digwyddiadau glanhau traethau a phlannu coed.

Mae ein gwaith ar draws y ffrydiau gwaith hyn yn cyfrannu at y dangosyddion llesiant cenedlaethol canlynol

13. Crynodeiad carbon a deunydd organig mewn pridd

43. Ardaloedd o ecosystemau iach yng Nghymru

28. Y ganran o'r bobl sy'n gwirfoddoli

44. Statws amrywiaeth Fiolegol yng Nghymru

45. Y ganran o'r cyrff dŵr wyneb, a'r cyrff dŵr daear, sy'n cyrraedd statws da neu uchel ar y cyfan

Mae'r adran nesaf yn amlinellu ein perfformiad yn 2019/20 yn erbyn y ffrydiau gwaith sy'n cyfrannu at ein Hamcan Llesiant Cydnerth.

Ffrwd Waith: Gwasanaeth Rheoli Tir - Cadwraeth (A6)

Atal a meithrin cydnerthedd: Rheoli Tir Cadwraeth

Fel rhan o raglen rheoli tir yr Awdurdod, mae gwaith cadwraeth yn cael ei wneud ar dros gant o safleoedd, sef cyfanswm o rhyw 4,501.6 hectar (7.3% o'r Parc Cenedlaethol), gyda'r nod o fod o fudd i gynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth yn y Parc. Cyflawnir hyn drwy reoli'r ystâd sy'n eiddo neu ar brydles i'r Awdurdod, cefnogi partneriaethau rheoli tiroedd comin a hefyd drwy weithio mewn partneriaeth â thirfeddianwyr preifat gyda'n cynllun 'Gwarchod y Parc'.

463	Hectar – eiddo y mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn berchen arno neu'n ei brydlesu a reolir ar gyfer bioamrywiaeth yn 2019/20.
1,288.6	Hectar – Tir a reolir ar gyfer bioamrywiaeth mewn partneriaeth â Thirfeddianwyr preifat
2,750	Hectar – Tir mynediad lle mae'r APC yn cefnogi partneriaethau rheoli tir comin.

Gan gydnabod rôl bwysig Cynllun Gwarchod y Parc o ran meithrin cydnerthedd yn y Parc, fe gynyddodd yr Awdurdod gapasiti swyddogion trwy ddyrannu adnoddau ychwanegol trwy benodi Swyddog Cadwraeth ychwanegol yn 2019/20. Mae'r agwedd cytundebau rheoli ffurfiol ar gyllideb y cynlluniau wedi cael ei neilltuo'n llawn bellach gyda'r Awdurdod yn ymrwymo i gytundebau newydd dan amgylchiadau eithriadol yn unig. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod hefyd wedi bod yn gweithio ac yn cefnogi perchnogion safleoedd ychwanegol (y tu allan i'r cytundebau rheoli ffurfiol) gyda gweithgareddau cadwraeth a chynefinoedd trwy gyngor a gweithgareddau eraill.

Mesur Perfformiad	2017/18	2018/19	2019/20	2019/20 Targed
Safleoedd Cadwraeth - % yn unol â'u Cynllun Rheoli ffurfiol	100 (Gwyrdd)	100 (Gwyrdd)	100 (Gwyrdd)	100

3	cytundebau rheoli ffurfiol newydd a wnaed trwy Warchod y Parc yn 2019/20. Mae hyn yn cymharu â 2 gytundeb newydd yn 2018/19 a 7 yn 2017/18.
21.94	Hectar a gwmpesir gan gytundebau rheoli ffurfiol newydd trwy Warchod y Parc. Mae hyn yn cymharu â 6 hectar yn 2018/19 a 55 hectar yn 2017/18.

11

safleoedd newydd lle rydym yn gweithio i gadwraeth gyda'r perchnogion (tu allan o gytundebau rheoli ffurfiol) trwy Warchod y Parc yn 2019/20, ar draws 67.03 hectar..

Meithrin cydnerthedd: Pollinator Habitats

Ers 2017/18 mae'r Awdurdod wedi creu 54.74 hectar o gynefin pryfed peillio newydd.

10.74

Hectar – cynefin pryfed peillio newydd sydd wedi'i greu yn 2019/20, mae hyn yn cymharu â 6 hectar yn 2018/19 a 38 hectar yn 2017/18.

Meithrin cydnerthedd: Prosiect Mursen y De

Dros y gaeaf 2019/20, derbyniodd APCAP gyllid gan Cyfoeth Naturiol Cymru i warchod mursennod deheuol prin sydd ond yn byw yn y Goedwig Newydd ac yng ngodrefyniau mynyddoedd y Preseli.

Gwnaethom gomisiynu cynllun rheoli ar gyfer y rhywogaeth, yn rhoi canllawiau manwl fesul safle ar reoli cynefinoedd a monitro dros y degawdau i ddod. Cafodd ffensys ffiniol o amgylch y tiroedd comin eu hariannu gennym ni, yn galluogi pori i gynnal yr amodau agored sydd eu hangen ar fursen y de. Hefyd digwyddodd rhywfaint o gloddio mecanyddol o ffosydd a nentydd newydd er mwyn ailgreu cynefin sydd wedi diflannu dros y blynyddoedd. Bydd y gwaith hwn yn darparu cyfleoedd arolygu i staff a gwirfoddolwyr yn y dyfodol.

Cydweithio: Dôl Blodau Gwyllt Skrinkle Haven

Mae Wardeniaid yr Awdurdod wedi bod yn gweithio am flynyddoedd i wella bioamrywiaeth yn nôl Skrinkle Haven ac eleni fe ddarparon nhw un o'r arddangosfeydd gorau o degeirianau a'r amrywiaeth fwyaf cyfoethog o flodau gwyllt a welwyd hyd yma. Mae'r toreth a'r amrywiaeth o blanhigion wedi darparu cyfle i gasglu hadau, sydd wedi helpu tîm yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn eu gwaith i greu dolydd blodau gwyllt newydd ar Ystâd Southwood. Mae gwair gwyrdd, sy'n cynnwys hadau blodau gwyllt o Skrinkle Haven a safleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Good Hope a Chastell, wedi cael ei daenu ar draws 14 hectar o dir yn Southwood, gyda'r nod o greu dolydd sy'n gyforiog o rywogaethau ac sy'n cyflawni dros natur.



Tegeirian yn Nôl Skrinkle Haven

Ffrwd Waith: Prosiectau Bioamrywiaeth a Chysylltedd (A6)

Meithrin cydnerthedd: Prosiect Pobl, Llwybrau a Pheillwyr

Mae'r prosiect yn gwella bioamrywiaeth ar hyd rhan Niwglwl i Abereiddi o Lwybr Arfordir Sir Benfro. Mae'r ardal hon yn dod o fewn Ardal Infertebratau Pwysig Arfordir Sir Benfro. Bydd rhoi gwelliannau bioamrywiaeth wrth wraidd cynnal a chadw Llwybr yr Arfordir yn galluogi cysylltedd ar gyfer rhywogaethau ac yn cefnogi mynediad a phori arfordirol. Mae'r prosiect yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i fapio, creu polisïau a chanllawiau ynghyd â rhannu sgiliau a dysgu gyda staff y Parc Cenedlaethol a gwirfoddolwyr.

Mae gweithgareddau ac effeithiau'r prosiect yn 2019/20 yn cynnwys:

- ✓ 25 milltir o Lwybr yr Arfordir wedi'i arolygu o Abereiddi i Niwglwl i nodi mannau allweddol i wella cysylltedd a chyfleoedd am gynefinoedd.
- ✓ 200m o lechweddau gwenyn wedi'u creu drwy glirio darnau o lechweddau a welydd sy'n wynebu tua'r de.
- ✓ Sefydlu 5 plot i fonitro mewnlifiad prysgwydd
- ✓ Cynnal arolygon ar gyfer cacwn, chwilod olew a thegeirian troellig yr hydref.
- ✓ Gwaith sgolpiâu'r gaeaf a waned – tua 2000m o 'dwnnel gwynt' Llwybr yr Arfordir wedi'i dorri. Mae hyn yn creu

ardaloedd cysgodol ychydig oddi ar y Llwybr i bryfed a phlanhigion osgoi gwyntoedd cryfion.

- ✓ Mae cynlluniau peillwyr wedi'u creu ar gyfer Oriol y Parc, Porthgain a Maes Awyr Tyddewi. Mae'r cynlluniau'n edrych ar greu cynefin mwy amrywiol ym mhob lleoliad drwy greu mwy o gyfleoedd nythu a ffynhonnell fwyd fwy amrywiol i bryfed.
- ✓ Fan drydanol yn cael ei defnyddio gan y swyddog Prosiect

Meddwl Tymor Hir: Prosiect Ffiniau Traddodiadol

Mae gan Sir Benfro amrywiaeth eang o nodweddion terfyn traddodiadol. Mae terfynau'n amrywio o gloddiau cerrig a phridd i gloddiau pridd â pherth o lwyni prenaidd ar eu pennau. Maent yn darparu cynefin hanfodol ac yn gweithredu fel nodweddion cysylltedd o fewn y dirwedd amaethyddol. Mewn nifer o ardaloedd maent yn gweithredu fel ardal natur linellol hir.

Nod y prosiect yw llunio cynllun i gynorthwyo tiffeddianwyr i adfer a rheoli eu terfynau traddodiadol. Wrth wneud hyn bydd y prosiect peilot yn ceisio darganfod mwy am gyflwr cyfredol ein terfynau i gadarnhau cyfraddau grantiau priodol ar gyfer cynllun trwy gyflawni gwaith ymarferol, sefydlu'r sail contractwyr, y manylebau a phrofi diddordeb tiffeddianwyr yn y Parc Cenedlaethol ar gyfer cynllun o'r fath. Yn 2019/20 fe gomisiynodd yr Awdurdod arolwg o Derfynau Traddodiadol a ddyfarnwyd i gontractwr archeolegol o'r enw Trysor. Cwblhawyd yr arolwg hwn ym mis Mawrth 2020 a bydd hwn

yn helpu'r Awdurdod yn awr i ddatblygu'r Cynllun Terfynau Traddodiadol peilot.

Ffrwd Waith: Polisi a Gwasanaeth Cynllunio - SMNR/ Cadwraeth (A6)

Atal: Polisi 8 yn y Cynllun Datblygu Lleol

Mae'r Awdurdod yn parhau i fonitro effaith ei benderfyniadau cynllunio er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â pholisïau diogelu'r dirwedd. Parhawyd i gyrraedd y targed o 0 datblygiad wedi'i gymeradwyo yn groes i bolisïau amddiffyn y dirwedd (Polisi 8 yn y Cynllun Datblygu Lleol) yn 2019/20.

Mesur Perfformiad	2017/18	2018/19	2019/20	2019/20 Targed
# y datblygiadau a gymeradwywyd yn groes i bolisïau gwarchod y dirwedd (Polisi 8 yn y Cynllun Datblygu Lleol)	0 (Gwyrdd)	0 (Gwyrdd)	0 (Gwyrdd)	0

Ffrwd Waith: Gofalu am Ecosystem y Parc - Ymgysylltu a Gwirfoddoli (A6)

Ymgysylltu a Chynnwys: Cefnogi pobl i ofalu am ecosystemau'r Parc

Cafodd yr Awdurdod gynnydd o 17% mewn diwrnodau gwirfoddolwyr cadwraeth a gyfrannwyd yn 2019/20 o gymharu â 2018/19.

1,149	Diwrnodau gwirfoddolwyr a gyfrannwyd at waith sy'n gysylltiedig â chadwraeth yn y Parc yn 2019/20, mae hyn yn cymharu â 975 yn 2018/19 a 915 yn 2017/18.
162	Diwrnodau gweithredu cymdeithasol sy'n gysylltiedig â chadwraeth yn y Parc yn 2019/20.
112.5	Diwrnodau gwirfoddolwyr a gyfrannwyd at waith rhywogaethau goresgynnol yn y Parc yn 2019/20, mae hyn yn cymharu â 169 yn 2018/19 a 109.89 yn 2017/18.

Ymgysylltu a Chynnwys: Coed yn y Dirwedd

Fe helpodd yr Awdurdod i hwyluso cyfleoedd i wirfoddolwyr gyfrannu at nifer y coed yn y dirwedd.

66	diwrnodau gwirfoddolwyr yn cyfrannu at blannu coed a gwrychoedd yn 2019/20 (A6).
----	--

Roedd gweithgareddau yn 2019/20 yn cynnwys:

- ✓ Plannu coed ar y clawdd â pherth yn Niwglwl gyda gwirfoddolwyr Llwybrau a Cadwch Gymru'n Daclus.


- ✓ Plannu llwyni yn Fferm Cardeeth gyda Wardeniaid Gwirfoddol, Cyfeillion y Parc Cenedlaethol, Gwirfoddolwyr Cyffredinol APCAP a Gwirfoddolwyr Llwybrau.
- ✓ Plannu coed gyda Wardeniaid Gwirfoddol y De yn Ardal Cyngor Cymuned Caeriw.
- ✓ Plannu coed fel rhan o Wobr Dug Caeredin yn Allt Pengegin

Atal a Meithrin Cydnerthedd: Pwyth mewn Pryd


Prosiect sy'n canolbwyntio ar gefnogi cadwraeth trwy frwydro yn erbyn rhywogaethau estron goresgynnol mewn rhai dalgylchoedd yn y Parc – dalgylchoedd Cwm Gwaun, Clydach, Porthgain a Castellmartin yw Pwyth mewn Pryd. Mae wedi cael cyllid am 3 blynedd o gynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru (ENRaW) Llywodraeth Cymru a chyllid ychwanegol trwy Ymddiriedolaeth Parc Genedlaethol Arfordir Penfro. Mae Rhywogaethau Estron Goresgynnol yn ffactor allweddol sy'n arwain at golli bioamrywiaeth yn fyd-eang ac yn lleol. Mae'r prosiect Pwyth mewn Pryd yn treialu dull rheoli dalgylchoedd o'r brig i lawr ar dair Rhywogaeth Estron Oresgynnol a dargedir, sef Clymog Japan, Jac y Neidiwr a Rhododendron Ponticwm. Mae'r prosiect yn adeiladu ar wersi o'i waith blaenorol yng Nghwm Gwaun. Caiff rheolaeth arfer gorau ei chydgyssylltu ar lawr gwlad gan ddefnyddio gwirfoddolwyr, contractwyr ac amser staff. Mae ymgysylltu â thirfeddianwyr a chodi ymwybyddiaeth yn un o'r ffactorau allweddol sy'n sbarduno'r prosiect.

21.50	Hectar - Rhywogaethau ymledol wedi'u gwaredu yn y tarddiad/chwistrellu yn 2019/20. Mae hyn yn cymharu â 53.44 hectar yn 2018/19 a 57.31 hectar yn 2017/18.
14	Hectarau o Jac y Neidiwr yn cael eu dosbarthu fel 'Rheoli ar y Gweill' ar draws y dalgylchoedd ar hyn o bryd

Mae gwaith monitro a chynnal a chadw'n mynd rhagddo yng Nghwm Gwaun a Llanrhian / Porthgain i reoli Jac y Neidiwr gan bod y pla yn y dalgylch wedi'i leihau i raddau helaeth. Datblygwyd graffiau i ddangos gostyngiad yn yr adnoddau y mae eu hangen yn is-ddalgylchoedd Cwm Gwaun ers 2015. Er enghraifft, mae'r graff isod yn dangos y gostyngiad yn nhrwch Jac y Neidiwr rhwng 2015 a 2019 a'r gostyngiad cysylltiedig yn yr amser sy'n ofynnol ar gyfer monitro a chynnal a chadw'r ardal yn Nant Pontfaen.



Allbwn wedi'i fapio â System Wybodaeth Ddaearyddol – Map statws pla Jac y Neidiwr ar bwys dŵr yn nalgylch Clydach 2019 (Absennol – gwyrdd, Ar y gweill – oren, Yn bresennol – porffor a Monitro a chynnal a chadw - glas.)



Mae gwaith i ail-drin Clymog Japan a Rhododendron yn parhau yn nalgylch Cwm Gwaun. Mae Castellmartin a Chlydach dan reolaeth dwysedd uchel tra pery prosiect ENRaW Llywodraeth Cymru gan ganolbwyntio ar bla Jac y Neidiwr a chlymog lle mae caniatadau'n bodoli.

Mae gweithgareddau a llwyddiannau Prosiect Pwyth mewn Pryd yn 2019/20 yn cynnwys:

- ✓ Sefydlu Grŵp INNS De Orllewin Cymru gydag 11 o randdeiliaid yn rhannu arfer da a'r hyn a ddysgwyd

- ✓ 42 o fusnesau bach a chanolig a thirfeddianwyr/rheolwyr wedi bod yn trafod rheoli INNS yn gynaliadwy.
- ✓ Cynlluniau monitro a chynnal wedi'u cynhyrchu ar gyfer Dalgylch Porthgain a Dalgylch Cwm Gwaun.
- ✓ Mae contractwyr wedi bod yn parhau â gwaith arolygu a rheoli yng Nghwm Gwaun a Phorthgain. Mae'r Contractwr yng Nghlydach wedi estyn yr ardal reoli.
- ✓ Parcryn APCAP wedi cael strategaeth monitro a chynnal a chadw ddrafft ar gyfer Porthgain i helpu i gynllunio eu hymwneud. Tîm Wardeniaid y Gogledd wedi'i gyflwyno i safle yn y gogledd i gynnal rheolaeth yn annibynnol ar y Swyddog Prosiect.
- ✓ Mae'r Swyddog Prosiect wedi hwyluso arolwg ecolegol o fewn safleoedd ar gyfer Dyfrgwn. Mae canlyniadau Dyfrgwn yn awgrymu bod rhai safleoedd yr effeithir arnynt gan Jac y Neidiwr yn cael eu defnyddio fel ardaloedd ymborthi / cynefin gan ddyfrgwn.
- ✓ Cynnig llwyddiannus am grant gan Bartneriaeth Natur Sir Benfro i gael cyllid ar gyfer gwaith mynediad a Jac y Neidiwr yng ngogledd y Parc.
- ✓ Mae Grŵp Llwybrau Trefdraeth, Gwirfoddolwyr Llwybrau, Cyfeillion y Parc Cenedlaethol a Wardeniaid Gwirfoddol wedi cyfranogi mewn gwaith tynnu Jac y Neidiwr, mynediad a monitro ar draws y dalgylchoedd.

Ffrwd Waith: Gwasanaeth Cynllunio - Coed a Warchodir (A6)

Atal a Meithrin Cydnerthedd: Coed Gwarchodedig

Mae gan awdurdodau cynllunio lleol bwerau penodol i ddiogelu coed trwy wneud gorchmynion cadw coed (TPOs). Mae gorchmyn cadw coed yn orchymyn a wneir gan Awdurdod sydd, yn gyffredinol, yn ei gwneud yn drosedd torri, topio, tocio, dadwreiddio, difrodi neu ddinistrio'n fwrriadol goeden heb ganiatâd yr awdurdod cynllunio.

2

y gorchmynion diogelu coed newydd a waned yn 2019/20, mae hyn yn cymharu â 9 yn 2018/19 a 3 yn 2017/18.

41

y ceisiadau i wneud gwaith i goed a warchodir y penderfynwyd yn eu cylch yn 2019/20, mae hyn yn cymharu â 50 yn 2018/19 a 57 yn 2017/18.

Ffrwd Waith: Strategol a Phartneriaethau - Cadwraeth (A6)

Integreiddio: Dogfen Gyfeirio A6

Cyflwynwyd y ddyletswydd adran 6 (a6) dan [Ddeddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#) i wella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau yng Nghymru. Mae dyletswydd Adran 6 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal ac ehangu bioamrywiaeth cyn belled ag y bo

hynny'n gyson â chyflawni eu swyddogaethau yn briodol, gan hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau drwy wneud hynny.

Mae gofyniad Adran 6 yn rhoi cyfle ffurfiol i adolygu'r prosesau presennol o gynllunio ac adrodd ar fioamrywiaeth a chydnerthedd yn erbyn canllawiau Llywodraeth Cymru (2017). Mae hyn yn awgrymu mai'r arfer gorau fyddai integreiddio cynllunio A6 â chynllunio corfforaethol ac nad oes angen paratoi a chyhoeddi cynllun A6 ar wahân i gyflawni'r ddyletswydd A6, er y gallai hyn fod yn ddefnyddiol o ran gweithredu.

Yn achos APCAP, ystyrir y byddai cynllun ar wahân yn mynd yn groes i'r egwyddor o gynllunio a chyflawni integredig y mae'r Awdurdod eisoes yn ei gweithredu. Paratowyd [dogfen cyfeirio](#) er mwyn dangos sut mae'r Awdurdod o'r farn bod gofynion A6 yn cael eu bodloni a'u monitro, ac i glustnodi unrhyw feysydd allai gael eu cryfhau. Cyflwynwyd y ddogfen hon ac fe'i cymeradwywyd gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn ei gyfarfod ym mis Medi 2019.

Meddwl Tymor Hir: Polisi Rheoli Tir ac Ymadael â'r UE

Yn ystod 2019/20 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr ymgynghoriad "Ffermio Cynaliadwy a'n Tir – Cynigion diwygiedig ar gyfer cefnogi ffermwyr Cymru ar ôl Brexit". Cyflwynwyd papur ar yr ymgynghoriad i Aelodau yng Nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ar 4 Medi, gyda 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol Cymru'n cyflwyno ymateb ar y cyd i'r ymgynghoriad. Mynychodd Prif Weithredwr yr Awdurdod Gyfarfodydd Grŵp Tasg a Gorffen Llywodraethu

Amgylcheddol a chyfarfodydd bord gron Brexit Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn.

Cydweithio: Rhwydwaith Pori Sir Benfro

Bellach mae Rhwydwaith Pori Sir Benfro yn un o'r prosiectau o'i fath sydd wedi bod yn rhedeg hiraf yng Nghymru. Y nod yw hwyluso pori er mwyn gwarchod natur, trwy sefydlu system ble mae safleoedd neu stoc sydd ar gael a safleoedd neu'r stoc sydd eu hangen, yn gallu cael eu cyfateb ble'n bosib. Felly, gellir cydlynu ymdrechion mudiadau cadwraeth a'r gymuned ffermio, a'u hintegreiddio, fel bod modd rhannu stoc, safleoedd, offer ac arbenigedd ers lles pawb.

Roedd gweithgareddau a chyflawniadau'r Rhwydwaith yn 2019/20 yn cynnwys:

- ✓ Ymarfer llwyddiannus i recriwtio porwr newydd ar gyfer gogledd ddwyrain Sir Benfro gan bod y prif borwr yn ymddeol. Ceir porwyr newydd ar gyfer de a gorllewin y Parc hefyd.
- ✓ Gwiriadau rheolaidd o safleoedd a stociau'n mynd rhagddynt yn barhaus.
- ✓ Parhau i ddenu safleoedd newydd, gyda'n porwyr newydd yn gallu ateb y galw am anifeiliaid yn ogystal â bod â chapasiti pellach i dderbyn safleoedd ychwanegol a fydd yn cael eu cyflwyno yn y dyfodol.
- ✓ Bellach ceir cronfa brofiadol o wirwyr stociau, sy'n gallu llenwi unrhyw fylchau yn y gwiriadau lles rheolaidd sy'n ofynnol ar gyfer merlod Rhwydwaith Pori Sir Benfro.

Cydweithio: Grŵp Tanau Gwylltion Sir Benfro

Partneriaeth o sefydliadau sy'n cynnwys yr Awdurdod, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC), Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac a reolir dan nawddogaeth Rhwydwaith Amaethyddiaeth Gynaliadwy PLANED yw Grŵp Tanau Gwyllt Sir Benfro. Mae'r Grŵp yn gweithio gyda ffermwyr, tiffeddianwyr a phorwyr i roi cyngor a chynhorthwy iddynt o ran cynnal gweithgarwch dan reolaeth i losgi llystyfiant a materion cysylltiedig.

Roedd gweithgareddau a chyflawniadau'r Grŵp yn 2019/20 yn cynnwys:

- ✓ Rhaglen dorri flynyddol i atal tanau'n cael ei rhoi ar waith ar diroedd comin a chynefinoedd cysylltiedig yng Ngogledd a Gogledd Orllewin Sir Benfro.
- ✓ Presenoldeb da yn Sioe Sir Benfro ym mis Awst 2019 ar stondin GTACGC. Dangosodd yr arddangosfa sut y gellir defnyddio grug ac eithin wedi'u cywain yn lleol fel deunydd gorwedd anifeiliaid dros y gaeaf sy'n gallu lleihau'r risg i rostiroedd trwy leihau'r llwyth tanwydd.
- ✓ Danfon deunydd gorwedd o rostir a dorwyd gaeaf diwethaf ac a bentyrrwyd ar y Castell ger y Comin i ffermwr yn Abergwaun i'w ddefnyddio dan wartheg a gedwir dan do yn ystod y gaeaf a oedd i ddod. Mae'r deunydd a bentyrrwyd ym Mynydd Tre-wman wedi cael ei ddefnyddio yn yr un modd gan ffermwr yn Spittal hefyd. Y gobaith yw y bydd defnyddio'r deunydd hwn wedi'i dorri'n hybu mwy o ymwybyddiaeth o ddefnyddio a derbyniad i

ddefnyddio deunydd gorwedd o rostiroedd gan felly arbed cost a lleihau ôl troed carbon mewnforio gwellt i mewn i Sir Benfro a gwella bioamrywiaeth a lleihau llwyth tanwydd safleoedd sy'n rhoi.

Integreiddio: Partneriaeth Natur Sir Benfro

Mae Partneriaeth Natur Sir Benfro'n darparu trosolwg strategol a fforwm ar gyfer cydweithio o ran cyflawni blaenoriaethau'r UE, y DU, Cymru a lleol ar gyfer bioamrywiaeth trwy'r Cynllun Adfer Natur ar gyfer Sir Benfro. Sicrhawyd cyllid ar gyfer y bartneriaeth trwy gynllun grantiau ENRaW Llywodraeth Cymru, gan helpu i gefnogi cynaliadwyedd y bartneriaeth hon.

Parhaodd APCAP i fynychu cyfarfodydd y Bartneriaeth ac i gytuno ar ddyrannu grantiau bach bioamrywiaeth trwy'r Bartneriaeth. Mae'r Bartneriaeth wedi bod yn dosbarthu'r grant gan Lywodraeth Cymru gan gynnwys 'Lleoedd Lleol ar gyfer Natur' a 'Gwneud yr Ystâd yn Fwy Gwyrdd'.

Ffrwd Waith: Amgylchedd Morol a Blaendraeth (A6)

Atal: Gorsafoedd Ail-lenwi Dŵr

Trwy gyllid gan Lywodraeth Cymru mae'r Awdurdod wedi gallu cyfrannu at wneud Cymru'n genedl ail-lenwi. Mae wedi gwneud hyn trwy osod gorsafoedd ail-lenwi â dŵr ledled y Parc, a fydd yn ei gwneud yn haws i bobl ail-lenwi eu poteli

dŵr heb fod angen prynu poteli untro. Bydd hyn yn helpu i leihau gwastraff a llygredd môr yn y tymor hir.

7

gorsafodd ail-lenwi dŵr wedi'u gosod yn 2019/20.

Mae'r gorsafodd ail-lenwi dŵr yn y lleoliadau canlynol:

Nolton Haven	Abercastell	Dwyrain Freshwater
Porthclais	Pwllgwaelod	San Ffraid
Amroth		

Gosodwyd y mwyafrif o unedau ym mis Mawrth 2020 ac o ganlyniad nid oedd modd eu rhoi ar waith unwaith yr oeddent wedi'u gosod oherwydd effaith Covid 19. Mae uned ychwanegol i'w gosod ym Maes Parcio Aberllydan fel rhan o'r prosiect mawr ar gyfer y safle.

Cydweithio: Data Rheoli Blaendraeth

Mae'r Awdurdod yn un o'r arianwyr a'r rhanddeiliaid sy'n rhan o'r prosiect cydweithredol [Mapio Gweithgarwch Cymru \(WAM\)](#) a ddatblygwyd ac a reolir gan Fforwm Arfordir Sir Benfro. Mae WAM yn darparu gwybodaeth fanwl am amrywiaeth o weithgarwch morol ac arfordirol a ddangosir mewn System Gwybodaeth Ddaearyddol. Defnyddir yr wybodaeth gan asiantaethau lluosog fel sylfaen dystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau a chynllunio mewn perthynas â'r arfordir. Mae WAM yn cynnwys haenau System Gwybodaeth Ddaearyddol am sectorau morol eraill hefyd, e.e. cydsyniadau ar gyfer yr holl Gynlluniau a Phrosiectau yn

Ardal Cadwraeth Arbennig Forol Sir Benfro. Fe grynodd Fforwm Arfordir Sir Benfro ddata gweithgarwch trwy gydol 2019, y gellir ei weld bellach ochr yn ochr â'r data hanesyddol, a gasglwyd yn wreiddiol yn 2018. Mae'r fethodoleg yn ei gwneud yn bosibl gweld unrhyw newidiadau mewn tueddiadau a datblygiadau seilwaith o ran hamdden arfordirol. Bydd hyn o gymorth i ddatblygu fframwaith ar gyfer rheoli yn yr ardal yn y dyfodol.

Yn ogystal ag eistedd ar Grŵp Llywio Mapio Gweithgarwch Cymru fe dreuliodd parcymyn yr Awdurdod nifer o sesiynau'n cofnodi data ar gyfer arolwg traethlin hamdden Mapio Gweithgarwch Cymru. Aeth swyddogion ar ymweliad â safle Gann gyda CNC hefyd i drafod gwaith CNC i wella cyflwr y SoDdGA/ACA o ganlyniad i balu am abwyd.

Integreiddio: Ymwneud yn Strategol â Rheoli'r Amgylchedd Morol

Parhaodd yr Awdurdod i gael ei gynrychioli ar y Grwpiau Awdurdodau Perthnasol ar gyfer ACA Forol Sir Benfro, ACA Bae Ceredigion a Safleoedd Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Sir Gaerfyrddin ac i gyfrannu at ariannu'r rhain. Parhaodd hefyd i gynrychioli Awdurdodau Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Eryri ar Grŵp Llywio Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig Llywodraeth Cymru.

Roedd gweithgareddau ymgysylltu strategol yn cynnwys:

- ✓ Ym mis Mai 2019 darparodd yr Awdurdod dystiolaeth ysgrifenedig a llafar ar gyfer ymchwiliad dilynol y Pwyllgor

Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig (CCERA) i reoli ardaloedd morol gwarchoddedig.

- ✓ Fe wnaeth Grŵp Awdurdodau Perthnasol Morol Sir Benfro sylw ar ymateb Llywodraeth Cymru i ymchwiliad dilynol CCERA i Ardaloedd Morol Gwarchoddedig er mwyn egluro casgliad y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig ynghylch y dull y cytunwyd arno fel yr un a ffefrir ganddo o reoli ardaloedd morol gwarchoddedig.
- ✓ Ym mis Ionawr darparwyd sylwadau ar y gyfres ddiweddaraf o geisiadau ar gyfer cynlluniau gweithredu Ardaloedd Morol Gwarchoddedig.

Cydweithio: Llygredd Golau a Phalod Manaw

Ynysoedd Sgomer a Sgogwm sydd â'r crynodiad bridio mwyaf y gwyddys amdano o adar drycin Manaw yn y byd. Bu pryder cynyddol yn lleol o du Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, RSPB ac ymchwilyr i adar ar yr ynysoedd am effaith llygredd golau ar adar drycin Manaw ifainc wrth iddynt adael yr ynysoedd ym mis Awst a mis Medi, gan wneud eu hediad cyntaf. Mae hwn yn fater sy'n ymwneud yn arbennig â thanceri â goleuadau llachar sydd wedi angori ym Mae San Ffraid, a'r terfynfeydd a'r purfeydd o amgylch yr Aber. Mae'r goleuadau llachar yn effeithio ar adar, gan achosi iddynt dirio. Wedi iddynt dirio, hyd yn oed os nad ydynt wedi'u hanafu, mae adar drycin yn ei chael yn anodd codi i'r awyr.

Er bod poblogaeth adar drycin Manaw'n ffafriol ar hyn o bryd, teimlwyd y byddai o fudd codi ymwybyddiaeth o effeithiau posibl llygredd golau ar y rhywogaeth. Mewn ymateb,

paratowyd ffeithlun a thaflen a oedd yn cyd-fynd ag ef am adar drycin Manaw a llygredd golau yn Sir Benfro. Ysgogwyd y prosiect gan Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, fe'i rheolwyd gan Swyddog ACA Forol Sir Benfro ac fe'i hariannwyd gan APCAP. Mae wedi cael ei wneud trwy gyswllt â wardeniaid yr ynysoedd ac ymchwilyr i adar.

Mae'r dogfennau ar gael yn Saesneg, yn Gymraeg ac yn Ffilipino. Mae'r ffeithlun wedi'i dargedu at danceri ond mae'n berthnasol i derfynfeydd ac mae wedi cael ei rannu gyda hwy. Mae'r ffeithlun wedi cael ei rannu gydag asiantau morgludiant ac aelodau o Grŵp Gwyliadwriaeth Amgylcheddol Dyfrffordd Aberdaugleddau.

Ymgysylltu a Chynnwys: Glanhau Traethau

Parhaodd yr Awdurdod i gynnal gweithgareddau glanhau traethau, blaendraeth ac afonydd gyda gwirfoddolwyr a chyfranogwyr gweithredu cymdeithasol yn 2019/20. Bu gostyngiad yn nifer y diwrnodau o'i gymharu â 2018/19, sy'n adlewyrchu'r effaith gadarnhaol y cafodd digwyddiadau mewn perthynas â Blwyddyn y Môr Croeso Cymru a oedd yn ymwneud â glanhau traethau ar ffigyrau yn 2018/19.

249

diwrnodau gwirfoddolwyr a gweithredu cymdeithasol ar gyfer gweithgareddau glanhau traethau yn 2019/20, gostyngiad o 542 diwrnod yn 2018/19.

Mae enghreifftiau o rai o'r gweithgareddau glanhau traethau, blaendraethau ac afonydd a hwyluswyd gan yr Awdurdod yn 2019/20 yn cynnwys:

- ✓ Digwyddiad glanhau traeth gan Wirfoddolwyr Llwybrau ym Mae Bullslaughter.
- ✓ Digwyddiad glanhau traeth ym Musselwick gyda gwirfoddolwyr cyffredinol APCAP.
- ✓ Digwyddiad codi ysbwriel gyda Disgyblion Ysgol Uwchradd Wirfoddol a Reolir Hwlfordd yn Niwawl.
- ✓ Digwyddiad glanhau traeth gyda gwirfoddolwyr o blith y cyhoedd yn Freshwater East.
- ✓ Digwyddiad glanhau traeth ar Rosgylyddwr gyda Chyfeillion y Parc Cenedlaethol ac aelodau o bentref Angle.
- ✓ Digwyddiad codi ysbwriel ar draeth Porthmelgan gyda Wardeniaid Gwirfoddol y Gogledd Orllewin.

Ymgysylltu a Chynnwys: Prosiect Mawr Glanhau'r Afon

Arweiniodd prosiect a oedd wedi'i fwriadu i glirio ysbwriel o Foryd Cleddau yn 2019/20 at symud 250 o fagiau o ysbwriel gan wirfoddolwyr a sefydliadau sy'n gweithio gyda'r Awdurdod.

Wedi'i ysbrydoli gan y prosiect SWEPT sydd wedi ennill gwobrau ac wedi'i drefnu gan Ranger Awdurdod y Parc Cenedlaethol, roedd y *Prosiect Mawr Glanhau'r Afon* yn canolbwyntio ar wyth safle ar lannau Afon Cleddau, gyda gwirfoddolwyr yn rhoi amser i helpu'r achos.

Ar ôl cyfres o arolygon a chyfarfodydd gydag aelodau o gynghorau cymuned lleol a thirfeddianwyr, roedd Parcmon yr Awdurdod yn gallu adnabod y lleoliadau allweddol ar hyd y blaendraeth lle mae'r sbwriel yn casglu oherwydd cyfeiriad y

llanw a'r gwynt. Helpodd gwirfoddolwyr i gasglu'r sbwriel cyn iddo gael ei wahanu i'w ailgylchu

Roedd y sbwriel a gafodd eu casglu a'u hailgylchu yn cynnwys 2,807 potel blastig, 1,281 o ganiau, 461 potel gwydr ynghyd ag amrywiaeth eang o eitemau mawr gan gynnwys canestr nwy a charped.

Ymunodd llawer o unigolion a sefydliadau â staff a gwirfoddolwyr Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Roedd y rhain yn cynnwys Cadwch Gymru'n Daclus, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau, Ffrindiau Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Amcan Llesiant Iechyd a Lles: Galluogi ac annog mwy o bobl i wella'u llesiant trwy wneud mwy o ddefnydd o'r Parc Cenedlaethol ni waeth beth fo'u hamgylchiadau. (CS)

Ffrydiau gwaith a roddodd gymorth i gyflawni'r amcan hwn yn 2019/20:

Strategol a Phartneriaeth au: Iechyd a Lles	Cyfleoedd Cerdded â Chymorth	Iechyd a Lles: Mentrau a Phrosiectau
Hyrwyddo Buddion Iechyd y Parc	Cynllun Gweithredu ar Ymgysylltu: Gwirfoddoli	Ysgolion a Chwarae yn yr Awyr Agored
Cynllunio: Tai Fforddiadwy		

Crynodeb o'r Diogelwr Taith – Ein Cynnydd yn erbyn yr Amcan hwn

Gan adeiladu ar ei arbenigedd trwy Walkability, mae'r Awdurdod ar y cyd â phartneriaid rhanbarthol wedi dechrau cyflawni prosiect Cerdded er budd Lles Gorllewin Cymru i ddatblygu model ar gyfer dull integredig o gynnig cyfleoedd cerdded â chymorth gyda darparwyr iechyd trwy weithio gyda meddygfeydd teulu. Bydd hyn yn helpu mwy o bobl i gael mynediad at gyfleoedd i gerdded ac i gael budd o gerdded yn y Parc ac mewn mannau eraill i wella'u hiechyd. Caiff dull cydweithredol yr Awdurdod ei amlygu gan ei ymwneud â gwaith y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn ei wneud ar Ddatrysiadau Gwyrdd ar gyfer iechyd a Rhwydwaith Iechyd Seiliedig ar Natur Gorllewin Cymru. Rydym yn parhau i ddarparu cyfleoedd i ddileu rhwystrau i gyfleoedd gwirfoddoli trwy'r prosiect Llwybrau, yn enwedig ar gyfer y rhai lle gall mynediad at gyfleoedd i wirfoddoli ddwyn manteision cadarnhaol i'w hiechyd meddyliol a chorfforol gan hefyd roi cyfle iddynt ofalu am y Parc Cenedlaethol a chael profiad ohono. Mae ein harlwy addysg awyr agored yn galluogi mwy o bobl ifanc i gael budd o gyfleoedd ymgysylltu a dysgu yn yr awyr agored, gyda'r arlwy'n cael ei gwella trwy Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro a'r prosiect Gwreiddiau.

Cafodd 43 o dai fforddiadwy newydd eu cymeradwyo gan yr Awdurdod yn 2019/20, ac mae heriau o ran darparu tai fforddiadwy'n cael sylw trwy CDLI 2.

Mae ein gwaith ar draws y ffrydiau gwaith hyn yn cyfrannu at y dangosyddion llesiant cenedlaethol canlynol.

3. Y ganran o'r oedolion sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw	5. Y ganran o'r plant sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw
19. Y ganran o'r bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd materol	28. Y ganran o'r bobl sy'n gwirfoddoli
29. Sgôr llesiant meddyliol cymedrig ar gyfer pobl	30. Y ganran o'r bobl sy'n unig

Mae'r adran nesaf yn amlinellu ein perfformiad yn 2019/20 yn erbyn y ffrydiau gwaith sy'n cyfrannu at ein Hamcan Llesiant Iechyd a Lles.

Ffrwd Waith: Strategol a Phartneriaeth au: Iechyd a Lles (CS)

Cydweithio ac Integreiddio: Atebion Cymdeithasol a Gwyrdd ar gyfer Iechyd

Mae'r Awdurdod yn parhau i gydnabod pwysigrwydd gweithio gyda phartneriaid i ddangos yr effaith gadarnhaol y mae mynediad at y cyfleoedd mewn Parciau Cenedlaethol yn gallu ei chael ar Iechyd a Llesiant pobl. Mae'r Awdurdod hefyd yn rhan o waith Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu fframwaith strategol a dull ar gyfer Datrysiadau Cymdeithasol a Gwyrdd ar gyfer Iechyd. Eisteddodd Swyddog Iechyd a Llesiant yr Awdurdod ar y gweithgor a oedd yn rhan o gynllunio cynhadledd a gynhaliwyd yn Llanbedr Pont Steffan ym mis Ionawr 2020 ar Ddatrysiadau Cymdeithasol a Gwyrdd ar gyfer Iechyd. Darparodd yr Awdurdod beth cyllid tuag at y digwyddiad hwn hefyd. Digwyddodd y gwaith hwn ochr yn ochr ag ymgysylltu parhaus â Rhwydwaith Iechyd Seiliedig ar Natur Gorllewin Cymru.

Ffrwd Waith: Cyfleoedd Cerdded â Chymorth (ER / S6)

Atal a Meithrin Cydnerthedd: Cerdded er Budd Lles Gorllewin Cymru

Yn dilyn cynnig rhanbarthol llwyddiannus gyda phartneriaid sicrhawyd cyllid o £400k o Gronfa Iach ac Actif Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect Cerdded er Budd Lles Gorllewin Cymru ar sail ranbarthol dros dair blynedd. Prosiect mewn partneriaeth ranbarthol yw hwn sy'n cwmpasu Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar ddatblygu teithiau cerdded Iechyd a Lles sy'n dechrau o hybiau meddygon teulu ac yn gysylltiedig â'r hybiau hyn gan hyrwyddo cyfleoedd cerdded â chymorth fel ffurf ar bresgripsiynu cymdeithasol. Yn Sir Benfro, lle mae'r Awdurdod yn gweithredu fel y corff arweiniol, y nod yw datblygu 9 hwb dros y 3 blynedd nesaf. Roedd y gweithgareddau ar gyfer hanner cyntaf 2019/20 yn canolbwyntio ar gynllunio ar gyfer y prosiect, gyda'r cyfarfod partneriaeth cyntaf yn cael ei gynnal ym mis Gorffennaf ac yna dechreuodd y prosiect ym mis Hydref.

Roedd gweithgareddau a chyflawniadau'r prosiect yn 2019/20 yn cynnwys:

- ✓ Cydgysylltwyr Sirol, ar gyfer Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro yn eu lle. Cymerodd yr holl gydgyssylltwyr ran mewn hyfforddiant arweinwyr teithiau cerdded Iechyd ar ddiwedd mis Ionawr.
- ✓ Datblygu elfennau hyfforddi a monitro a gwerthuso o'r prosiect.

- ✓ Mae'r prosiect wedi comisiynu hyfforddiant arweinwyr teithiau cerdded iach gan Paths for All, yr asiantaeth Albanaidd sy'n goruchwyllo teithiau cerdded iechyd yn yr Alban. Bydd yr elfen 'hyfforddi'r hyfforddwr' o hyn yn galluogi'r prosiect i hyfforddi tîm o wirfoddolwyr i ddarparu gweithgarwch cerdded.
- ✓ Yn Ne Sir Benfro roedd lleoliadau cychwynnol ar gyfer y prosiect yn cynnwys Meddygfa Saundersfoot a Dechrau'n Deg. Dechreuodd y grŵp cerdded yn Saundersfoot â dwy daith gerdded lles ar gael (30 munud ac 1 awr a mwy) i bobl leol. Mae'r swyddog wedi recriwtio gwirfoddolwyr lleol i gefnogi'r grwpiau cerdded hyn. Mae amser wedi cael ei neilltuo i gydweithio'n agosach gyda'r feddygfa deulu yn Saundersfoot er mwyn i ryw fath o drefn atgyfeirio allu digwydd mewn perthynas â'r grwpiau. Mae'r prosiect yn gweithio gyda Dechrau'n Deg i ddarparu rhaglenni cerdded iach ar gyfer cyfranogwyr. Mae Dechrau'n Deg yn darparu ystod o wasanaethau i gefnogi plant 0 – 3 mlwydd 11 mis oed a'u teuluoedd.
- ✓ Mae ymgysylltu â chynrychiolwyr o feddygfa Tyddewi/Solfach a Gofal Solfach wedi paratoi'r ffordd ar gyfer grŵp Cerdded er budd Lles Solfach.

Cafodd yr holl weithgarwch cerdded ei atal ganol mis Mawrth oherwydd cyfyngiadau COVID 19.

Atal a meithrin cydnheredd: Walkability

Parhaodd Grwpiau Walkability weithredu yn Abergwaun, Hwlfordd (2 grŵp) a Doc Penfro yn 2019/20. Hefyd, rhoddodd y Swyddog Walkability gymorth i grŵp cerdded Mind a fu'n cwrdd unwaith bob mis a hefyd sesiynau ar gyfer y Ganolfan Dechrau'n Deg.

Fe welodd yr Awdurdod ostyngiad mewn niferoedd Walkability o'i gymharu â 2018/19 ac islaw ei darged. Fodd bynnag, mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod y cyfnod hyfforddi ar gyfer y swydd Walkability newydd yn cynnwys cyfnod heb ryw lawer o weithgarwch cerdded, er bod rhai grwpiau wedi parhau â rhaglen gerdded reolaidd trwy sesiwn dan arweiniad gwirfoddolwyr a phartneriaid. Cafodd nifer o sesiynau eu lleihau o fod yn rhai wythnosol i fod yn rhai pythefnosol yn ystod y flwyddyn i ganiatáu amser swyddogion i ddatblygu'r prosiect Cerdded er budd Lles a gwaith peilot mewn perthynas â hyn.

Mesur Perfformiad	2017/18	2018/19	2019/20	2019/20 Target
# cyfranogwyr yn sesiynau Dewch i Gerdded	1,771	1,730 (Ambr)	1,116 (Ambr)	2,000

Bydd targedau'r dyfodol yn adlewyrchu newidiadau i'r ffordd y mae'r prosiect yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd.

Atal a meithrin cydnerthedd: Hyfforddiant Arweinydd Cerdded

Ochr yn ochr â darparu cyfleoedd cerdded â chymorth, mae'r Awdurdod wedi parhau i gefnogi pobl i ddod yn arweinwyr cerdded drwy sesiynau hyfforddi.

Mesur Perfformiad	2018/19	2019/20	2019/20 Targed
# Arweinwyr grwpiau sydd wedi'u hyfforddi trwy sesiynau hyfforddi arweinwyr teithiau cerdded	18 (Gwyrdd)	32 (Gwyrdd)	14

Mae arweinwyr Teithiau Cerdded Egniol gwirfoddol wedi parhau i roi cymorth i ddarparu sesiynau Walkability ac mae ennyn ymgysylltiad arweinwyr teithiau cerdded gwirfoddol yn rhan allweddol o'r Prosiect Cerdded er budd Lles.

24.5


Nifer y diwrnodau gwirfoddoli a gyfrannwyd gan arweinwyr teithiau cerdded egniol gwirfoddol Walkability.

Ffrwd Waith: Hyrwyddo Buddion Iechyd y Parc (A6)

Tueddiadau sy'n ymwneud â Lawrlwytho Teithiau Gwe a Rhifyddion ar Lwybr yr Arfordir

Mae'r Awdurdod yn parhau i hyrwyddo cyfleoedd cerdded yn y Parc trwy ei gyfeiriadur Cerdded a mapiau teithiau gwe y gellir eu lawrlwytho ar ei wefan.

Gwelodd yr Awdurdod ostyngiad o 2.2% yn y mapiau teithiau gwe a lawrlwythwyd o'i wefan o'i gymharu â 2018/19. Roedd lawrlwythiadau ar gyfer mis Mawrth 2020 38.2% yn is na lawrlwythiadau ym mis Mawrth 2019 – sydd o bosibl yn adlewyrchu effaith yr ymateb i COVID 19 a gau llwybrau'r arfordir, cadw pellter cymdeithasol a chyfyngiadau ar fynd i'r awyr agored.



Y teithiau gwe mwyaf poblogaidd a lawrlwythwyd yn 2019/20 oedd:

- ✓ Stackpole Head (Taith Gerdded Hanner Dydd) - 819.
- ✓ Bosherton - Sant GoFan (Taith Gerdded Hanner Dydd) - 723.
- ✓ Angle (Taith Gerdded Hanner Dydd) - 631.

Er bod y contractwr allanol wedi gallu darparu ffigyrau cyflawn o rifyddion Llwybr yr Arfordir ar gyfer 2019/20 dim ond data rhannol yr oedd yn gallu ei ddarparu ar gyfer rhifyddion Hawliau Tramwy Mewndirol. Y rheswm dros hyn oedd materion a oedd yn ymwneud â COVID-19. Bydd y contractwr yn casglu data ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus mewndirol ym mis Medi, ac mae disgwyl i'r canlyniadau fod ar gael yn gynnar ym mis Hydref.

174,106

O 7 cownter llwybr arfordir yn 2019/20, mae hyn yn gynnydd o 149,176 yn 2018/19 a 154,907 yn 2017/18. Mae hyn er bod llwybrau wedi'u cau ym mis Mawrth 2020.

Gwelir tuedd debyg o ran cynnydd os yw data hyd at chwarter 3 yn cael ei gymharu rhwng y blynyddoedd ar gyfer y pedwar rhifydd hawliau tramwy mewndirol gydag 20,213 yn 2019/20 o'i gymharu ag 17,080 yn 2018/19 ac 16,172 yn 2017/18.

Ymgysylltu a Chynnwys: Helpu pobl i ddarganfod y Parc drwy ddigwyddiadau cerdded

Trwy deithiau cerdded a arweinir gan ein parcmyr, staff canolfannau a gwirfoddolwyr mae pobl yn gallu darganfod mwy o'r Parc a hefyd archwilio ardaloedd yn y Parc na fyddent yn cael y cyfle i'w harchwilio fel arfer o bosibl. Yn arbennig roedd teithiau ym Maes Tanio Castellmartin dan arweiniad yr Awdurdod yn dal yn boblogaidd yn 2019/20.

2,824

cyfranogwyr ar deithiau cerdded dan arweiniad y parcmyr, staff canolfannau a gwirfoddolwyr yn 2019/20, mae hyn yn cymharu â 2,732 yn 2018/19 a 2,853 yn 2017/18

336

Nifer y cyfranogwyr yn Nheithiau Cerdded Maes Tanio Castellmartin ar Droed yn 2019/20.

Cydweithio: Gŵyl Gerdded

Yn ystod Wythnos Dwristiaeth Cymru ym mis Mai cynhaliwyd gŵyl gerdded wythnos o hyd a drefnwyd ac a hyrwyddwyd gan Brosiect Marchnata Llwybr Arfordir Cymru a'r Cerddwyr yn Saundersfoot. Roedd yr ŵyl yn hyrwyddo'r amrywiaeth o lwybrau cerdded a gynigir o amgylch arfordir Sir Benfro ac yn rhoi cyfle i gerddwyr brofi golygfeydd syfrdanol o'r arfordir i gefn gwlad.

Ffrwd Waith: Iechyd a Lles: Mentrau a Phrosiectau (CS)

Ymgysylltu a Chynnwys: Gwirfoddoli a Gweithredu Cymdeithasol

Mae gwirfoddoli'n darparu gweithgaredd cadarnhaol a all fod o fudd i les corfforol a meddyliol pobl. Mae'r Awdurdod wedi bod yn gwella'i arlwy ar gyfer gwirfoddolwyr yn 2019/20 trwy ddefnyddio dull mwy cydgysylltiedig a chreu mathau newydd o gyfleoedd gwirfoddoli. Gwelodd gynnydd o 17.9% mewn diwrnodau gwirfoddoli yn 2019/20 o'i gymharu â 2018/19.

2,591.6

Diwrnodau gwirfoddolwyr a gyfrannwyd gan wirfoddolwyr yn 2019/20. Mae hyn yn cymharu â 2,197.5 yn 2018/19 a 2,155.89 yn 2017/18.

Roedd y gweithgareddau gwirfoddoli a gynhaliwyd yn cynnwys:

- ✓ Gwirfoddolwyr Llwybrau yn gosod perthi yng Nghaeriw ac yn creu banciau peillwyr ym Mhenberi, yn tirlunio Llwybr y Potswyr ym Maenor Llyngwair ac yn cribinio dol wair yn Eglwys Bay Dale, Nanhyfer.
- ✓ Wardeniaid Gwirfoddol y De Orllewin yn cael gwared o wastraff wedi'i dipio'n anghyfreithlon/ sbwriel yn Watwick a West Dale.
- ✓ Ailalinio ffensys ar gyfer llwybr yr arfordir yn Aberfelin gyda Wardeniaid Gwirfoddol y Gogledd Orllewin a Chyfeillion y Parc Cenedlaethol.
- ✓ 23.5 o ddiwrnodau gwirfoddol wedi'u cyfrannu gan Warden Gwirfoddol y Gogledd ar gyfer arolygu llwybrau teithiau gwe.
- ✓ 21.5 o ddiwrnodau wedi'u cyfrannu gan wirfoddolwyr cymorth digwyddiadau Caeriw.

Mae llawer o weithgareddau gwirfoddoli a gweithredu cymdeithasol yr Awdurdod yn cynnwys elfennau gweithgarwch ymarferol neu gorfforol.

3,195

cyfranogwyr mewn sesiynau gwirfoddoli a gweithredu cymdeithasol sy'n cynnwys gweithgarwch corfforol yn 2019/20. (Data sylfaenol)

Ymgysylltu a Chynnwys: Prosiect Llwybrau

Roedd y prosiect gwirfoddoli â chymorth Llwybrau ddwy flynedd i mewn i gyfnod tair blynedd a hanner o gyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn 2019/20. Mae'r prosiect yn targedu'r rhai sy'n newydd i wirfoddoli ac a allai ddod ar draws rhwystrau i gymryd rhan mewn gweithgarwch rheolaidd yn yr awyr agored – yn enwedig pobl iau a hŷn a'r rhai sy'n profi problemau iechyd meddwl. Gall unigolion wirfoddoli eu hunain, cael eu hatgyfeirio at y prosiect neu ymuno o grwpiau sy'n cyfranogi. Mae gwirfoddolwyr yn cael cymorth gan 'arweinwyr gweithgareddau gwirfoddoli', sy'n gweithio mewn rôl gefnogol ochr yn ochr ag eraill i'w helpu i gwblhau tasgau. Mae tasgau ymarferol wedi cael eu cynnal mewn lleoliadau yn y Parc Cenedlaethol a safleoedd sy'n nes at ardaloedd trefol, gan gael eu sicrhau trwy Dimau Wardeniaid yn ogystal â sefydliadau partner. Caiff gwaith ei arwain ar y cyfan gan y swyddog prosiect Llwybrau, weithiau ochr yn ochr â Pharcymyn neu staff sefydliadau partner.

Trwy gynorthwyo sefydliadau i ddefnyddio'r Parc Cenedlaethol yn fwy fel lleoliad, mae'r tîm Llwybrau wedi bod yn gweithio gyda 12 o grwpiau lleol a'u staff, gwirfoddolwyr a chleientiaid. Mae'r prosiect wedi gweithio gyda Fferm Ofal Clynyfw, Cyfle Cymru, Elliotshill Care Ltd, Mind ac Oriel VC ymysg eraill. Mae grwpiau sy'n cyfranogi wedi sôn am fwy o weithgareddau rheolaidd ac amrywiol a arweinir gan staff a gwirfoddolwyr yn yr awyr agored.

Roedd gweithgareddau a chyflawniadau'r prosiect yn 2019/20 yn cynnwys:

- ✓ Cafodd cyfres hir o risiau ar Lwybr Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro eu hadfer yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr a oedd yn gweithio gyda'r prosiect Llwybrau. Yr 89 o risiau, sydd wedi'u lleoli ger Amroth, yw'r rhai cyntaf (neu ddiwethaf) y daw cerddwyr ar eu traws wrth iddynt ddechrau (neu orffen) Llwybr yr Arfordir. Roedd y grisiau mewn perygl o ddod yn anniogel, felly cafodd pob un ei ailosod, cafodd peryglon baglu eu gwaredu ac fe ychwanegwyd ffensys at un rhan. Cymerodd y dasg ddeng niwrnod a wasgarwyd dros ddau fis, gydag wyth i ddeg gwirfoddolwr yn gweithio bob dydd. Cafodd y tîm gwirfoddolwyr Llwybrau help a chefnogaeth ardderchog gan Dîm Warden y De'r Awdurdod Parc Cenedlaethol.
- ✓ Sesiynau grŵp cyntaf Llwybrau De Sir Benfro wedi'u darparu ym mis Ionawr gyda 10 o gyfranogwyr mewn lleoliadau gan gynnwys Dinbych-y-pysgod, Cilgeti a Doc Penfro. Fe wnaed gwaith yng Nghanolfan Astudiaethau Maes Orierton, rheoli coetiroedd a chreu ardal Ysgol Goedwig.

Cwblhawyd adroddiad prosiect interim ym mis Medi. Mae ail-broffilio'r gyllideb wedi ei gwneud yn bosibl estyn cyfnod cyflawni'r prosiect tan fis Mawrth 2021. Mae gwaith parhaus yn cael ei wneud i ddatblygu briff prosiect ar gyfer prosiect i olynu Llwybrau. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfod â Phrif Swyddog Gweithredol Mind Sir Benfro i sefydlu'r cyfle i gael partneriaeth wrth ddatblygu prosiect newydd.

Ffrwd Waith: Cynllun Gweithredu ar Ymgysylltu: Gwirfoddoli (CS)

Ymgysylltu a Chynnwys: Ymgysylltu â gwirfoddolwyr

Mae ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau; yn enwedig â'n gwirfoddolwyr wedi'i nodi fel un o'r meysydd blaenoriaeth yng Nghynllun Gweithredu'r Awdurdod ar gyfer Ymgysylltu. Roedd y gweithgareddau a'r cyflawniadau yn 2019/20 yn cynnwys:

- ✓ Yn gynnar yn 2019/20 dosbarthodd y Swyddog Gwirfoddolwyr lawlyfrau gwirfoddolwyr a chyfarfu â'r rhan fwyaf o grwpiau gwirfoddolwyr i egluro diben Fforwm Gwirfoddolwyr arfaethedig. Ym mis Medi cynhaliwyd y Fforwm Gwirfoddolwyr cyntaf, a chytunwyd ar Amodau Gorchwyl. Mae'r Fforwm wedi denu ystod o wirfoddolwyr o blith Arweinwyr Gweithgareddau Gwirfoddoli, gwirfoddolwyr Llwybrau a Wardeniaid Gwirfoddol. Rhoddodd y Cydgysylltydd Gwirfoddolwyr gyflwyniad i Bwyllgor y Parc Cenedlaethol ym mis Chwefror i ofyn yn ffurfiol am gynrychiolaeth o blith aelodau'r APC. Enwebwyd y Cyngh. Mike James ac fe dderbyniodd y rôl. Yn sgîl Covid 19 mae cyfarfodydd y Fforwm wedi symud i blatfform cyfarfodydd rhithwir.
- ✓ Trefnwyd nifer o ddigwyddiadau dathlu ar gyfer gwirfoddolwyr trwy gydol 2019/20, i roi cyfle i wahanol wirfoddolwyr a grwpiau gwirfoddolwyr i ddod ynghyd a chymdeithasu. Mae gwirfoddolwyr hefyd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf trwy gylchlythyr gwirfoddolwyr.
- ✓ Daeth gwirfoddolwyr hefyd i'r ffair wirfoddoli a drefnwyd gan PAVS i ddarparu gwybodaeth am gyfleoedd gwirfoddoli'r Awdurdod ar gyfer eraill.

✓ Mae'r Cynllun Gweithredu Gwirfoddolwyr wedi cael ei ddiweddarau a chyflwyniad wedi cael ei ddarparu ar gyfer rheolwyr llinell gwirfoddolwyr ynglŷn â'r cynllun ac i roi gwybod iddynt am y fforwm, ei ddiben ac i annog gwirfoddolwyr i gyfranogi.

Ffrwd Waith: Ysgolion a Chwarae yn yr Awyr Agored (CS / A6)

Atal a Meithrin Cydnerthedd: Cyfleoedd dysgu yn yr awyr agored

Mae cynnig addysg yr Awdurdod wedi'i wreiddio mewn darparu cyfleoedd dysgu yn yr awyr agored i ddisgyblion a myfyrwyr. Mae'n rhoi cyfleoedd dysgu cadarnhaol iddynt ac yn cefnogi eu lles corfforol a meddyliol trwy ennyn eu hymgysylltiad ag amgylchedd naturiol a diwylliannol y Parc.

8,682	o gyfranogwyr mewn sesiynau dysgu yn yr awyr agored yn 2019/20. Mae hyn yn ostyngiad o 9,447 yn 2018/19 a 9,795 yn 2017/18.
69.23%	o ysgolion yn y Parc Cenedlaethol cymerodd rhan mewn sesiynau dysgu yn yr awyr agored yn 2019/20. Mae hyn yn gynydd o 60% yn 2018/19.
69.35%	o ysgolion yn Sir Benfro cymerodd rhan mewn sesiynau dysgu yn yr awyr agored yn 2019/20. Mae hyn yn gynydd o 59.38% yn 2018/19.
799	Nifer y disgyblion a gymerodd ran mewn sesiynau addysg a oedd yn gysylltiedig â

theithiau tywys, gan gynnwys teithiau'r Preseli a theithiau Morloi.

Parhaodd y tîm Parcmy'n i weithio gyda disgyblion ac ysgolion i greu manau dysgu awyr agored gwell yn 2019/20.

Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- ✓ Creu Gwestai Pryfed gyda disgyblion o eco gyngor Ysgol Caer Elen, Ysgol Gynradd Sant Oswald ac Ysgol Casmael gan gynnwys aelodau o'u Eco glwb.
- ✓ Cynorthwyo gyda chreu ystafell ddsbarth awyr agored a gardd natur yn Ysgol Llanychllwydog a sesiwn ymarferol i ddatblygu tir yr ysgol gyda Ysgol Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Maenorbŷr.
- ✓ Creu bocs adar a chreu ffin blodau gwylt gyda disgyblion Ysgol y Frenni
- ✓ Plannu coed yn Ysgol Stepside.

Ni chafodd unrhyw sesiynau hyfforddi awyr agored i athrawon eu darparu yn 2019/20. Mae hyn yn adlewyrchu nad yw'r Awdurdod wedi gallu darparu sesiynau hyfforddi athrawon y tu allan i Brosiect Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro eleni.

Mesur Perfformiad	2017/18	2018/19	2019/20	2019/20 Targed
# y sesiynau hyfforddi ar gyfer dysgu yn yr awyr agored i athrawon	10	3 (Coch)	0 (Coch)	10
# yr athrawon sydd wedi'u hyfforddi mewn	126	23 (Coch)	0 (Coch)	50

dysgu yn yr awyr agored

Y Camau Nesaf ar gyfer Gwella: Cafodd cydgysylltydd newydd ar gyfer Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro ei recriwtio ym mis Hydref. Fel rhan o'r prosiect dwy flynedd bydd rhaglen o weithdai cydweithredol (Cymunedau Dysgu Proffesiynol) gydag athrawon a hyfforddiant (HMS) pwrpasol ar gyfer athrawon yn cael eu darparu. Mae'r Awdurdod hefyd wedi dechrau ymgysylltu ag athrawon ysgol; er enghraifft Ysgol Uwchradd Hwlfordd i ddatblygu sesiynau thematig sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd ac i ddatblygu sesiynau wedi'u teilwra sy'n gysylltiedig â phrosiectau penodol megis y prosiect Roots/ Gwreiddiau. Bydd y dull cydweithredol hwn o ddatblygu sesiynau a'u gwerthuso'n parhau wrth i'r Awdurdod weithio i ailalinio'i arlwy addysg â'r cwricwlwm newydd.

Cydweithio a Gweithio mewn modd Integredig: Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro

Nod prosiect dwy flynedd Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro yw cynorthwyo ysgolion lleol i integreiddio cyfleoedd newydd ar gyfer dysgu awyr agored â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol newydd i Gymru. Bydd gweithgareddau'n cynnwys rhaglen o weithdai cydweithredol (Cymunedau Dysgu Proffesiynol) gydag athrawon ac ymarferwyr dysgu yn yr awyr agored, sesiynau ar gyfer disgyblion i arddangos dulliau newydd o ddysgu yn yr awyr agored, darparu hyfforddiant pwrpasol ar gyfer athrawon mewn lleoliadau yn

ac o amgylch y Parc Cenedlaethol a datblygu ystod o ddeunyddiau ac adnoddau ategol ar gyfer athrawon.

Mae gweithgareddau a chyflawniadau'r prosiect yn 2019/20 yn cynnwys:

- ✓ Cynllunio a chyflwyno digwyddiadau yn y Gynhadledd Chwarae Plant gyntaf yn Sir Benfro. 'Yr Awyr Agored' – meysydd chwarae, llythrennedd corfforol a chynyddu gwytnwch'.
- ✓ Cyflwyno gweithgareddau gyda chynrychiolwyr myfyrwyr o ysgolion ledled y Sir yn cynllunio ac yn creu manau chwarae a meysydd chwarae cynaliadwy gydag adnoddau naturiol ar gyfer eu hysgolion.
- ✓ Gweithio gyda Pharcmon Addysg Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i gynnig trip maes o'r afon 'o'r tarddiad i'r môr' a thrip maes o'r coetir i Ardd Goedwig Colby.
- ✓ Mae cynlluniau'n cael eu haddasu i greu adnoddau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm.
- ✓ Creu a rhannu deunydd ar-lein yn ddyddiol yn ystod y cyfyngiadau symud COVID 19 ynghlŷn â defnyddio'r awyr agored a natur ar gyfer dysgu. Mae hyn wedi cael ei wneud yn agored i athrawon, ysgolion a rhieni.

Cydweithio a Gweithio mewn modd Integredig: Gwreiddiau

Fe sicrhodd Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro gyllid ar gyfer prosiect Gwreiddiau Roots sydd wedi'i fwriadu i archwilio cynnyrch naturiol mewn cymunedau gwledig. Mae'r Prosiect yn cael ei gyflawni gan Swyddog Addysg yr Awdurdod ac yn amcanu at weithio gyda phum

ysgol iau yn Sir Benfro i archwilio cynnyrch naturiol a chadwyni bwyd yng nghyd-destun cymunedau amaethyddol, arfordirol a gwledig Sir Benfro. Agwedd greiddiol ar y prosiect yw sicrhau bod ei ddyluniad a'r modd y caiff ei gyflawni'n gyson â'r Cwricwlwm Ysgolion newydd yng Nghymru.

Mae gweithgareddau a chyflawniadau'r prosiect yn 2019/20 yn cynnwys:

- ✓ Lansio prosiect yn Coastlands St Ishmaels gyda chfres o dripiâu fferm a gweithdai coginio.
- ✓ Sefydlu cyswllt a datblygu cynllun gyda phob pum ysgol. Gweithgareddau yn amrywio o welliannau i dir yr ysgol i bynciau yn y dosbarth i adeiladu themâu cwricwlwm yr ysgol.
- ✓ Wedi helpu pob ysgol i gofrestru ar gyfer "Tyfwch eich tatws eich hun" – cynllun cenedlaethol sy'n dosbarthu offer ac adnoddau tyfu. Wedi tyfu tatws gyda Johnston a St Francis, a chydlynu ag ysgolion eraill oedd yn plannu tatws eu hunain.
- ✓ Wedi plannu gwenith y gwanwyn, ar ôl braenaru'r tir yn St Francis. Cyflawnwyd hyn mewn pryd cyn i ysgolion gau a gobeithio y bydd yn cynnig adnodd dysgu atyniadol wrth i ysgolion agor. Rydym yn bwriadu mynd â'r gwenith i Felin Lanw Caeriw i ddysgu sut i'w droi'n flawd.
- ✓ Covid 19 – newid pwyslais o dyfu yn ystod y tymor hwn i weithio gydag ysgolion yn nhymor yr hydref.

Ymgysylltu: – Ymgysylltu â'r Blynyddoedd Cynnar

Cynhaliodd yr Awdurdod 3 digwyddiad Nature Tots yn Angle, Castell Caeriw a Thraeth Poppit gyda 21 yn bresennol. Roedd y sesiynau hyn ar gyfer plant dan 5 oed yn gyfle i rieni a

gwarcheidwaid fwynhau mân anturiaethau a gweithgareddau darganfod ym myd natur gyda'u rhai bach.

Ffrwd Waith: Tai Fforddiadwy (CS)

Cartrefi fforddiadwy o ansawdd da yw conglaen llesiant unigolion, teuluoedd a chymunedau. Mae tai yn un o'r meysydd blaenoriaeth i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac i Lywodraeth Cymru yn y ddogfen Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol. Yn ganolog i hyn mae darparu tai fforddiadwy.

40.19%

o unedau tai a gymeradwywyd gan yr Awdurdod sy'n fforddiadwy yn 2019/20. Mae hyn yn cymharu â 45.02% yn 2018/19 a 14.75% yn 2017/18.

43

o unedau tai fforddiadwy a gymeradwywyd gan yr Awdurdod yn 2019/20. Mae hyn yn cymharu â 95 yn 2018/19 a 9 yn 2017/18. Meincnodi 2019/20: APC Eryri– 2 affordable housing units approved.

Cytunwyd ar £106,000 tuag at ddarparu tai fforddiadwy yn yr ardal leol trwy gyfraniadau cytundeb adran 106 yn 2019/20. Gydag 1 cytundeb ychwanegol yn ôl cyfradd o £250 am bob metr sgwâr.

Y camau nesaf ar gyfer gwella: Mae heriau sy'n ymwneud â darparu tai fforddiadwy yn y Parc wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig a bydd cynnydd

yn dilyn mabwysiadu'r cynllun yn cael ei fonitro'n flynyddol
trwy Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol.

Amcan Llesiant Cydraddoldeb: Parhau i sicrhau bod cydraddoldeb wedi'i sefydlu yng ngwaith a diwylliant yr APC. (CS)

Ffrydiau gwaith a roddodd gymorth i gyflawni'r amcan hwn yn 2019/20

Strategol - Cydraddoldeb

Tirweddau i Bawb – Cynhwysiant Cymdeithasol

Tirweddau i Bawb - Profiadau Cynhwysol

Cynllun Gweithredu ar Ymgysylltu - Pobl Ifanc

Ffrydiau gwaith a roddodd gymorth i gyflawni'r amcan hwn yn 2019/20

Yn ystod 2019/20 fe adolygodd yr Awdurdod ei Gynllun ac Amcanion Cydraddoldeb, gan ddatblygu nodau tymor hwy ochr yn ochr ag amcanion sy'n nodi dyhead clir o ran yr hyn y mae'r Awdurdod yn dymuno'i gyflawni. Yn y dyfodol yr her fydd sicrhau ein bod yn rhoi'r camau gweithredu yn y cynllun ar waith ac yn monitro eu heffeithiau i sicrhau ein bod yn cyflawni newid. Mae cynyddu amrywiaeth y gweithlu'n dal i fod yn her y mae camau gweithredu yn y Cynllun Cydraddoldeb wedi'u bwriadu i fynd i'r afael â hi.

Mae'r Awdurdod yn parhau i ddileu rhwystrau i gael mynediad at y Parc Cenedlaethol a chael budd ohono trwy ystod o weithgareddau ymgysylltu ar gyfer cynhwysiant cymdeithasol a ddarperir gan dimau ar draws yr Awdurdod, ei waith gyda disgyblion ag anghenion dysgu a chymorth ychwanegol a mentrau megis ei awr dawel yng Nghastell Henllys a chynllun cadeiriau olwyn y traethau. Bydd y prosiect Profiadau i Bawb a gychwynwyd yn 2019/20 yn darparu set o argymhellion sy'n seiliedig ar brofiadau personol a fydd yn helpu i ddatblygu blaenoriaethau a phrosiectau ar gyfer yr Awdurdod yn y dyfodol, gan gynorthwyo i wneud y Parc yn Dirwedd i bawb. Cynhaliodd yr Awdurdod benwythnos preswyl ar gyfer pobl ifanc i oleuo'r broses o sefydlu Pwyllgor Ieuenctid. Yn sgîl y penwythnos preswyl hwn mae Pwyllgor Ieuenctid wedi cael ei sefydlu a fydd yn galluogi Pobl Ifanc i ddylanwadu ar waith yr Awdurdod yn y dyfodol.

Mae ein gwaith ar draws y ffrydiau gwaith hyn yn cyfrannu at y dangosyddion llesiant cenedlaethol canlynol

27. Y ganran o'r bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch

23. Y ganran sy'n teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol

25. Y ganran o'r bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref, wrth gerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio

17. Y gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau

28. Y ganran o'r bobl sy'n gwirfoddoli

29. Sgôr llesiant meddyliol cymedrig ar gyfer pobl

30. Y ganran o'r bobl sy'n unig

Mae'r adran nesaf yn amlinellu ein perfformiad yn 2019/20 yn erbyn y ffrydiau gwaith sy'n cyfrannu at ein Hamcan Llesiant Cydraddoldeb.

Ffrwd Waith: Strategol - Cydraddoldeb (CS)

Hirdymor: Cynllun ac Amcanion Cydraddoldeb Newydd

Ym mis Chwefror 2020 fe gytunodd yr Awdurdod ar ei gynllun cydraddoldeb newydd ar gyfer 2020-2024 a'i amcanion cydraddoldeb fel sy'n ofynnol dan y Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol yng Nghymru. Cafodd y fersiwn ddrafft o'r cynllun ochr yn ochr â dogfen Tystiolaeth ac Adborth Ymgysylltu (yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y cynllun drafft) eu cyflwyno i'r Aelodau yng nghyfarfod yr APC ym mis Rhagfyr ar gyfer sylwadau.

Adolygwyd amcanion yr Awdurdod ac mae'r amcanion yn dod o dan bedwar maes gyda phedwar nod hirdymor:

Y Parc – Tirwedd i Bawb	Creu Parc sy'n Dirwedd i Bawb.
Ein Gwasanaethau – Yn Hygyrch ac yn Gynhwysol	Bod ein gwasanaethau yn hygyrch ac yn gynhwysol yn ddiodyn a bod ein prosiectau yn cyfrannu at fynd i'r afael ag anghydraddoldeb.
Ein Gweithlu – Yn Amrywiol, Yn Gefnogol ac Yn Gynhwysol	Bod ein gweithlu yn amrywiol, ein bod yn gyflogwr o ddewis a bod y staff yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth mewn amgylchedd gwaith sy'n gynhwysol ac yn deg.
Llywodraethu ac	Bod ystod amrywiol o bobl yn gallu

Ymgysylltu – Mwy o Gyfranogiad

dylanwadu ar waith yr Awdurdod ac ar y penderfyniadau sy'n effeithio ar ardal y Parc.

Yn ystod y broses ddrafftio nodwyd ble y gall ein hamcanion a'n cynllun cydraddoldeb gael yr effaith fwyaf trwy ystyried y dystiolaeth, adborth o weithgarwch ymgysylltu, ystyried arfer gorau a chysylltiadau strategol:

- ✓ Dogfen y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 'A yw Cymru'n Decach? Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol 2018.'
- ✓ Y dystiolaeth a'r effeithiau a glustnodwyd yn yr Asesiadau o Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol diwygiedig yr Awdurdod ar Gydraddoldeb ac ymgynghori ar Gyfleodd a Heriau gyda grwpiau fel rhan o'r gwaith adolygu cychwynnol ar gyfer y Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol diwygiedig.
- ✓ Ymchwil a'r data ehangach sy'n berthnasol i ardal y Parc a gwaith yr Awdurdod.
- ✓ Perfformiad yn erbyn ein hamcanion cydraddoldeb blaenorol.
- ✓ Dadansoddiad o ddata recriwtio, gweithlu a chyflogau yr Awdurdod.
- ✓ Ymgynghoriad rhanbarthol â chyrff cyhoeddus eraill gan gynnwys arolwg o farn y cyhoedd a grwpiau ffocws rhanddeiliaid Sir Benfro (a gyflwynwyd mewn partneriaeth â PCC). Roedd grwpiau ffocws rhanddeiliaid yn cynnwys: Fforwm 50+ Sir Benfro, Lleisiau ifanc dros Ddewisiadau

(Sir Benfro) - Pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, Fforwm Hawliau Pobl Ifanc – Sir Benfro, Cynulliad Ieuenctid Sir Benfro, Grŵp Mynediad Sir Benfro, VC Gallery – Anabled (Iechyd Meddwl), Parcmynd Ieuenctid APCAP a MIND.

✓ Arolwg ymgysylltu â'r staff

monitro cydraddoldeb a gwblhawyd ar Pobl y Parc	(Gwyrdd)	(Gwyrdd)	(Gwyrdd)
---	----------	----------	----------

Gweler Atodiad 1 am ddadansoddiad o ddata sy'n ymwneud ag amrywiaeth ar gyfer gweithlu a gweithgarwch recriwtio'r Awdurdod.

Hirdymor: Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cwblhawyd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar Gynllun Rheoli diwygiedig y Parc Cenedlaethol, y cynllun cydraddoldeb drafft a chynllun corfforaethol drafft 2020/21 yn 2019/20.

3

Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gwblhau yn 2019/20, mae hyn yn cymharu â 2 yn 2018/19 a 2 yn 2017/18. Ni chwblhawyd unrhyw sgriniau Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Hirdymor: Data ar gael i'w ddadansoddi

Parhaodd yr Awdurdod i gasglu gwybodaeth monitro cydraddoldeb er mwyn helpu i ddadansoddi amrywiaeth y gweithlu a nodi meysydd i'w gwella. Defnyddiwyd data o'r gorffennol i lywio'r camau a ddatblygwyd fel rhan o Gynllun Cydraddoldeb newydd yr Awdurdod ar gyfer 2020-24.

Mesur Perfformiad	2017/18	2018/19	2019/20	2019/20 Targed
% yr wybodaeth	76.0%	78.4%	81.6%	70

Ffrwd Waith: Tirweddau i Bawb – Cynhwysiant Cymdeithasol (CS)

Cydweithio: Cynyddu Mynediad

Parhaodd yr Awdurdod i ddarparu cyfleoedd sy'n helpu mwy o bobl i gael mynediad i'r Parc Cenedlaethol ac elwa ohono drwy ei weithgareddau cynhwysiant cymdeithasol yn 2019/20.

3,235

pobl yn cymryd rhan drwy weithgareddau cynhwysiant cymdeithasol yr Awdurdod yn 2019/20. Mae hyn yn cymharu â 4,755 yn 2018/19 a 2,356 yn 2017/18.

Mae enghreifftiau o weithgareddau yn 2019/20 a gwblhawyd ar y cyd â gwahanol grwpiau cymorth a chymunedol yn cynnwys:

- ✓ Taith ar Lwybr yr Arfordir o Aberllydan i Nolton a Gweithdai Celf gyda chyfranogwyr o oriel VC
- ✓ Taith ar Lwybr yr Arfordir yn Aberllydan gyda Grŵp o Bobl â Nam ar eu Golwg

- ✓ Gweithgareddau Gwobr John Muir gyda chyfranogwyr o MIND, Value Independence a Gwaith yn yr Arfaeth yng Nghyngor Sir Penfro
- ✓ Gwyllo morloi gyda chyfranogwyr o grŵp Tŷ Shalom yn y Strymbl
- ✓ Atgyweirio grisiau a chlirio llystyfiant ar y llwybr troed o Henllys i Borthgain gyda chyfranogwyr o Gofal yn y Gymuned Tyddewi

Parhaodd yr Awdurdod i ymgysylltu â phobl ifanc yn 2019/20 drwy ei gynllun Parcmyn Ifanc a chreu Pwyllgor Ieuentid newydd, gweithio gyda Chlwb Ieuentid Point, Coleg Plas Dwbl, darpariaeth Dug Caeredin a gweithio gyda disgyblion ag anghenion dysgu neu gymorth ychwanegol.

897

cyfranogwyr yr ymgysylltwyd â hwy drwy ein gwaith cynhwysiant cymdeithasol gyda phobl ifanc yn 2019/20, mae hyn yn cymharu â 1,261 yn 2018/19 a 438 yn 2017/18.

11

Parcmyn Ieuentid gweithredol (Cyfartaledd ar gyfer pob chwarter)

Mae enghreifftiau o weithgareddau o 2019/20 yn cynnwys:

- ✓ Dal crancod a cherdded Carn Ingli gyda grŵp Y Porth (Parcmyn.)
- ✓ Mapio gwaith a gweithgareddau adeiladu tîm yng nghoedwig Pentre Ifan gyda Grŵp Anogaeth Ysgol Caer Elen (Parcmyn.)
- ✓ Gosod carreg ar lwybr gwlyb Porthyddi i Lanrhian gyda disgyblion o Ysgol Portfield (Parcmyn.)

- ✓ Arddangosfa archaeoleg yn Neuadd Bentref Llawhaden ar gyfer Ffair Nadolig ffermwyr ifanc (Archaeoleg Gymunedol.)
- ✓ Creodd myfyrwyr Coleg Plas Dwbl ddyluniadau wedi'u paentio ar y tŷ cyfarfod newydd yng Nghastell Henllys.
- ✓ Creu gwestai byg bach gyda Plant Dewi yn Ysgol Gymunedol Doc Penfro.

Cynnwys ac Ymgysylltu: Her Llwybr Arfordir y Ganolfan Ieuentid Point

Trwy Ganolfan Iechyd POINT cymerodd pobl ifanc o ardal Abergwaun ran mewn her cerdded 22 milltir ar Lwybr Arfordir Sir Benfro a osodwyd gan Barcmon Gogledd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Cymerodd 17 o bobl ifanc ran yn yr her Get the POINT Across, gyda rhai ohonynt yn neilltuo tridiau o'u gwyliau haf. Fe helpodd yr her hwy i godi arian i POINT a Get the Boys a Lift, cwmni budd cymunedol nid-er-elw sy'n gweithio i wella iechyd meddwl yn y gymuned. Rhoddodd gyfle iddynt hefyd ddarganfod rhannau o'r Parc Cenedlaethol am y tro cyntaf.

Sefydlwyd POINT i ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc 11 i 25 oed feithrin hunan-barch, sgiliau a hunanhyder i ymdopi â phroblemau personol yn ystod y cyfnod pontio o fod yn blentyn i fod yn oedolyn.

Roedd gweithgareddau eraill a gynhaliwyd gydag Aelodau o Glwb Ieuentid POINT yn 2019/20 yn cynnwys gweithgareddau garddio bywyd gwyllt, sesiwn ar blastigau, digwyddiad gwasgu sudd o afalau a thaith nos Llanwnda.

Ffrwd Waith: Tirweddau i Bawb - Profiadau Cynhwysol (CS)

Cynnwys: Ymchwil Profiadau i Bawb

Yn ystod 2019/20 cyhoeddwyd tendr a phenodwyd contractwr ar gyfer gwaith ymgynghori arbenigol ac i ysgrifennu adroddiad ar eu canfyddiadau ar gyfer y "Prosiect Profiadau i Bawb", darn o waith a ariannwyd gyda chymorth cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r prosiect hwn yn ceisio adnabod cyfleoedd i wella mynediad at y Parc Cenedlaethol ar gyfer ystod o grwpiau a chymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar y cyfan o ran eu defnydd a'u mwynhad o'r Parc Cenedlaethol. Bydd y prosiect hwn yn:

- ✓ Casglu tystiolaeth (trwy ymchwil ddesg a thrwy fforymau ymgynghorol) i ddeall yn well beth yw'r lluo o rwystrau a allai atal mynediad at y Parc Cenedlaethol i rai grwpiau/unigolion.
- ✓ Sefydlu data meincnodi ar ddefnydd o'r Parc Cenedlaethol (a gwasanaethau APCAP) gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol a gwneud argymhellion ar gyfer mecanweithiau ymgysylltu gwell mewn perthynas â gwaith APCAP.
- ✓ Llundio cynllun gweithredu sy'n gosod targedau clir ar gyfer mwy o ddefnydd o'r Parc Cenedlaethol gan grwpiau/unigolion a dangynrychiolir trwy ddod â rhwydwaith o bartion â buddiant ynghyd i oresgyn rhwystrau a adnabuwyd.

Cynnwys: Awr Dawel yng Nghastell Henllys

Cyflwynodd Castell Henllys awr dawel 10am ac 11am ar ddyddiau Sul yn 2019/20 i annog mwy o ymwelwyr awtistig i brofi'r Oes Haearn. Yn ystod yr amseroedd hyn nid oedd unrhyw weithgareddau swllyd ac mae sain o fideos dehongli digidol a phaneli rhyngweithiol yn cael ei droi i lawr yn isel. Mae tywysydd safle ar gael i redeg gweithgareddau tyner a thawel os bydd ymwelwyr yn dymuno cyfranogi. Er y gall y safle fod yn heddychlon ar adegau, gall rhai o'i weithgareddau a digwyddiadau fod yn swllyd gan eu bod yn ymwneud â phobl yn dysgu sut i fod yn rhyfelwyr Celtaidd. Y gobaith yw y bydd yr awr dawel hon yn annog pobl na fyddent wedi ymweld â'r safle fel arall i ddod a darganfod mwy am sut y byddai ein cyndeidiau wedi byw 2,000 o flynyddoedd yn ôl. Mae nifer cynyddol o fanwerthwyr wedi cyflwyno oriau tawel dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys archfarchnadoedd a siopau teganau.

Collaboration: Gwasanaeth Cadeiriau Olwyn Traeth

Mae cadeiriau olwyn traethau'r Awdurdod wedi'u dylunio a'u gweithgynhyrchu'n benodol i gael eu defnyddio ar draethau tywodlyd, gan helpu i ddileu rhwystrau sy'n atal pobl rhag profi traethau'r Parc. Yn ystod 2019/20 roeddent ar gael i'w llogi ar nifer o safleoedd yn y Parc Cenedlaethol ac fe ychwanegodd yr Awdurdod bedair cadair olwyn at y fflyd, gyda 3 safle newydd, sef Neuadd Coppet, Traeth y Gogledd yn Ninbych-y-pysgod a Thraeth Castell Dinbych-y-pysgod a Chadair Olwyn Traeth ychwanegol yn y Traeth Mawr. Sylwer fod rhai ar gael

yn dymhorol tra bo eraill ar gael dros y gaeaf a phob pen i'r tymor brig.

12


Cadeiriau olwyn traeth ar gael yn 2019/20, o'i gymharu ag 8 yn 2018/19.

Lleoliadau cadair olwyn traeth yn y Parc yn 2019/20:

Traeth Poppit (x1)	Broad Haven (x1)	Porth Mawr (x3)
Traeth Mawr, Trefdraeth (x1)	Gorllwein Angle (x1)	Dwyrain Freshwater (x1)
Saundersfoot Harbour (x1),	Saundersfoot Neuadd Coppet (x1)	Traeth Gogledd Dinbych-y-pysgod (x1)
Traeth Castell Dinbych-y-pysgod (x1)		

Tueddiadau o ran lawrlwytho mapiau teithiau â chadeiriau olwyn

Ochr yn ochr â'i wybodaeth am deithiau i bawb ar wefan yr Awdurdod mae ystod o fapiau o deithiau â chadeiriau olwyn ar gael i'w lawrlwytho. Yn 2019/20 gwelodd yr Awdurdod gynnydd bach o 1.7% yn nifer y mapiau hynny a lawrlwythwyd o'i gymharu â 2018/19.



Y lawrlwythiadau cerdded gwe cadair olwyn fwyaf poblogaidd ar gyfer 2019/20:

- ✓ Morlyn Glas Abereiddi - 547.
- ✓ Stackrocks i Sant Govan's – 347.
- ✓ Ffort Abergwaun - 260.

Cynnwys: Codi Ymwybyddiaeth yn Oriel y Parc

Yn 2019/20 cynhaliodd Oriel y Parc ddau ddigwyddiad gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth am brofiadau pobl sydd ar y cyrion:

- ✓ Cynhaliodd Oriel y Parc sgwrs codi arian ar gyfer Tŷ Shalom a oedd yn dwyn y teitl 'Airbrushed from Art', a hwyluswyd gan feddyg teulu wedi ymddeol ac a oedd yn archwilio celf a allai fod wedi cael ei dileu o hanes. Daeth 13 o bobl i'r digwyddiad.
- ✓ Fe letyodd buarth Oriel y Parc Ciw b cARTrefu, man arddangos tryloyw sy'n sefyll ar ei draed ei hun, gyda'r arlunydd o Sir Benfro Lizzy Stonhold yn arlunydd preswyl.

Un o nodau'r prosiect fu defnyddio arddangosfeydd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o fywyd creadigol mewn cartrefi gofal, trwy'r celfwaith a grëwyd gyda ac a ysbrydolwyd gan y bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal, yn gweithio ynddynt ac yn ymweld â hwy.

Ffrwd Waith: Cynllun Gweithredu ar Ymgysylltu - Pobl Ifanc (CS)

Cynnwys: Penwythnos Preswyl i Bobl Ifanc

Mae ymgysylltu â phobl ifanc wedi'i nodi fel un o'r meysydd blaenoriaeth yng Nghynllun Gweithredu'r Awdurdod ar Ymgysylltu, a dechreuodd y fenter i sefydlu 'Pwyllgor leuenctid' ddod i siâp ym mis Mawrth 2019/20. Daeth 10 o bobl ifanc (13-25 oed, 4 Parcmon leuenctid, 4 Aelod o'r Cynulliad leuenctid a 2 berson ifanc arall) i benwythnos preswyl yng Nghanolfan yr Urdd ym Mhentre Ifan ac fe'i darparwyd ar y cyd â Swyddfa Hawliau Plant a Phobl Ifanc Cyngor Sir Penfro.

Roedd y gweithgareddau yn ystod y penwythnos yn cynnwys:

- ✓ Gweithgareddau meithrin tîm a thorri'r ias.
- ✓ Cynhaliwyd gweithdai i roi peth cefndir i gyfranogwyr am Barciau Cenedlaethol, Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a chyfranogi ac ymgysylltu.
- ✓ Taith gerdded yn y tywyllwch o amgylch coedwig Pentre Ifan.
- ✓ Cynhaliwyd gweithdy i gyflwyno Maniffesto leuenctid y Parc Cenedlaethol a nodi rhai cwestiynau yr oedd y bobl

ifanc am eu gofyn i Brif Weithredwr ac Is-gadeirydd APCAP.

- ✓ Fe wnaeth taith Ddarganfod o amgylch Tŷ Canol, Ogof Sant Brynach a Chromlech Pentre Ifan helpu'r bobl ifanc i fyfyrto ynghylch nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol a deall rôl yr Awdurdod o ran darparu gwasanaethau i gyflawni ein dibenion.
- ✓ Croesawodd y Pwyllgor leuenctid Brif Weithredwr ac Is-gadeirydd yr Awdurdod, y Cyngh. Di Clements a chynhaliodd drafodaeth anffurfiol a chadarnhaol gan gynnwys rôl a gwaith posibl y Pwyllgor leuenctid, yr adnoddau a'r cymorth a oedd ar gael gan yr Awdurdod a sut y gallai'r Pwyllgor leuenctid integreiddio â'r Awdurdod.
- ✓ Cymerodd Cadeirydd APCAP, y Cyngh. Paul Harries ran mewn gweithdy gyda'r bobl ifanc i archwilio'r Maniffesto leuenctid ac adnabod llawer o faterion pellach / darparu manylion am y rhai sydd eisoes wedi'u sefydlu.
- ✓ Cynhaliodd y Pwyllgor leuenctid ymarfer 'Cwsmer Cudd' yng Nghastell Henllys y gwnaethant ei fwynhau ac a esgorodd ar adborth a fydd o ddefnydd i Dîm Castell Henllys / y Tîm Marchnata a Chyfathrebu yn y dyfodol.

Ar ôl y penwythnos preswyl, mae cyfarfodydd y Pwyllgor leuenctid wedi symud ar-lein yn dilyn cyfyngiadau symud Covid 19.



Cyfranogwyr yn y Penwythnos Preswyl i ddatblygu'r Pwyllgor Ieuenctid



Amcan Llesiant Cymunedol: Gweithio ochr yn ochr â chymunedau i'w helpu i gael y gorau o'r Parc Cenedlaethol.

Ffrydiau gwaith a roddodd gymorth i gyflawni'r amcan hwn yn 2019/20:

Strategol – Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol	Prosiect Rhinweddau Arbennig	Cynllun Gweithredu a Ymgysylltu - Dulliau
Ymgysylltu â Chymunedau a Phrosiectau	Cronfa Datblygu Cynaliadwy	Gwasanaeth Cynllunio - Gorfodaeth ac Ymgysylltu â'r Gymuned

Crynodeb o'r Diogelwr Taith – Ein Cynnydd yn erbyn yr Amcan hwn

Fe dreialodd yr Awdurdod ddulliau newydd o ymgysylltu fel rhan o gamau cyntaf datblygu Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol 2020-24 ac mae'n ymrwymedig i chwilio am ffyrdd i barhau i gynnwys pobl a chymunedau mewn sgwrs barhaus am y parc yn ystod cyfnod y cynllun newydd. Mae parcmyn ardal a pharcmyn darganfod yr Awdurdod yn parhau i gefnogi cymunedau lleol o fewn ac yn agos at y Parc trwy ddarparu gweithgareddau a sgysiau lleol, cwrdd â rhanddeiliaid o gymunedau a chyflawni gwelliannau lleol ar raddfa fach gyda gwirfoddolwyr. Mae archeolegydd cymunedol yr Awdurdod yn cynorthwyo ystod o grwpiau cymunedol i ymgysylltu â chyfleoedd treftadaeth ac archeolegol lleol, tra bo'r prosiect Pwyth mewn Pryd yn cynorthwyo cymunedau i fynd i'r afael â mater rhywogaethau goresgynnol yn eu hamgylcheddau lleol. Fe barhaodd Canolfannau'r Awdurdod i gynnal digwyddiadau a ffeiriau cymunedol yn 2019/20 a chyfleoedd i gymunedau ddod ynghyd. Mae'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy a Grantiau Bach Gwyrdd yn rhoi cymorth i ddatblygu a chyflawni prosiectau cynaliadwyedd yn ardal y Parc.

Mae'r Awdurdod wedi gweld gwelliant sylweddol yn ei berfformiad gorfodi o gymharu â 2018/19. Mae hyn yn adlewyrchu effaith gadarnhaol y gwaith a wnaeth yr Awdurdod yn 2018/19 i glirio ei ôl-groniad o achosion gorfodi hanesyddol.

Mae ein gwaith ar draws y ffrydiau gwaith hyn yn cyfrannu at y dangosyddion llesiant cenedlaethol canlynol.

23. Y ganran sy'n teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol	26. Y ganran o'r bobl sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw
28. Y ganran o'r bobl sy'n gwirfoddoli	30. Y ganran o'r bobl sy'n unig
27. Y ganran o'r bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch	

Mae'r adran nesaf yn amlinellu ein perfformiad yn 2019/20 yn erbyn y ffrydiau gwaith sy'n cyfrannu at ein Hamcan Llesiant Cymunedol.

Ffrwd Waith: Strategol – Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol (CS)

Cynnwys ac Ymgysylltu: Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol

Mae llawer o sefydliadau ac unigolion yn cyfrannu at ddibenion y Parciau Cenedlaethol. Ffordd o gydgyssylltu'r ymdrechion hynny yw Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol; cynllun ar gyfer cyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol ydyw, nid dim ond cynllun ar gyfer Awdurdod y Parc. Ym mis Rhagfyr 2019 fe gymeradwyodd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol 2020-2024. Roedd y cynllun wedi cael ei baratoi yn unol â strategaeth ymgysylltu ac amserlen a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ar 20 Mehefin 2018. Roedd gweithgareddau ymgysylltu fel rhan o'i ddatblygu'n cynnwys:

- ✓ Trefnwyd nifer o ddigwyddiadau gwahanol gan Barcmon Darganfod yr Awdurdod a'r rheiny wedi'u bwriadu i gasglu barn pobl a oedd yn llai tebygol o ymgysylltu trwy ddulliau ymgynghori ysgrifenedig.
- ✓ Cafodd papur trafod Cyfleoedd a Heriau ei gyhoeddi a'i hyrwyddo ar gyfer sylwadau rhwng 20 Tachwedd 2018 a 4 Ionawr 2019 fel rhan o'r rhaglen ymgysylltu cynnar ar gyfer adolygu Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Roedd hyn cyn unrhyw waith i ddrafftio polisïau a chafodd y

papur ei hun ei oleuo gan ymgysylltu parhaus anffurfiol â sefydliadau partner a'r cyhoedd. Cafwyd hanner cant ag un o sylwadau am y papur trafod.

- ✓ Fe ymgysylltwyd â Rhanddeiliaid â diddordebau ac arbenigedd penodol wrth baratoi drafftiau ymgynghori o'r Cynllun Rheoli, yr Asesiad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol, a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.
- ✓ Cyfarfodydd Grŵp Cyfeirio'r Cynllun Rheoli, grŵp partneriaeth sy'n cynnwys uwch gynrychiolwyr yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ac awdurdodau perthnasol.
- ✓ Cynhaliwyd Gweithdai i Aelodau'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, ar 20 Chwefror 2019 a 3 Ebrill 2019. Roedd y rhain yn rhoi sylw i wersylla diawdurdod a rheoli ymwelwyr, rhywogaethau goresgynnol, ymgysylltu â phobl, treftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd morol.
- ✓ Cafodd drafftiau ymgynghori o Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol 2020-2024, yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (a oedd yn ymgorffori'r Asesiad Amgylcheddol Strategol) a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb eu cymeradwyo ar gyfer ymgynghori yng nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ar 5 Mehefin 2019. Roedd y dogfennau ymgynghori ar gael ar gyfer sylwadau rhwng 1 Awst 2019 a 31 Hydref 2019. Cafwyd hanner cant a saith o ymatebion.

I helpu i roi'r Cynllun ar waith mae ystod o gynlluniau gweithredu ategol yn cael eu datblygu a'r rheiny'n canolbwyntio ar dreftadaeth, cadwraeth ac ymateb i argyfwng y newid yn yr hinsawdd. Mae gwaith wedi cael ei wneud hefyd i adnabod meysydd ymgyrchu effaith allweddol sydd wedi'u

ymgorffori yng Nghynllun Corfforaethol ac Adnoddau'r Awdurdod 2020/21.

Ffrwd Waith: Prosiect Rhinweddau Arbennig

Cynnwys ac Ymgysylltu: Prosiect Llygredd Golau gyda Chymunedau

Dechreuodd yr Awdurdod waith yn 2019/20 i ddatblygu prosiect Llygredd Golau â ffocws cymunedol i helpu cymunedau a busnesau lleol i leihau llygredd golau lleol. Bu'r ymgysylltu cychwynnol mewn perthynas â datblygu'r prosiect gyda Chyngor Cymuned Tyddewi. Mae hyn yn adeiladu ar weithdy blaenorol y cynhaliodd yr Awdurdod ar gyfer Cynghorau Cymuned i ystyried Llygredd Golau.

Ffrwd Waith: Cynllun Gweithredu a Ymgysylltu - Dulliau

Tueddiadau Dilynwyr Cyfryngau Cymdeithasol

Parhaodd yr Awdurdod i ymgysylltu â phobl dros lwyfannau cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys Twitter a Facebook yn 2019/20.

45,606

dilynwyr cyfryngau cymdeithasol ar draws lwyfannau yn 2019/20, o'i gymharu ag 42,135 y n 2018/19 a 37,448 yn 2017/18.

Yn dilyn trafodaethau gyda'r tîm cyfathrebu fel rhan o ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2020/21, argymhellwyd wrth edrych tua'r dyfodol y dylem newid o ddefnyddio'r dangosydd monitro dilynwyr i ganolbwyntio ar

ymgyrchoedd yn y cyfryngau cymdeithasol yn eu cyfanrwydd ac asesu'r modd y cyrhaeddir nodau ymgyrchoedd trwy fetrigau perthnasol.

Cynnwys ac Ymgysylltu: Gwerthuso Llwybrau – Y Newid Mwyaf Arwyddocaol

Mae'r prosiect Llwybrau yn cael ei werthuso i asesu'r effeithiau ar iechyd a llesiant cyfranogwyr. Bydd ymgysylltu a thystiolaeth o'i werthuso'n helpu i oleuo datblygiad prosiect dilynol posibl.

Ceir ffocws cryf yn y prosiect ar gasglu gwybodaeth am yr effaith y mae cyfranogiad yn ei chael ar y rhai sy'n cymryd rhan. Gwneir hyn trwy adolygu beunyddiol a dogfennu deilliannau tymor hwy gan ddefnyddio methodoleg 'Y Newid Mwyaf Arwyddocaol' newydd sydd bellach wedi'i mabwysiadu ar hyd a lles y sir a chan ymgorffori gwaith gyda Phrifysgol Abertawe dan faner 'cymuned ymholi'. Ym mis Rhagfyr cynhaliwyd digwyddiad gwerthuso yn Ystagbwl gyda Chyfranogwyr a chynrychiolydd o Brifysgol Abertawe sy'n arwain ar waith Cymuned Ymholiad.

Ffrwd Waith: Ymgysylltu â Chymunedau a Phrosiectau

Ymgysylltu a Chynnwys: Prosiectau Cymunedol a Gweithgareddau Ymgysylltu

Ar draws timau fe barhaodd yr Awdurdod i gynnal gweithgareddau allgymorth, prosiect ac ymgysylltu

cymunedol. Roedd y rhain yn amrywio o gyflwyniadau i grwpiau cymunedol, teithiau tywys, gweithgareddau ymgysylltu yn yr awyr agored, bod yn bresennol yng nghyfarfodydd cynghorau cymuned ac mewn cyfarfodydd cyhoeddus eraill, cynnal gweithgareddau gweithredu cymdeithasol gyda grwpiau a mynychu gwyliau cymunedol lleol.

Mae enghreifftiau o 2019/20 yn cynnwys:

- ✓ Rhoddodd y cydgysylltydd Pwyth mewn Pryd sgwrs i grŵp cymunedol yn Nhrewyddel sydd wedi bod yn rheoli Jac y Neidiwr mewn modd anstrategol ym mis Awst i gyflwyno'r prosiect a'n dull ar gyfer y dalgylch. Ar ôl y sgwrs cafwyd gweithgarwch i arolygu'r dalgylch, gan rannu ardaloedd rhwng grwpiau o wirfoddolwyr i adnabod dosbarthiad Jac y Neidiwr ledled y dalgylch cyfan, sy'n gam cyntaf hanfodol wrth reoli dalgylch yn strategol
- ✓ Mae Castell Caeriw wedi datblygu grŵp o wirfoddolwyr sydd wedi helpu gyda gwaith garddio yn ei ardd furiog newydd.
- ✓ Cynnal gweithgareddau Gweithredu Cymdeithasol gyda phartïon gwaith o Grŵp Paratoi Milwrol a Chwrs Cadwraeth Amgylcheddol Coleg Sir Benfro. Roedd gweithgareddau'n cynnwys gwaith ar lwybr yr arfordir ym Mhwllgwaelod, rheoli prysgwydd yn Foel Cwmcerwyn a gwaith ar safleoedd yn Nhraeth Trefdraeth a Chastell Henllys.

866

Prosiect cymunedol/ gweithgareddau ymgysylltu yn 2019/20 o'i gymharu a 708 yn 2018/19.

471.5

diwrnodau cyfranogwyr gweithredu cymdeithasol a gyfrannwyd yn 2019/20, mae hyn yn cymharu â 581 yn 2019/20.

3

nifer cyfartalog y grwpiau cymunedol sy'n ymwneud â Rhywogaethau Goresgynnol yn gweithio ar draws pob chwarter yn 2019/20. Mae hyn yn cymharu â 7 yn 2018/19 a 5 yn 2017/18.

Mesur Perfformiad	2017/18	2018/19	2019/20	2019/20 Targed
Wardeniaid Gwirfoddol	72 (Gwyrdd)	53 (Coch)	65 (Gwyrdd)	55

Parhaodd Wardeniaid Gwirfoddol yr Awdurdod i gynnal gweithgareddau i gefnogi'r amgylchedd yn y Parc a chymunedau. Mae enghreifftiau o 2019/20 yn cynnwys:

- ✓ Wardeniaid Gwirfoddol y De'n gwaredu eiddew o walïau tref Penfro i roi cymorth gydag arolwg o gyflwr adeiladau, clirio llwybr at y traeth a chloddio a gorchuddio tyllau tân yn y twyni ym Maenorbŷr.
- ✓ Wardeniaid Gwirfoddol y De Orllewin yn clirio coed yng Nghoedwig Haroldston a oedd yn blocio'r llwybr mewndirol a chloddio pyllau bas ar gyfer rhyddyddion ym mhyllau Slaes Aberllydan.
- ✓ Wardeniaid Gwirfoddol y Gogledd Orllewin yn adnewyddu ffens a oedd wedi pydru yng Ngarn Fechra a gwaith safle yn y Traeth Mawr gan gynnwys atgyweirio ffens a chlirio ac aildywarchu tyllau barbeciw.

- ✓ Wardeniaid Gwirfoddol y Gogledd yn cwblhau rhes o risiau ar lwybr ymyl ffordd a storm Caerbwdi a gwaith safle yn Sychpant.

Ymgysylltu a Chynnwys: Archaeoleg Gymunedol (CS)

Cynhaliodd Archeolegydd Cymunedol yr Awdurdod amrywiaeth o weithgareddau allgymorth yn y gymuned i helpu mwy o bobl i gael gwybod am dreftadaeth leol a sut y gallant gymryd rhan yn y gwaith o'i ddiogelu.

Roedd y gweithgareddau yn 2019/20 yn cynnwys:

Archeoleg Gymunedol – O Dan Ein Traed

Fe gefnogodd yr Awdurdod elfen y prosiect O Dan Ein Traed o'r prosiect Hel Trysor; Hel Straeon a oedd wedi'i fwriadu i ysgogi cymunedau i ymgysylltu â'u gorffennol. Gan weithio gydag Amgueddfa Cymru, Amgueddfa Arberth, Amgueddfa Dinbych-y-pysgod ac Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed, roedd yn gyfle i bobl, cymunedau a'r cyhoedd ddod â gwrthrychau treftadaeth yr oeddent wedi'u darganfod i mewn i gael eu hadnabod a hefyd dysgu mwy am dreftadaeth ddiwylliannol Sir Benfro. Ar y cyfan, cynhaliwyd pedair sesiwn ledled Sir Benfro rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2019 yn Amgueddfa Dinbych-y-pysgod, Amgueddfa Arberth, Oriol y Parc a Chastell Henllys. O ganlyniad i'r sesiynau, dysgodd aelodau'r gymuned fwy am dreftadaeth, pa adnoddau oedd yn bodoli ac fe gyflwynon nhw wrthrychau yr oeddent wedi'u canfod a oedd yn amrywio o'r Oes Efydd i'r cyfnod mwy diweddar. Cyflwynwyd gwaith yr elfen brosiect hon yn nigwyddiad gweithdy Hel Trysor; Hel Straeon yn Sain Ffagan ym mis Mawrth 2020,

gyda'r sgwrs yn cael ei rhoi trwy gyfrwng y Gymraeg.

Sioeau Amaethyddol

Yn ystod 2019, cafodd agweddau archeolegol ar y Parc Cenedlaethol eu harddangos mewn nifer o sioeau amgylcheddol. Roedd hyn yn cynnwys Sioe Sir Benfro, Sioe Amaethyddol Nanhyfer, Sioe Amaethyddol Abergwaun, Sioe Amaethyddol Aberteifi a Ffair Nadolig Clwb Ffermwyr Ifanc Llawhaden. Fe wnaeth presenoldeb yn y sioeau hyn i gyd alluogi'r cyhoedd a chymunedau i ddysgu mwy am dreftadaeth ddiwylliannol yn y Parc Cenedlaethol, darganfod pa ddigwyddiadau oedd yn mynd rhagddynt a hefyd darganfod sut y gallent hwy helpu. Mae nifer o'r nodweddion archeolegol yn y Parc Cenedlaethol i'w cael ar dir amaethyddol, felly mae ymgysylltu â'r gymuned amaethyddol yn bwysig i helpu i'w diogelu a chodi ymwybyddiaeth o'u pwysigrwydd.

Ymgysylltu a Chynnwys: Digwyddiad a ffilm 80fed pen-blwydd Maes Tanio Castellmartin

Medi 2019 oedd 80fed Pen-blwydd creu Maes Tanio Castellmartin ac fe gynigiodd Parcmon yr Awdurdod ar gyfer Maes Tanio'r Weinyddiaeth Amddiffyn yng Nghastellmartin drefnu aduniad i nodi'r digwyddiad. Estynnwyd gwahoddiad i bobl a oedd wedi byw ar y Maes Tanio a'u disgynyddion. Daeth 78 o bobl i'r digwyddiad, yr oedd 7 ohonynt wedi cael eu troi allan gyda'u teuluoedd pan symudodd y Fyddin i mewn. Roedd y diwrnod yn cynnwys gwasanaeth yng Nghapel Sant Gofan ac yna taith o Fferm Flimston (ganed un o'r cyfranogwyr ar Fferm Flimston ym 1928 a dychwelodd yno ar y diwrnod hwn). Wedyn aeth chwe bws mini â phobl i

wahanol rannau o'r Maes Tanio – roedd hyn yn emosiynol iawn rai nad oeddent erioed wedi gweld beth oedd ar ôl o'u cartref cyndadol – weithiau dim ond carreg neu wal ydoedd, weithiau dim byd o gwbl. Wedyn fe ddychwelon nhw i Ystafell Fwyta'r Swyddogion lle'r oedd y Parcmon wedi gosod ffotograffau o'r hen dai a theuluoedd yn ogystal â ffotograffau o'r bywyd gwyllt a'r hyfforddiant milwrol. Roedd pobl eraill wedi dod â phortreadau teuluol, lluniau a mapiau i'w harddangos hefyd.

Sylweddolodd ein Parcmon ein bod yn colli'r genhedlaeth o bobl a allai gofio sut le oedd Maes Tanio Castellmartin cyn i'r Fyddin symud i mewn. Felly, gan ddefnyddio cyllid gan DIO (Sefydliad Seilwaith Amddiffyn), cyfarfu'r Parcmy'n ac Animality Productions, ac fe wnaethant recordio a ffilmio pobl yn rhannu eu straeon a'u hatgofion am y cyfnod cyn cael eu troi allan o'r ardal. Bydd y ffilm ['1939 – Reflections from Castlemartin'](#) yn sicrhau bod y gorffennol hwn ar gof a chadw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Fe'i chwaraewyd yn ystod y digwyddiad dathlu a chafodd gymeradwyaeth enfawr.

Ymgysylltu a Chynnwys: Canolfannau'n ymgysylltu â chymunedau

Parhaodd Canolfannau'r Awdurdod i gynnal digwyddiadau a ffeiriau cymunedol yn 2019/20, gan gynnwys Gorymdaith Dydd Gŵyl Dewi Oriol y Parc a ffair haf a Nadolig yn Caeriw ac Oriol y Parc. Cynhaliwyd cystadleuaeth Dyn Cryfaf Sir Benfro yng Nghaeriw hefyd gyda 1,392 yn bresennol, a chyda llawer o weithgareddau wedi'u hysbrydoli gan ffitrwydd a oedd yn addas i'r teulu cyfan stondinau a oedd yn rhannu syniadau ar gyfer mynd allan i'r awyr agored a bod

yn egniol yn y Parc Cenedlaethol.

15

Digwyddiadau cymunedol a ffeiriau a gynhaliwyd yn y canolfannau yn 2019/20, mae hyn yn cymharu ag 11 yn 2018/19 a 12 yn 2017/18.

Parhaodd Oriol y Parc i gynnal grwpiau cymunedol yn 2019/20, gan gynnwys Caffi Cof i bobl â dementia a gofalwyr, Plantos Penfro, Brwshys, Brushstrokes, Springboard a Stitchy Witches.

7

Nifer cyfartalog y grwpiau Cymunedol sy'n defnyddio Oriol y Parc ar draws pob chwarter yn 2019/20. Mae hyn yn cymharu â 4 yn 2018/19 a 5 yn 2017/18.

Cynhaliodd Grŵp Celf Solfach a Thyddewi arddangosfa dros dro yn yr ystafell ddarganfod ym mis Ebrill. Arddangosfa flynyddol o artistiaid lleol sy'n codi arian ar gyfer elusennau lleol yw hon.

Ffrwd Waith: Cronfa Datblygu Cynaliadwy (A6)

Ymgysylltu a Chynnwys: Cefnogi Prosiectau Datblygu Cynaliadwy yn y gymuned

Fe barhaodd y Gronfa Datblygu Cynaliadwy a Grantiau Bach Gwyrdd i fod â rôl bwysig o ran rhoi cymorth i ddatblygu a chyflawni prosiectau cynaliadwyedd yn ardal y Parc yn 2019/20. Cafodd ceisiadau i'r gronfa eu gweinyddu gan

PLANED yn 2019/20. Dyrannwyd £4,500 trwy Grantiau Bach Gwydd.

Mesur Perfformiad	2018/19	2019/20	2019/20 Targed
% Gronfa Datblygu Cynaliadwy a Dyrannwyd	24.10 (Coch)	84.49 (Ambr)	100%

Roedd y prosiectau a gymeradwywyd i'w ariannu yn 2019/20 yn cynnwys:

Teuluoedd sy'n Chwilio am Antur: £19,000 (AC)

Mae'r prosiect hwn yn adeiladu ar lwyddiant presennol trwy Dysgu Sir Benfro a'i brosiect Sbardun i ddarparu cyfleoedd dysgu ystyrlon i gefnogi datblygiad sgiliau, llesiant a chynnydd plant a theuluoedd ar draws ysgolion yn y sir. Bydd y prosiect 'Teuluoedd sy'n Chwilio am Antur' hwn yn canolbwyntio ar y rhai sy'n cael Prydau Ysgol Am Ddim, a fydd yn cael o leiaf 25 awr o ddysgu sy'n gysylltiedig â phedair her Gwobr John Muir i ddarparu profiadau sy'n gwednewid bywydau gan ddefnyddio adnoddau gwych Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Argraffu Cynaliadwy: £20,428

Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar ddatblygu llifynnau a phastau cynaliadwy sy'n seiliedig ar bridd ac yn eco-gyfeillgar. Bydd y prosiect yn rhedeg cyrsiau ledled Sir Benfro fel rhan o weithdy argraffu cynaliadwy a chyda chefnogaeth y gweithdy hwnnw sydd wedi'i leoli yn Arberth.

Bragdy Hen Ffermdy Tyddewi: £24,613.09

Nod y prosiect yw cymhwyso egwyddorion yr economi gylchol i greu Microfragdy trwy gylch cynhyrchu a gefnogir gan adnoddau naturiol y fferm; cnydau a deunyddiau, gan gynnwys haidd a mêl.

Gweithdy Coetiroedd Coleg Coppicewood: £15,852.50

Roedd y prosiect yn ceisio cyllid i adeiladu gweithdy newydd; adeilad crwn â ffrâm bren er mwyn iddynt allu adleoli Coleg Coppicewood. Bydd adeiladu gweithdy newydd yng nghoedwig Pengelli'n sicrhau bod Coleg Coppicewood yn gallu parhau i ddarparu cyrsiau coetiroedd o ansawdd, gan hyfforddi grwpiau ac unigolion i reoli coetiroedd yn gynaliadwy a datblygu eu busnes gwledig eu hunain; a chefnogi ardaloedd o harddwch naturiol sy'n gyson ag egwyddorion y Parc Cenedlaethol.

Y camau nesaf ar gyfer gwella: Bydd yr Awdurdod yn ceisio ailbennu ffocws y Gronfa Datblygu Cynaliadwy fel ei bod yn cynorthwyo pobl a chymunedau yn y Parc i ddatblygu prosiectau sy'n canolbwyntio ar ymateb i Argyfwng y Newid yn yr Hinsawdd. Bydd hefyd yn ceisio gwella amlygrwydd ac effeithlonrwydd prosesau gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gronfa.

Ffrwd Waith: Gwasanaeth Cynllunio - Gorfodaeth ac Ymgysylltu â'r Gymuned

Atal a Meithrin Cydnerthedd: Perfformiad Gorfodi Cynllunio

Mae'r Awdurdod wedi gweld gwelliant sylweddol yn ei berfformiad gorfodi o gymharu â 2018/19. Mae hyn yn adlewyrchu effaith gadarnhaol y gwaith a wnaeth yr Awdurdod yn 2018/19 i glirio ei ôl-groniad o achosion gorfodi hanesyddol.

Bu oedi gyda'r prosiect gorfodaeth gynllunio ar anheddau amaethyddol a llety gwyliau yn 2019/20 oherwydd dwy swydd wag yn yr adran a oedd yn golygu nad oedd digon o adnoddau staff i gynnal y prosiect. Bydd y prosiect yn cael ei ddwyn ymlaen i gael ei gynnal yn y dyfodol.

100%	yr achosion gorfodaeth a ymchwiliwyd (o fewn 84 diwrnod) yn 2019/20, mae hyn yn cymharu ag 80.47% yn 2018/19 a 60.12% yn 2017/18. Meincnodi 2019/20: APC Eryri – 98.9%.
38.5	amser cyfartalog a gymerir i ymchwilio i achosion gorfodi mewn diwrnodau yn 2019/20. Mae hyn yn ostyngiad sylweddol ar 160.5 diwrnod yn 2018/19 a 234 diwrnod yn 2017/18.
95.5	amser cyfartalog a gymerir i gymryd camau gorfodi mewn diwrnodau yn 2019/20. Mae hyn yn ostyngiad o 344.25 diwrnod yn 2018/19 a 334.5 diwrnod yn 2017/18.
11	Ceisiadau cynllunio ôl-weithredol a gofrestrwyd yn 2019/20, mae hyn yn cymharu â 28 yn 2017/18.

Amcan Llesiant Diwylliant: Gwarchod a hyrwyddo diwylliant lleol o ran iaith, y celfyddydau a threftadaeth yn yr ardal.

Ffrydiau gwaith a roddodd gymorth i gyflawni'r amcan hwn yn 2019/20

Ysbrydoliaeth a Phrofiadau ar Hanes Archaeoleg Gymunedol	Celf: Ysbrydoliaeth ac Ymgysylltu Strategol a Phartneriaethau: Treftadaeth	Cynllunio: Adeiladau Hanesyddol Strategaeth Iaith Gymraeg
---	---	--

Crynodeb o'r Diogelwr Taith – Ein Cynnydd yn erbyn yr Amcan hwn

Trwy brofiadau yng Nghastell Henllys, Castell a Melin Caeriw ac Oriol y Parc, ei raglen digwyddiadau a gweithgareddau, ei raglen addysg, a gwaith yr Archeolegydd Cymunedol mae'r Awdurdod wedi parhau i ddarparu cyfleoedd i bobl profi a dysgu am y diwylliant, treftadaeth a chelfyddyd lleol yn y Parc. Trwy gydweithio agos a dull newydd o guradu arddangosfeydd ar y cyd yn Oriol y Parc mae'r Awdurdod ac Amgueddfa Cymru wedi helpu mwy o bobl i ymgysylltu â Chasgliad y Werin, gyda chynnydd yn nifer yr ymwelwyr â'r oriel yn 2019/20. Fe barhaodd yr Awdurdod i ymgysylltu â'r fenter cydweithio Gwyllo Treftadaeth gyda Heddlu Dyfed Powys a Cadw sydd wedi'i bwriadu i ymateb i fater troseddau treftadaeth. Mae hefyd yn rhan o'r prosiectau Ysbrydoli Sir Benfro ac ailddarganfod hen gysylltiadau. Mae cynlluniau busnes ar gyfer y canolfannau i gyd yn eu lle bellach, a'r rheiny'n nodi gweledigaeth glir a blaenoriaethau ar gyfer eu datblygu.

Mae angen gwaith pellach i ennyn ymgysylltiad a grymuso rhagor o staff i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg ymhellach. Ochr yn ochr â hyn mae angen sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried mewn perthynas â chyflawni'r holl Amcanion Llesiant lle y bo'n berthnasol ac nid dim ond mewn perthynas â chyflawni Strategaeth y Gymraeg. Mae Castell Henllys yn dechrau ar ei siwrne i ddod yn hwb iaith Gymraeg.

Mae ein gwaith ar draws y ffrydiau gwaith hyn yn cyfrannu at y dangosyddion llesiant cenedlaethol canlynol

29. Sgôr llesiant meddyliol cymedrig ar gyfer pobl	35. Y ganran o'r bobl sy'n bresennol neu'n cyfranogi mewn gweithgareddau ym maes y celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf deirgwaith y flwyddyn
36. Y ganran o'r bobl sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg	37. Y ganran o'r bobl sy'n gallu siarad Cymraeg
40. Y ganran o asedau dynodedig yr amgylchedd hanesyddol sydd mewn cyflwr sefydlog neu well	

Mae'r adran nesaf yn amlinellu ein perfformiad yn 2019/20 yn erbyn y ffrydiau gwaith sy'n cyfrannu at ein Hamcan Llesiant Diwylliant.

Ffrwd Waith: Ysbrydoliaeth a Phrofiadau ar Hanes

Meddwl Hirdymor: Buddsoddi yn ein Profiad Ymwelydd Hanesyddol

Yn ystod 2019/20, cynhaliodd yr Awdurdod gwaith buddsoddi yng Nghastell Caerw a Chastell Henllys i wella profiad yr ymwelydd.


- ✓ Fe wnaed gwaith i ddatblygu gardd furiog wedi'i thirlunio yng Nghaerw. Mae nodweddion fel rhan o ddatblygu'r ardd furiog yn cynnwys creu ardal chwarae ar gyfer plant, cerflun chwarae enfawr yn seiliedig ar chwedl Sir Benfro am y Cawr Cysglyd, darpariaeth ddehongli, pabell ganopi a gardd hanesyddol.
- ✓ Fe gwblhawyd gwaith ar Dŷ Crwn a Gefail Earthwatch yng Nghastell Henllys. Roedd hyn yn cynnwys gwaith ar strwythurau'r tai crynion, gweithgareddau toi â gwellt a bangori a dwbio.
- ✓ Dechreuodd gwaith ar y porthdy yng Nghastell Henllys hefyd gyda'r prennau ar gyfer y porth yn cael eu gosod a'r porth yn cael ei dyrchu allan. Dechreuwyd y gwaith ar y wal cerrig sychion ond oherwydd Covid 19 bu'n rhaid ei atal am y tro.

Tueddiadau Ymwelwyr yng Caerw a Chastell Henllys

Fe arhosodd sgôr Caerw a Chastell Henllys ar Trip Advisor yn 4.5 allan o 5 yn 2019/20.

Mesur Perfformiad	2017/18	2018/19	2019/20	2019/20 Targed
Sgôr gyffredinol 1-5 Trip Advisor am Caerw	4.5 (Gwyrdd)	4.5 (Gwyrdd)	4.5 (Gwyrdd)	4.5
Sgôr gyffredinol 1-5 Trip Advisor am Castell Henllys	4.5 (Gwyrdd)	4.5 (Gwyrdd)	4.5 (Gwyrdd)	4.5

Gwelodd y ddwy Ganolfan ostyngiad yn nifer yr ymwelwyr o gymharu â 2018/19, gostyngiad o 4.8% yng Nghaerw a gostyngiad o 7.3% yng Nghastell Henllys. Caewyd y ddwy ganolfan ganol mis Mawrth 2020, oherwydd Covid 19.



Tueddiadau Meincnodi ar gyfer Atyniadau Diwylliannol yn 2019/20

Canfu arolwg Statisa a oedd yn bwrw golwg ar newidiadau mewn ymwelwyr twristiaeth yn yr haf ar gyfer busnesau yng Nghymru yn 2019, ar gyfer Atyniadau/ Gweithredwyr Gweithgareddau a atebodd y cwestiwn “O’i gymharu â haf y llynedd, faint o ymwelwyr gawsoch chi yr haf hwn?” – fod 38% wedi dweud mwy, 39% wedi dweud yr un faint a 23% wedi dweud llai.¹ O ran tueddiadau ymwelwyr ar gyfer safleoedd rhanbarthol Amgueddfa Cymru, gwelodd Amgueddfa Wlân Cymru ostyngiad o 1.6% mewn ymwelwyr o’i gymharu â 2018/19, tra bo Amgueddfa’r Llang Rufeinig wedi gweld gostyngiad o 44%, yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol wedi gweld cynnydd o 4%, Amgueddfa Lo Genedlaethol y Pwll Mawr wedi gweld gostyngiad o 13% ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe wedi gweld gostyngiad o 7% mewn ymwelwyr.²

Meddwl Hirdymor: Cynlluniau Busnes yng Nghastell Henllys a Caeriw

Yn 2019/20 bu ymgynghorwyr yn gweithio gyda staff yng Nghastell Henllys a Chaeriw i ddatblygu cynlluniau busnes ar gyfer y safleoedd. Bydd y cynlluniau hyn yn helpu’r ddau safle i roi camau gweithredu ar waith i ddarparu profiad rhagorol ar

gyfer ymwelwyr a chynyddu eu cyrhaeddiad. Fodd bynnag, bydd angen i ddyheadau a chamau gweithredu o fewn y cynlluniau gael eu haddasu i ystyried effeithiau Covid 19 ar atyniadau ymwelwyr ac adferiad.

Cynllun Busnes Castell Henllys - Gweledigaeth

Y weledigaeth yw datblygu Castell Henllys fel safle cynhanesyddol blaenllaw sy’n addysgu’r cyhoedd nid dim ond am gynhanes ond hefyd am fyw’n gynaliadwy, bioamrywiaeth, cadwraeth, y Gymraeg a diwylliant Cymru. Byddwn yn datblygu’r safle fel atyniad / lleoliad twristaidd a lleol pwysig a fydd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at yr economi leol a diwylliant lleol trwy weithio mewn partneriaeth gyda busnesau, elusennau a sefydliadau lleol.

Cynllun Busnes Castell a Melin Caeriw - Gweledigaeth

Y weledigaeth ar gyfer Castell a Melin Lanw Caeriw yw ei fod yn cael ei gydnabod fel cyrchfan treftadaeth cestyll o’r radd flaenaf yng Nghymru sydd wedi’i leoli o fewn ei dir o ansawdd da ei hun, gan addo profiad darganfod ac antur mewn amgylchedd diogel i bawb sy’n ymweld. Bydd y Castell yn fagned i’r gymuned leol ac i ymwelwyr â’r rhan hon o Gymru. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy barhau i drawsnewid y safle’n gyrchfan bywiog, o ansawdd da sy’n rhoi adlewyrchiad llawn o nodweddiion arbennig y dreftadaeth adeiledig a’r amgylchedd naturiol yma, gan apelio at ystod o gynulleidfaoedd, yn enwedig teuluoedd.

Ymgysylltu a Chynnwys– Digwyddiadau Hanesyddol

Parhaodd yr Awdurdod i ddarparu digwyddiadau hanesyddol trwy ei ganolfannau a’i raglen digwyddiadau a gweithgareddau allan yn y parc yn 2019/20. Fe alluogodd bobl

² Amgueddfa Cymru National Museum Wales - https://museum.wales/visitor_figures/

i ddarganfod mwy am y dreftadaeth ddiwylliannol yn y parc gyda themâu'n amrywio o Hanes Byw Rhufeinig Legio VIII Augusta yng Nghastell Henllys, teithiau camau trwy amser yn y Preselau a Phenwythnos Canoloesol yng Nghaeriw.

15,572

o gyfranogwyr mewn gweithgareddau a digwyddiadau hanesyddol gynhaliwyd gan yr Awdurdod yn y parc yn 2019/20. Mae hyn yn cymharu â 14,012 o gyfranogwyr yn 2018/19 ac 11,284.

Yn ystod mis Tachwedd 2019, cynhaliodd yr Awdurdod ei Ddiwrnod Archeoleg blynyddol yng Ngholeg Sir Benfro mewn partneriaeth gyda PLANED. Ar gyfer cynhadledd 2019, roedd ffocws y thema ar ymgysylltu ac ymchwil ac roedd yn cynnwys cyflwyniad gan fyfyrwyr Coleg Sir Benfro ac Amgueddfa Cymru ar ddarganfyddiad y Gladdedigaeth Cerbyd Rhyfel. Hefyd, arddangoswyd y rhaglen Gwarcheidwaid Treftadaeth, y prosiect O Dan Ein Traed a chloddfeydd yn ffosydd Porth-y-Rhaw a Phenalun.

170

Nifer y bobl a ddaeth i Ddiwrnod Archeoleg Blynyddol yr Awdurdod

Ysbrydoliaeth Hanesyddol – Tueddiadau'r Rhaglen Addysg

Parhaodd yr Awdurdod i ddarparu cyfleoedd yn 2019/20 i bobl ifanc ddysgu mwy am dreftadaeth ddiwylliannol yn y Parc drwy ei raglen addysg yng Nghastell Henllys a Chastell Caeriw. Gwelodd Castell Henllys gynnydd o 4.9% yn nifer y

bobl a gymerodd ran mewn sesiynau o gymharu â 2017/18, tra gwelodd Caeriw ostyngiad o 19.4% yn nifer y cyfranogwyr. Cafodd pedair sesiwn yng Nghastell Henllys eu canslo ym mis Mawrth oherwydd pandemig Covid 19.

4,257

Nifer y cyfranogwyr yr ymgysylltwyd â hwy trwy'r rhaglen addysg yng Nghastell Henllys yn 2019/20. Mae hyn yn cymharu â 4,058 o gyfranogwyr yn 2018/19 a 4,479 yn 2017/18.

1,622

Nifer y cyfranogwyr yr ymgysylltwyd â hwy trwy'r rhaglen addysg yng Nghaeriw yn 2019/20. Mae hyn yn cymharu â 2,013 o gyfranogwyr yn 2018/19 a 1,795 yn 2017/18.


Mae staff Castell Henllys a Caeriw wedi bod yn gweithio gyda swyddog addysg yr Awdurdod yn 2019/20 i edrych ar sut y gellir datblygu eu cynnig addysg i gyd-fynd â chwricwlwm newydd Cymru.

Ym mis Chwefror fe gyflwynodd Castell Henllys ei gais am Wobr Sandford. Mae Gwobr Sandford yn dathlu ac yn hyrwyddo ansawdd da mewn addysg treftadaeth a hwn yw'r unig gynllun mewn bodolaeth sy'n gallu darparu sicrwydd ansawdd i safleoedd sy'n rhedeg rhaglenni addysg ffurfiol ledled Ynysoedd Prydain.

Ffrwd Waith: Celf Ysbrydoliaeth ac Ymgysylltu

Collaboration: Arddangosfeydd a gweithio gyda Amgueddfa Cymru – National Museum Wales

Roedd 2019/20 yn flwyddyn gadarnhaol ar gyfer y berthynas gydweithio rhwng Amgueddfa Cymru ac Oriol y Parc, perthynas a gaiff ei ffurfioli trwy gytundeb lefel gwasanaeth. Mae'r ddau sefydliad wedi parhau i gydweithio'n agos ar guradu arddangosfeydd ar y cyd yn Oriol y Parc. Roedd hyn yn cynnwys yr arddangosfa boblogaidd o'r enw Cerrig ac Esgyrn a agorodd ym mis Mai 2019 a'r arddangosfa Mwydod – Y Da, Y Drwg a'r Hyll. Mae amserlen newydd y gyfarfodydd ar y cyd wedi cael ei sefydlu a Blaenraglen waith fwy eglur ar gyfer arddangosfeydd yn y dyfodol yn ei lle. Mae ffigyrau ymwelwyr â'r Oriol yn dangos cynnydd cadarnhaol o 16% mewn ymwelwyr o'i gymharu â 2018/19, er bod yr oriel wedi cau ganol mis Mawrth oherwydd Covid 19.



Nodyn: Effeithiwyd yn gadarnhaol ar niferoedd ymwelwyr 2016/17 gan Arddangosfa Constable.

Benchmarking Trends for the Gallery sector in 2019/20

O ran amgueddfeydd Tate rhanbarthol, gwelodd Tate St Ives ostyngiad o 9.8% mewn ymwelwyr o'i gymharu â 2018/19 tra bo Tate Liverpool wedi gweld gostyngiad o 10.5%.³

Mae'r dull curadu ar y cyd yn helpu mwy o bobl gan gynnwys plant i ymgysylltu ag eitemau o'r casgliad cenedlaethol. Er enghraifft gwahoddwyd aelodau o grwpiau Beaver lleol i lansiad yr arddangosfa Mwydod (gweler y llun isod)



³ Gov.UK - <https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/museums-and-galleries-monthly-visits>

Ymgysylltu a Chynnwys: Criw Celf (CS)

2019/20 oedd y flwyddyn olaf i Oriol y Parc ymwneud â'r Prosiect Criw Celf. Prosiect a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru i blant sydd wedi dangos talent neu ddiddordeb arbennig mewn celf yw Criw Celf Cynradd. Mae'r prosiect hwn yn darparu cyfleoedd ar gyfer dosbarth meistr mewn gweithdy celf ar gyfer plant a phobl ifanc.

Yn dilyn hyrwyddo'r prosiect i ysgolion o fewn radiws o 16 milltir i Oriol y Parc, fe gofrestrodd 10 o blant i gyfranogi yn sesiynau dosbarth meistr Criw Celf 2019/20. Rhoddodd hyn y cyfle iddynt fynychu 5 sesiwn dosbarth meistr gydag arlunwyr a mynd ar daith i Gaerdydd i ymweld ag Amgueddfa Cymru ac orielau eraill. Cynhaliwyd Arddangosfa Gyfunol Criw Celf o waith cyfranogwyr gan ddefnyddio'r Caffi ym muriau Oriol y Parc. Cynhaliwyd cyfres o weithdai Criw Celf fel rhan o ysgol haf yn Oriol y Parc hefyd a hynny'n rhad ac am ddim dros fisoedd yr haf.

Cydweithio: Artistiaid Preswyl ac Ystafelloedd Arddangos yn Oriol y Parc

Parhaodd Oriol y Parc i ddarparu cyfleoedd i artistiaid, ysgolion lleol a grwpiau celf a chreffft i arddangos eu gwaith trwy'r Cynllun Arlunydd Preswyl, Ystafell Tyddewi a'r Ystafell Ddarganfod. Mae hyn yn rhoi cyfle i bobl ymgysylltu ag ystod eang o waith celf a chreffft gwahanol a ysbrydolir yn aml gan y Parc Cenedlaethol.

Arddangosfeydd Arlunydd Preswyl 2019/20

Arddangosfa Gwiberod Gwych!

Dathliad cymunedol o'r wiber, gyda chelfwaith a gynhyrchwyd gan blant lleol o ysgolion cynradd Ysgol Penrhyn Dewi, Roch a Chroesgoch gyda'r arlunydd lleol Emily Laurens, a gwaith ffabrig creadigol gan y Stitchy Witches.

Michelle Dovey – Peintiwr

A hithau wedi'i hysbrydoli gan goed, defnyddiodd Michelle ei hamser yn Oriol y Parc i archwilio'i diddordeb, gan greu cysylltiadau â gwaith Graham Sutherland.

Christopher Baker – Arlunydd Tirlun

Dychwelodd at ei weithiau mewn llyfrau braslunio mawr o Benrhyn Dewi a datblygodd ddarnau newydd o'i waith mynegiannol.

Ysgol Penrhyn Dewi

Sampl o waith gan ddisgyblion uwchradd lleol o Dyddewi a oedd yn amrywio o CA2 i TGAU.

Arddangosfa Gŵyl Cerdd a Chelfyddydau Tyddewi

Fe arddangosodd detholiad o arlunwyr lleol gyda'i gilydd i ddatlu'r ŵyl. Roedd yr arlunwyr yn cynnwys Ben Lloyd, Rod Williams, Heather Nixon.

Indira Mukherji – Arlunydd / Michaela Hollyfield – Arlunydd

Celf gyfoes, fodern a mynegiannol gan arlunwyr lleol addawol.

Gwobr Geo Davies Cyfeillion Oriol y Parc

Gweithiau gwobrwyol gan ddisgyblion Ysgol Penrhyn Dewi.

Sally Cole – peintiwr a gwneuthurwr printiau

Roedd yr arddangosfa breswyl hon yn dwyn ynghyd wyth mlynedd o ymweliadau â Sir Benfro gan yr arlunydd, a'r tirweddau sydd wedi ei chyffroi a'i hysbrydoli.

Tracy Breathnach – Artist Perfformio

Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau i nodi Dydd Gŵyl Dewi

trwy gofio ei fam, Santes Non.

Dathliad o Baentiadau Cyfoes Cymreig

Yn cynnwys gwaith celf gan Shani Rhys James, Mary Lloyd Jones, Martyn Jones, Sally Matthews, Alan Salisbury, Kate Freeman, John Darlison, Cherry Pickles a Michaela Hollyfield yn ogystal â myfyrwyr o Goleg Sir Benfro.

Tapestri Merched y Wawr


Arddangosfa o'u tapestri, wedi'i greu gan aelodau o'r grŵp i amlygu'r pwysau cyfredol ar ein hamgylchedd ac effeithiau dinistriol llygredd plastig yn ein moroedd.

Tueddiadau Ymwelwyr yn Oriel y Parc a'r Cynllun Busnes

Gwelodd Oriel y Parc ei sgôr Trip Advisor yn aros am 4.5 allan o 5 yn 2019/20.

Mesur Perfformiad	2017/18	2018/19	2019/20	2019/20 Targed
Sgôr Gyffredinol 1-5 Trip Advisor am Oriel y Parc	4.5 (Gwyrdd)	4.5 (Gwyrdd)	4.5 (Gwyrdd)	4.5

Er y bu cynnydd yn niferoedd yr ymwelwyr â'r oriel fe brofodd y ganolfan ostyngiad o 13% yn nifer yr ymwelwyr ar y cyfan o'i gymharu â 2018/19.



Yn 2019/20 bu ymgynghorwyr yn gweithio gyda staff yn Oriel y Parc i ddatblygu cynlluniau busnes ar gyfer y safle. Bydd y cynlluniau hyn yn helpu'r safle i roi camau gweithredu ar waith i ddarparu profiad rhagorol ar gyfer ymwelwyr a chynyddu ei chyrhaeddiad hi a chyrhaeddiad y Parc i gynulleidfaoedd newydd. Bydd angen i ddyheadau a chamau gweithredu yn y cynllun gael eu haddasu i ystyried effaith Covid 19 ar atyniadau ymwelwyr ac adferiad.

Cynllun Busnes Oriel Y Parc – Gweledigaeth

Y weledigaeth ar y cyfan yw gweithredu Oriel y Parc fel un o'r atyniadau mwyaf blaenllaw yng Nghymru gan ddenu cynulleidfaoedd newydd, mwy o faint a mwy amrywiol i'r Parc Cenedlaethol. Oriel y Parc fydd y Ganolfan Ymwelwyr ffigiol a gweladwy yn y Parc Cenedlaethol sy'n gwella profiad pobl o'r Parc Cenedlaethol ac yn cefnogi economi ymwelwyr y sir. Bydd y Ganolfan yn annog ymwelwyr i ddarganfod mwy am y Parc Cenedlaethol yn enwedig diwylliant, celfyddyd a threftadaeth naturiol yr ardal.

Ffrwd Waith: Cynllunio: Adeiladau Hanesyddol

Atal a Meithrin Cydnerthedd: Gweithgareddau i gefnogi adeiladau sydd mewn perygl

Parhaodd yr Awdurdod i gynghori perchnogion adeiladau hanesyddol a safleoedd ynghylch rheoli trwy ei Swyddog Cadwraeth Adeiladau. Arhosodd y % o fewn y targed, sef llai na 6%, gyda chynnydd bach o'i gymharu â 2019/20. Mae'r ffigyrau'n seiliedig ar arolygon Cadw o adeiladau sydd mewn perygl.

Mesur Perfformiad	2017/18	2018/19	2019/20	2019/20 Targed
% Adeiladau mewn Perygl	5.5% (Gwyrdd)	4.8% (Gwyrdd)	5.0% (Gwyrdd)	<6

Ffrwd Waith: Archaeoleg Gymunedol

Atal a meithrin cydnerthedd: Ymgysylltu â phobl i ofalu am safleoedd o ddiddordeb hanesyddol

Bu cymunedau'n ymwneud â 42 o safleoedd o ddiddordeb hanesyddol yn 2019/20 o'i gymharu â 128 yn 2018/19 a chafodd cyflwr 16 o safleoedd hanesyddol ei wella trwy ymwneud gan y gymuned yn 2019/20. Dechreuodd archeolegydd cymunedol newydd ym mis Mehefin 2019 ac yn dilyn trafodaethau mae'r mesurau hyn wedi cael eu hadolygu ar gyfer 2020/21. Roedd gweithgareddau yn 2019/20 yn cynnwys:

- ✓ Ymwelodd yr Archeolegydd Cymunedol â bryngaer cofrestredig (Cyf Cadw PE109) gyda dau wirfoddolwr i asesu cyflwr yr heneb.
- ✓ Cynhaliwyd cyfarfod i drafod prosiect cadwraeth cymunedol o amgylch ffynnon yn ardal Tyddewi – Ffynnon Faiddog, ger y Traeth Mawr.
- ✓ Comisiynwyd gwaith i gynhyrchu celfwaith digidol ail-greu ar gyfer y panel yng Nghapel San Padrig, Y Traeth Mawr.
- ✓ Cafodd meini hirion ar dir ger Abergwaun eu harolygu a'u cofnodi gyda'r tiffeddiannwr.
- ✓ Cynhaliwyd ymweliad â safle Castell Nanhyfer i drafod gwaith posibl ar y safle gyda gwaith cadwraeth yn cael ei wneud i Groes Nanhyfer.

- ✓ Fe wnaed gwaith clirio llystyfiant yn y gaer bentir a adwaenir fel Caerfai ac mae cynlluniau wedi cael eu creu ar gyfer y gaer bentir a adwaenir fel Tower Point Rath.


Ymgysylltu a Chynnwys: Arwyr Amser (CS)

Parhaodd Archeolegydd Cymunedol newydd yr Awdurdod i ymgysylltu ag ysgolion cynradd lleol yn y Parc Cenedlaethol trwy'r Cynllun Gwarcheidwaid Treftadaeth. Yn 2019/20 mae'r prosiect hwn wedi alinio â'r gwaith y mae'r Awdurdod yn ei wneud fel bod ei arlwy addysg yn adlewyrchu'r Cwricwlwm Newydd i Gymru. Mae'n enghraifft o'r modd y mae staff ar draws yr Awdurdod yn cynnwys gweithgareddau a dulliau newydd yn nyluniad a'r modd y darperir sesiynau addysg.

Roedd gweithgareddau Gwarcheidwaid Treftadaeth yn 2019/20 yn cynnwys:

Ysgol Brynconin	5 sesiwn wedi'u cynnal gyda disgyblion. Roedd y sesiynau'n cwmpasu cyflwyniad i archeoleg, sesiwn archeoleg o'r awyr gyda Thîm Cherish o Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, cloddio tyllau treialu, Cyflwyniad ac arddangosfa gan Grŵp Hedfanaeth Sir Benfro a gweithdy deongliadol i adeiladu henebion allan o Lego, ymchwil ar-lein a chreu posteri.
Ysgol Croesgoch.	5 sesiwn wedi'u cynnal gyda disgyblion. Roedd y sesiynau'n cynnwys cyflwyniad i archeoleg, sesiwn tyllau treialu, ymweliad â safle Caerfai/ Abereiddi, ymchwil i henebion lleol a chyflwyno eu hymchwil i henebion

	Ileol.
Ysgol Maenclochog.	6 sesiwn wedi'u cynnal gyda disgyblion. Roedd y sesiynau'n cwmpasu cyflwyniad i archeoleg, sesiwn archeoleg o'r awyr gyda Thîm Cherish o Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, cloddio tyllau treialu, Cyflwyniad ac arddangosfa gan Grŵp Hedfanaeth Sir Benfro, gweithdy deongliadol i adeiladu henebion allan o Lego, ymchwil ar-lein a chreu posteri ac ymweliad â Chanolfan Treftadaeth Doc Penfro.



Myfyrwyr Ysgol Brynconin yn cynnal arolwg drôn o'u hysgol, gan gynnwys sillafu Shwmae o'r awyr.

Rhwng mis Rhagfyr 2019 a mis Mawrth 2020 cynhaliwyd cyfarfodydd gydag Ysgol Penrhyn Dewi, Coleg Plas Dwbl a Choleg Sir Benfro ynghylch bod yn rhan o'r rhaglen Gwarcheidwaid Treftadaeth gyda phob un o'r tri'n mynegi diddordeb mewn cymryd rhan. Cytunodd Coleg Plas Dwbl i fabwysiadu Gors Fawr, i helpu i ddiogelu'r heneb. Roedd rhaid atal gwaith pellach oherwydd Covid 19.

Ffrwd Waith: Strategol a Phartneriaethau – Treftadaeth

Cydweithio a Gweithio mewn modd Integredig: Cynllun Gwarchod Treftadaeth

Fe barhaodd yr Awdurdod i ymwneud â'r fenter Gwyllo Treftadaeth gyda Heddlu Dyfed Powys a Cadw sy'n amcanu at ymateb i fater troseddau treftadaeth. Roedd gweithgareddau a chyflawniadau yn 2019/20 yn cynnwys:

- ✓ Cynhaliwyd cyfarfod Gwyllo Treftadaeth gyda Heddlu Dyfed-Powys a Cadw i ystyried dulliau o hysbysu, sesiynau hyfforddi, patrolau a strategaeth gyfathrebu ar gyfer y cynllun. Cytunwyd y byddai nifer o batrolau'n digwydd mewn perthynas â'r cynllun a hefyd y byddai categori cofnodi gan yr heddlu'n cael ei greu ar gyfer troseddau cysylltiedig.
- ✓ Rhoddodd aelod o'r cyhoedd wybod i'r Archeolegydd Cymunedol am faterion gyda Chroes Nanhyfer. Rhoddwyd cyhoedduswydd i'r mater ar dudalen Facebook Gwyllo Treftadaeth ac fe wnaed gwaith cadwraeth ar yr heneb (h.y.

tynnu darnau arian oddi ar y groes) ar y cyd â Rheolwr Wardeniaid y Gogledd. Drafftwyd cynllun rheoli ar gyfer yr heneb hon ac fe gytunwyd ar batrolau rheolaidd o'r heneb hon. Hysbyswyd Cadw a'r arweinydd Troseddau Treftadaeth ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys am y mater hefyd.

- ✓ Fe wnaeth y dudalen Facebook Gwyllo Treftadaeth amlygu llwyddiant yr heddlu o ran canfod cyflawnwyr a oedd yn gysylltiedig â dwyn carreg las yn ardal Mynachlog-Ddu.
- ✓ Yn ystod mis Chwefror, cynhaliwyd digwyddiad hyfforddi gwyllo treftadaeth ar gyfer aelodau Heddlu Dyfed Powys gan gynnwys y Tîm Plismona Cymunedol ledled ardal Sir Benfro. Cynhaliwyd y digwyddiad hwn ar y cyd â Cadw ac roedd yn amlygu beth yw treftadaeth a hefyd y mathau o droseddau treftadaeth sy'n bodoli.
- ✓ Cynhaliwyd cyfarfod gyda phersonél cyfathrebu Heddlu Dyfed Powys, Cadw, APCAP ac Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed i ystyried y dull gorau o roi cyhoeddusrwydd i'r cynllun a sut i symud ymlaen gyda hyn. Yn ystod mis Mawrth, cafodd y cynllun a mater troseddau treftadaeth yn fwy eang gyhoeddusrwydd gan y BBC.
- ✓ Er mwyn gwasanaethu ardal ddaearyddol ehangach, mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed bellach wedi cytuno i ddod yn un o aelod-sefydliadau'r cynllun

Cydweithio a Gweithio mewn modd Integredig: Ysbrydoli Sir Benfro

Daeth yr Awdurdod yn un o'r partneriaid ffurfiol mewn menter newydd ar draws y sir gyfan (sy'n dwyn y teitl 'Ysbrydoli Sir Benfro') i greu strategaeth ddiwylliannol ar gyfer Sir Benfro gan gydweithio'n agos gyda chydweithwyr yng Nghyngor Sir

Penfro a PLANED. Mae'r gwaith yn bwysig o ran cefnogi a gwella treftadaeth ddiwylliannol leol ac o ran sbarduno ceisiadau am gyllid yn y dyfodol a chefnogaeth wleidyddol ehangach i ystod o weithgareddau a chyrrff y celfyddydau a diwylliannol yn lleol. Mae Rheolwr Gwasanaethau Ymwelwyr (Gorllewin) yr Awdurdod yn cynrychioli'r Awdurdod yn ffurfiol ar Grŵp Llywio Ysbrydoli Sir Benfro. Mae'r gwaith i ddatblygu'r strategaeth yn mynd rhagddo.

Cydweithio a Gweithio mewn modd Integredig: Cyfranogiad yn y Prosiect Ailddarganfod Cysylltiadau Hynafol

Mae'r prosiect partneriaeth Ailddarganfod Cysylltiadau Hynafol a ariennir â chyllid grant yn cyflawni rhaglen dair blynedd o weithgarwch treftadaeth, diwylliannol, celfyddydol a chymunedol gan amcanu at gynyddu ymweliadau o dramor â Gogledd Orllewin Sir Benfro a County Wexford, Iwerddon.

Roedd gweithgareddau a chyflawniadau a oedd yn gysylltiedig ag ymwneud yr Awdurdod yn 2019/20 yn cynnwys:

- ✓ Cyfranogi yng nghyfarfod y Bwrdd Prosiect ar y cyd.
- ✓ Lansiad swyddogol y fenter Ailddarganfod Cysylltiadau Hynafol ar ddydd Mawrth 24 Medi yn Nhŷ'r Pererin yn Nhyddewi a oedd yn cynnwys ystod eang o randdeiliaid o bob rhan o Gymru ac Iwerddon.
- ✓ Yr Awdurdod yn arwain ar waith cyfalaf i wella mynediad at y ffynnon yn Santes Non, Tyddewi, gyda gwaith wedi'i amserlennu ar gyfer 2020/21.

- ✓ Fe ddarparodd staff yr Awdurdod fewnbwn i friffiau tendro ar gyfer Llysgenhadon Archeoleg a Thwristiaeth
- ✓ Cefnogi'r gweithgareddau cloddio yng Nghapel San Padrig yn y Traeth Mawr ym mis Medi 2019. Cafodd ardal sylweddol yn y capel o'r cyfnod diweddarach ei chloddio ac fe ddatguddiwyd sawl claddedigaeth. Cymerodd gwirfoddolwyr ran mewn gweithgareddau cloddio ac yn ystod y gweithgareddau cloddio, roedd cymunedau, ymwelwyr a'r cyhoedd yn gallu ymgysylltu â'r gwaith trwy ymweld â'r safle.
- ✓ Gweithgareddau wedi'u cyflawni ar gyfer cynllun dehongli manwl sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer Tyddewi dan y prosiect gydag APCAP yn cynnal adolygiad clodforus o ddarpariaeth ddehongli'r Parc Cenedlaethol yn Oriol y Parc. Trefnwyd digwyddiadau ymgysylltu ar gyfer Oriol y Parc ym mis Chwefror 2020 i helpu i oleuo'r strategaeth ddehongli newydd.

Ffrwd Waith: Strategaeth Iaith Gymraeg

Cynnwys as Ymgysylltu: Dysgu a Chefnogaeth Iaith Gymraeg

Mae staff yn gallu cael mynediad at gwrs gwaith Cymraeg ar-lein i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg. Fe gofrestrodd 6 aelod newydd o staff ar y cwrs croeso rhan 1 yn ystod 2019/20, gydag un aelod o staff yn cofrestru ar y cwrs croeso rhan 2 yn dilyn cwblhau'r cwrs 1af.

2

Staff sydd wedi cwblhau cwrsiau ar-lein Cymraeg Gwaith yn 2019/20 (Data Sylfaenol)

Fe wnaeth 6 aelod o staff yr Awdurdod fynychu cwrs Cymraeg yn y Dirwedd ochr yn ochr â gwirfoddolwyr yr Awdurdod. Rhoddodd y cwrs hwn sylw i Hanes y Gymraeg, Cymraeg Sir Benfro ac Iaith a Thirwedd ac ymweliad astudiaeth achos â Thŷ Canol. Amlygodd adborth o'r sesiwn fod staff a gwirfoddolwyr yn teimlo'u bod yn gallu defnyddio rhywfaint o'r hyn a ddysgwyd ganddynt o'r cwrs yn eu rôl yn gweithio neu'n gwirfoddoli ar gyfer APCAP a'i fod wedi cynyddu lefel eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am y Gymraeg.

“Rwy'n teimlo y byddai hon yn sesiwn ardderchog i fwy o bersonél y Parc gan ei bod yn amlygu un o nodweddion mwyaf gwerthfawr y wlad hon; gallai ysbrydoli mwy o bobl i ddysgu Cymraeg a cheisio'i defnyddio yn eu bywydau pob dydd.”

Mae Strategaeth Iaith Gymraeg yr Awdurdod 2017-2022 yn cynnwys cam gweithredu i gyflwyno cynllun mentora lle gall siaradwyr Cymraeg hyfedr helpu a chefnogi cydweithwyr sy'n dysgu a/neu'n brin o hyder i ddefnyddio'u Cymraeg yn y gweithle. Cynhaliwyd ymchwil i arfer gorau yn ystod 2019/20 i ganfod pa ddulliau oedd yn cael eu defnyddio gan Awdurdodau eraill. Roedd hyn yn cynnwys adborth gan Gyngor Sir Gaerfyrddin ar eu Cynllun Mentora Iaith Gymraeg.

50.5%

o wybodaeth ar lefel Gymraeg a gwblhawyd ar Pobl y Parc (Data Sylfaenol)

Y Camau Nesaf ar gyfer Gwella: It is recognised that further work is needed to improve Authority performance in this area. A phased approach is going to be taken focusing first on getting more staff to complete the Welsh Work Online Course and then moving on to develop a potential mentoring scheme.

Hirdymor: Hyfforddiant Asesu'r Effaith ar y Gymraeg

Yn ystod 2019/20 cynyddodd nifer o staff eu dealltwriaeth o Aseidiadau o'r Effaith ar y Gymraeg drwy fynychu gweithdy/sesiwn hyfforddi a gyflwynwyd gan Aelod Awdurdod o Lywodraeth Cymru, Rachel Heath Davies.

Cynnwys ac Ymgysylltu: Digwyddiadau, Gweithgareddau a Sesiynau Ysgol yn yr Iaith Gymraeg

Yn 2019/20 cynhaliwyd sesiynau addysg yn yr Iaith Gymraeg gan dîm ardal Paryn, Archaeolegydd Cymunedol a Chastell Henllys. Gwelodd yr Awdurdod ostyngiad o 20% yn nifer y sesiynau addysg a gyflwynodd yn Gymraeg o gymharu â 2018/19.

76	o sesiynau'r rhaglen addysg a gyflwynwyd yn Gymraeg yn 2019/20. Mae hyn yn cymharu â 95 o sesiynau yn sesiynau 2018/19 a 55 yn 2016/17.
2,290	cyfranogwyr mewn sesiynau addysg a gyflwynwyd yn Gymraeg yn 2019/20. Mae hyn yn cymharu â 2,713 o gyfranogwyr yn 2018/19 a 1,433 yn 2017/18.

Gwelodd yr Awdurdod ostyngiad o 40.7% yn nifer y digwyddiadau a'r gweithgareddau (gan gynnwys sesiynau gwirfoddoli) a gyflwynwyd yn Gymraeg yn 2019/20 o gymharu â 2018/19.

32	digwyddiadau a gweithgareddau a ddarparwyd drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2019/20. Mae hyn yn cymharu â 54 o sesiynau yn sesiynau 2018/19 a 34 yn 2017/18.
262	cyfranogwyr mewn digwyddiadau a gweithgareddau a gyflwynwyd drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2019/20. Mae hyn yn cymharu â 622 o gyfranogwyr yn 2018/19 a 307 yn 2017/18.

Mae enghreifftiau o weithgareddau a hwyluswyd yn y Gymraeg yn 2019/20 yn cynnwys:

- ✓ 3 taith dywys gyda'r Fenter Iaith yng Nghastell Henllys, gyda 24 o gyfranogwyr.
- ✓ Taith dywys gyda Chymdeithas Waldo Williams a oedd yn cynnwys 15 o gyfranogwyr.
- ✓ Taith Castell Iaith Gymraeg yng Nghastell Caeriw gyda 13 o gyfranogwyr.
- ✓ Taith Iaith Gymraeg yn seiliedig ar Daith Gylchol Carn Ingli gyda Pharcmon yr Awdurdod a 4 cyfranogwr.
- ✓ Gweithgareddau Hela Crancod y Parcmon Haf ac Astudiaeth Goetir gyda Chlwb Gwyliau Silwli.
- ✓ 13 o sesiynau gwirfoddoli gyda naill ai Wardeniaid Gwirfoddol y Gogledd neu Grŵp Llwybrau Trefdraeth wedi'u hwyluso trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ochr yn ochr â'r gweithgareddau hyn fel gynhaliodd Oriel y Parc Gynhadledd Waldo Williams ar 27 Medi 2019 ac fe arweiniodd un o barcmyn yr Awdurdod daith Cymraeg yn y Dirwedd yn Nhregynnon Isaf fel rhan o ddigwyddiad Hyfforddiant Siarter Awyr Agored Sir Benfro ym mis Mehefin 2019.

Cynnwys ac Ymgysylltu: Hyrwyddo'r Gymraeg i ymwelwyr Castell Henllys

Bob dydd Iau yn ystod mis Awst 2019, bu Castell Henllys yn hwyluso ac yn gweithio gyda staff o Fenter Iaith Sir Benfro i ddarparu sesiwn rhwng 30 munud ac awr i gyflwyno ymwelwyr i Gymraeg sylfaenol. Byddai staff y Fenter Iaith yn cyflwyno brawddegau a geiriau Cymraeg sylfaenol gan ddefnyddio amryw ddulliau addysgu megis caneuon a gemau. Wedyn byddai'r ymwelwyr yn gallu ymarfer eu Cymraeg newydd gyda staff ar y safle, yn y siop ac yn y caffi. Llwyddodd y gweithgaredd i gyflwyno ymwelwyr i'r Gymraeg a'u galluogi i ddysgu ac ymarfer yr iaith mewn ffordd hwyllog a diddorol ar y safle. Roeddent wedyn yn gallu defnyddio'r hyn yr oeddent wedi'i ddysgu trwy gydol gweddill eu hymweliad â Sir Benfro/ Cymru.

Mae Castell Henllys yn amcanu at adeiladu ar y gwaith hwn ac adnabod gweithgareddau a chyfleoedd i ddatblygu'r safle fel hwb iaith Gymraeg.

Amcan Llesiant Byd-eang: Sicrhau bod ein gwaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant bydeang.

Ffrydiau gwaith a roddodd gymorth i gyflawni'r amcan hwn yn 2019/20

Awdurdod Carbon Niwtral	Cludiant Cynaliadwy	Risg Newid yn yr Hinsawdd ac Addasu
Ysbrydoliaeth a Dysgu: Rhinweddau Arbennig		

Crynodeb o'r Diogelwr Taith – Ein Cynnydd yn erbyn yr Amcan hwn

Mae'r Awdurdod wedi datblygu dau faes ffocws clir o ran ein gwaith i gyfrannu at lesiant byd-eang. Y cyntaf yw cyfrannu i'r ymateb i her fyd-eang argyfwng yr hinsawdd trwy ein gweithgareddau. Yn ystod 2019/20, trwy ddatblygu ei [Gynllun Gweithredu ar Argyfwng y Newid yn yr Hinsawdd](#) mae'r Awdurdod wedi cymryd camau sylweddol a ysgogir gan staff ac Aelodau, i adnabod y camau gweithredu y mae angen iddo'u cymryd i gyflawni gostyngiad yn ei allyriadau ac ôl-droed carbon yn y dyfodol, allyriadau yn y Parc a chynnyddu i'r eithaf ei gyfraniad at storio carbon yn y Parc. Wrth edrych tua'r dyfodol yr her fydd sicrhau ein bod yn cyflawni'r camau gweithredu yn y cynllun, yn eu rhoi ar waith ac yn monitro eu heffeithiau i ddangos ein bod yn cyflawni newid cadarnhaol yn y maes hwn. Yr ail yw cynorthwyo pobl i gael eu hysbrydoli gan natur a diwylliant, gan helpu i greu dinasyddion sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Bydd ein gwaith yn 2019/20 i integreiddio arlwy addysg yr Awdurdod yn awr ac yn y dyfodol â'r cwricwlwm newydd yn galluogi ysgolion i barhau i ddefnyddio'r Parc i gynorthwyo plant i ddysgu'r sgiliau y mae eu hangen arnynt i fod yn ddinasyddion byd-eang, sy'n seiliedig ar werthfawrogi a deall yr amgylchedd naturiol a diwylliannol. Mae'r Awdurdod wedi cynnyddu ei weithgarwch ymgysylltu mewn perthynas â chynorthwyo pobl i gyfrannu at fonitro'r amgylchedd naturiol a gwyddor dinasyddion. Cafodd gynnydd o 70% o'i gymharu â 2018/19 yn nifer y diwrnodau gwirfoddolwyr a hwyluswyd gan yr Awdurdod mewn perthynas â monitro ac arolygu natur a gwelodd ymgysylltu parhaus â'i brosiect ffotograffau Arfordir Newidiol a ariannwyd â chyllid torfol.

Mae ein gwaith ar draws y ffrydiau gwaith hyn yn cyfrannu at y dangosyddion llesiant cenedlaethol canlynol.

4. Lefelau llygredd nitrogen deuocsid (NO ₂) yn yr aer	14. Ôl Troed Ecolegol Cymru
12. Capasiti (mewn MW) yr offer ynni adnewyddadwy sydd wedi'i osod	28. Y ganran o'r bobl sy'n gwirfoddoli
41. Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru	29. Sgôr llesiant meddyliol cymedrig ar gyfer pobl
42. Allyriadau nwyon tŷ gwydr sydd i'w priodoli i ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau byd-eang yng Nghymru	

Mae'r adran nesaf yn amlinellu ein perfformiad yn 2019/20 yn erbyn y ffrydiau gwaith sy'n cyfrannu at ein Hamcan Llesiant byd-eang

Ffrwd Waith: Awdurdod Carbon Niwtral (A6)

Meddwl Hirdymor: Ymateb i Argyfwng Newid yn yr Hinsawdd

Mae ymateb i argyfwng yr hinsawdd yn un o'r meysydd blaenoriaeth allweddol a nodwyd gan staff, gydag aelodau o'r fforwm cynrychiolwyr staff yn cwrdd ag Aelodau'r Awdurdod i drafod y mater yn ystod 2019/20. Yn dilyn hyn cafodd adroddiad ar yr hyn yr oedd yr Awdurdod yn ei wneud ar y pryd i ymateb i'r newid yn yr hinsawdd ei gyflwyno i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol. I gynyddu ein heffaith yn y maes hwn cafodd cynllun gweithredu Ymateb i Argyfwng y Newid yn yr Hinsawdd ei ddatblygu a bydd yn un o'r cynlluniau gweithredu ar gyfer Cynllun Rheoli newydd y Parc Cenedlaethol a fabwysiadwyd ym mis Rhagfyr 2019. Bu'r Aelodau mewn gweithdy ym mis Ionawr 2020 i helpu i oleuo datblygiad y cynllun gweithredu.

Fe wnaeth yr Awdurdod hefyd adolygu a diweddarau ei bolisi amgylcheddol yn ystod 2019/20, sy'n nodi ei ymrwymiad i wneud penderfyniadau a dewisiadau cynaliadwy, lleihau i'r eithaf yr effeithiau negyddol ar yr amgylchedd a chofleidio arferion rhagweithiol sy'n cyfrannu at amgylchedd naturiol iachach. Mae'n nodi ein hymrwymiad i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy statudol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015,

ac egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Bydd hefyd yn helpu ochr yn ochr â'r Cynllun Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd i ysgogi gostyngiadau mewn allyriadau carbon ac effeithlonrwydd adnoddau o fewn yr Awdurdod. Cymeradwywyd y polisi diwygiedig gan Aelodau yng nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ym mis Hydref 2019. I helpu i gyfleu gwaith sy'n cael ei wneud yn y maes hwn fe roddwyd cyflwyniad i staff yr Awdurdod yng nghyfarfod staff mis Tachwedd.

Atal: Gwobr Allwedd Werdd

Caiff y wobwr Agoriad Gwyrdd ei redeg gan y Sefydliad Addysg Amgylcheddol (SAA) a'i rheoli yng Nghymru gan yr elusen amgylcheddol Cadwch Gymru'n Daclus. Hon yw'r safon ragoriaeth flaenllaw ym maes cyfrifoldeb amgylcheddol a gweithredu cynaliadwy o fewn y diwydiant twristiaeth. Mae tair canolfan yr Awdurdod wedi parhau i ymgysylltu â'r Wobr Agoriad Gwyrdd, gan gynnwys cyflwyno ceisiadau adnewyddu a derbyn arolygiadau ar safleoedd y Canolfannau.



Oriel y Parc yn derbyn ei Thystysgrif Gwobr Allwedd Werdd.

Atal: Gwyrddio'r Fflyd

Mae'r Awdurdod wedi dechrau ei siwrne i droi ei fflyd yn wyrdd ac mae wrthi'n frwd yn archwilio cyfleoedd lle y bo'n bosibl i newid i gerbydau trydan/hybrid a cherbydau ag allyriadau is trwy ei broses rheoli prydlesi a thrwy ddisodli cerbydau.

5%

o gerbydau Awdurdod yn hybrid/trydan yn 2019/20. 1 cerbyd trydan ac 1 car pŵll hybrid.

Y Camau Nesaf ar gyfer Gwella: Mae disgwyl i'r Awdurdod brynu 3 char cronfa newydd yn 2020/21 y byddant i gyd yn rhai hybrid. Wrth i waith ar ddatblygu rhwydwaith o fannau gwefru cerbydau trydan yn Sir Benfro barhau, bydd hyn yn gwella gallu'r Awdurdod i drosi rhannau o'i fflyd yn gerbydau trydan.

Cydweithio: Fan Trydan ar gyfer Warden Pryfed Peillio


Yn ystod 2019/20 sicrhaodd Ymddiriedolaeth Elusennol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro gyfraniad gan Stena Line i ddarparu cerbyd trydan i gefnogi gwaith Warden Pryfed Peillio'r Awdurdod. Mae Warden y Pryfed Peillio yn darparu'r prosiect Prosiect 'Pobl, Llwybrau a Pheillwyr', sy'n rhoi bioamrywiaeth wrth wraidd y gwaith i gynnal Llwybr yr Arfordir. Dyma'r cerbyd cwbl drydanol cyntaf i gael ei ddefnyddio gan staff y Parc Cenedlaethol.



Cerbyd trydan newydd ym derfynfa fferi Abergwaun Stena Line

Gwybodaeth am Ôl Troed Carbon yr Awdurdod

Mae'r Awdurdod wedi bod yn cyfrifo cyfanswm ei Ôl Troed Carbon ers 2016 gan ddefnyddio dull cyfrifo a fabwysiadwyd gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n seiliedig ar gyfrifydd carbon DEFRA ar gyfer allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr.



Dadansoddiad o allyriadau ar draws meysydd:

Disgrifiad	Cyfanswm CO2 (Kg)	Gwahaniaeth (+/-)
Trydan*	178,159	+ 6,197
Olew	9,244	+5,977
LPG	1,496	+ 867
Nwy	2,273	- 198
Biomass	45	0
Trafnidiaeth Uniongyrchol	91,713	-14,655
Trafnidiaeth Anuniongyrchol	25,037	-1,891
Cyflenwad a Thriniaeth Dŵr	1,817	-501
Y Gadwyn Gyflenwi	615,616	+ 34,249

Cyfanswm

925,401

+26,922

* Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn caffael 100% o'r ynni trydan a gyflenwir iddo o ffynhonnell cynhyrchu ynni adnewyddadwy ardystiedig.

Trosolwg o Allyriadau Ynni

Trydan

Mae'r defnydd o drydan ar draws llawer o'n hadeiladau'n dal i fod ar yr un lefel ac ychydig sydd wedi cofnodi gostyngiadau; cafwyd y cynnydd mwyaf mewn defnydd yng Nghastell Caeriw o ganlyniad i agor yr ystafell de newydd a hefyd yng Nghanolfan Ymwelwyr Castell Henllys. Nodwyd codiadau eraill yng Nghilrhedyn, Harbwr Porthgain a Depo Llwynhelyg. Yr eithriad i hyn oedd Pencadlys a Chapel Llanion a gofnododd ostyngiad i'r defnydd isaf ers i'r cofnodion ddechrau.

Olew

Y system wresogi ym Mhant Glas yng Nghastell Henllys yw'r unig safle sy'n defnyddio olew tanwydd ar gyfer gwresogi gofod, ac mae defnydd wedi cynyddu ers adnewyddu'r adeilad o ganlyniad i swyddfeydd newydd ar y llawr cyntaf a chyfleuster "hapfyrdio" ar gyfer staff.

Nwy Petrolewm Hylifedig

Mae hwn yn cyflenwi'r ffwrn yn y caffi yng Nghanolfan Ymwelwyr Castell Henllys, a'r rheswm yw bod mwy o ddefnydd.

Nwy

Cyflenwir gwresogi nwy yn Oriol y Parc a Phencadlys Llanion. Ategir y ddwy system wresogi gan foeleri wrth gefn sy'n defnyddio nwy. Er bod cynnydd bach wedi'i nodi yn Llanion mae'r defnydd yn Oriol y Parc wedi lleihau'n sylweddol dros y

ddwy flynedd ddiwethaf oherwydd y gwaith a wnaed ar y system BMS i sicrhau bod y system yn rhedeg â pherfformiad optimwm a monitro'r system yn fanwl gan staff. Mae Peirianwyr BMS yn cynnal a chadw'r system ddwywaith y flwyddyn ac mae'r arbedion yn sylweddol.

Biomass

Mae tanwydd biomass wedi aros bron union yr un fath â'r flwyddyn flaenorol ym Mhencadlys Llanion a Chanolfan Ymwelwyr Castell Henllys, heb unrhyw broblemau na materion i'w nodi.

Trosolwg o Allyriadau Dŵr

Cyflenwad a Thriniaeth Dŵr

Mae'r gostyngiad cyffredinol yn gadarnhaol ond mae angen mynd i'r afael â'r defnydd cynyddol o ddŵr yn Llanion, Oriel y Parc a Chastell Henllys.

Trosolwg o Allyriadau Trafnidiaeth

Trafnidiaeth Uniongyrchol

Gostyngiad yn y milltiroedd a deithiwyd gan bersonél yr Awdurdod o 46,768 o filltiroedd, sef o 339,091 yn 2018/19 i 292,323 yn 2019/20. Mae hyn yn dangos gostyngiad parhaus o'r 357,075 o filltiroedd a deithiwyd yn 2017/18. Mae gwaith yn mynd rhagddo yn dilyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i adolygu cerbydau fflyd / cronfa er mwyn pontio i gerbydau hybrid a thrydan.

Trafnidiaeth Anuniongyrchol

Mae'r milltiroedd a deithiwyd gan gyflenwyr wedi gostwng 7,559 km o 107,643 i 100,084.

Trosolwg o Allyriadau'r Gadwyn Gyflenwi

Mae gwariant ar draws y gadwyn gyflenwi (yn seiliedig ar y cyfrif Elw a Cholled) wedi cynyddu, ac mae'r cyfrifiad yn

seiliedig ar wariant ar draws amryw gategoriâu megis amaethyddiaeth, coedwigaeth, peiriannau, adeiladu ac ati. Bu mwy o wariant ar argraffu, peiriannau, peiriannau swyddfa a chyfrifiaduron ac adeiladu.

Y Camau Nesaf ar gyfer Gwella: Er bod rheswm da dros godiadau mewn rhai meysydd dylid nodi mai'r duedd gyffredinol yw aros yn llonydd ac nid gostwng er mwyn cyrraedd targedau. Mae swyddogion yr Awdurdod wedi adnabod nifer o gamau gweithredu a allai helpu i fynd i'r afael â pherfformiad ar draws y gwahanol feysydd y mae llawer ohonynt yn gyson â'r blaenoriaethau yng Nghynllun Gweithredu'r Awdurdod ar gyfer Ymateb i Argyfwng y Newid yn yr Hinsawdd. Maent yn cynnwys:

- ✓ Arolygon o adeiladau i amlygu ardaloedd o ddefnydd uchel a mesurau cywirol y gellir eu rhoi ar waith.
- ✓ Addysgu staff i greu "diwylliant" lleihau carbon.
- ✓ Newid y system wresogi ym Mhant Glas i ddewis arall carbon isel.
- ✓ Ymchwilio i'r rhesymau dros ddefnyddio mwy o ddŵr ar safleoedd a chyflwyno mesurau arbed dŵr a chynyddu ymwybyddiaeth staff.
- ✓ Parhau i gyflawni'r cynllun i wella'r fflyd (Teithio gan y Tîm Wardeniaid a Pharcmyr a Theithio Cyffredinol gan yr Awdurdod) a darparu'r seilwaith gwefru cerbydau trydan angenrheidiol mewn meysydd parcio, canolfannau / depos i gyflawni gostyngiadau sylweddol mewn Carbon yn y maes hwn.
- ✓ Parhau i ddatblygu perthnasoedd gwell â chyflenwyr i sicrhau bod y cynnyrch a ddewisir ac amllder teithiau

danfon nwyddau mor effeithlon â phosibl fel Awdurdod. Adolygu'r gadwyn gyflenwi yn ei chyfanrwydd i adnabod cyfleoedd i leihau allyriadau gan ddefnyddio offer megis canllawiau [“Caffael: canllawiau ar ddatgarboneiddio – Sut y gall y sector cyhoeddus adnabod meysydd ag effeithiau CO2 uchel yn eu gwariant a gweithredu i leihau allyriadau.”](#) a Dangosfwrdd Datgarboneiddio Llywodraeth Cymru.

Yn 2019/20 roedd Llywodraeth Cymru yn treialu dull newydd o gyfrifo ôl troed carbon i sicrhau dull cyfrifo cydgyssylltiedig ar draws holl awdurdodau'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n cael ei dreialu gan Gyngor Sir Penfro fel mabwysiadwyr cynnar ar hyn o bryd ac mae disgwyl iddo gael ei gyflwyno i bawb yn ddiweddarach yn 2020. Bydd yr Awdurdod yn amcanu at fabwysiadu'r fethodoleg hon unwaith y bydd yn ei lle a newid i ddull lleihau allyriadau sy'n fwy seiliedig ar dargedau ar gyfer pob maes allyriadau.

Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy

Ar hyn o bryd mae gan yr Awdurdod ddarpariaeth ynni adnewyddadwy Ffotofoltäig yn Llanion ac Oriol y Parc.

29,260

Kw cynhyrchwyd o Ffotofoltäig Oriol y Parc (25,066 Kw) a Llanion (4,194 Kw) yn 2019/20. Mae hyn yn cymharu â 28,862 yn 2018/19.

Mae'r Awdurdod wedi adnabod dau safle posibl gan yr Awdurdod ar gyfer gosodiad Ffotofoltaidd, y naill yng

Nghanolfan Goetir Cilrhedyn a'r llall yn y cae uchaf yng Nghastell Henllys. Mae gwaith dichonoldeb yn mynd rhagddo ac roedd £60k wedi'i ddyrannu i osodiadau Ffotofoltaidd yng nghyllideb 2020/21.

Mae gan yr Awdurdod foeler biomas ym Mhencadlys Parc Llanion a Chastell Henllys hefyd. Mae gan Gaeriw bwmp gwres ffynhonnell aer ac mae gan Oriol y Parc bwmp gwres o'r ddaear.

Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn caffael 100% o'r ynni trydan a gyflenwir iddo o ffynhonnell cynhyrchu ynni adnewyddadwy ardystiedig. Mae Cyngor Sir Penfro'n eistedd ar Is-grŵp Ynni'r GCC ac yn cynrychioli buddiannau Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ar y grŵp hwn.

Mynychodd yr Awdurdod hefyd gyfarfodydd Fforwm Ynni Sir Benfro yn 2019/20 sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer cydweithio.

Cynnwys: Gweithgareddau gwastraff a arweinir gan staff

Mae staff wedi parhau i ddatblygu mentrau sy'n gysylltiedig â lleihau gwastraff ac aildefnyddio:

- ✓ Yn 2018 roedd yr Awdurdod yn nodweddiadol yn anfon 2 fag bin du o wastraff cymysg o Lanion bob dydd – am gost o £800 y flwyddyn. Ers hynny mae gofawr yr Awdurdod wedi bod yn hyrwyddo'r achos dros ailgylchu ac wedi tanio brwdfrydedd y staff, fel mai dim ond 1 bag

bin du o wastraff anailgylchadwy bob pythefnos a anfonir gennym yn awr – am gost o £54 y flwyddyn.

- ✓ Mae staff wedi bod yn llenwi poteli diodydd plastig 2 litr â gwastraff plastig anailgylchadwy. Anfonir y poteli hyn i fferm yn Sir Benfro lle maent yn defnyddio'r poteli fel Eco Friciau i adeiladu waliau ar gyfer ffaldiau anifeiliaid.
- ✓ Menter staff a marchnad fewnol i staff roi nwyddau nad oes arnynt mo'u heisiau mwyach i ffwrdd neu eu gwerthu, gan helpu eitemau i ddod o hyd i gartref newydd, yw Basâr Razorbill Bazar.

Ffrwd Waith: Cludiant Cynaliadwy

Collaborative and Integrated Working: Datblygu rhwydwaith o bwyntiau gwefru cerbydau trydan

Mae'r Awdurdod wedi dechrau gwaith ar gam 1 ei gyfraniad at rwydwaith o fannau gwefru cerbydau trydan ledled y Parc a Sir Benfro. Sicrhawyd cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru sydd wedi ei gwneud yn bosibl cynnwys pedwar safle yn y cam hwn yn lle'r 2 wreiddiol. Y safleoedd yng ngham 1 yw Saundersfoot, Oriol y Parc yn Nhyddewi, Porthgain ac Aberllydan. Mae lleoliad y manau gwefru arfaethedig yn gyson â'r gwaith ehangach i osod manau gwefru sy'n cael ei wneud gan Gyngor Sir Penfro.

Yn ystod 2019/20 fe ymunodd yr Awdurdod â'r broses dendro sy'n cael ei chynnal gan Gyngor Sir Penfro er mwyn sicrhau


bod yr Awdurdod yn darparu manau gwefru gan ddilyn yr un fanyleb a dull gwefru er mwyn darparu dull cyson ledled y Sir gyfan.

Yn dilyn y broses dendro a gynhaliwyd gan CSP, penodwyd y contractwr (Silverstone Green Energy). Roedd y gosodiadau i fod i gael eu rhoi yn eu lle ym mis Mawrth 2020; fodd bynnag bu oedi oherwydd materion a oedd yn ymwneud â chysylltu a dyfynbrisiau gyda Western Power Distribution, gyda'r Awdurdod yn disgwyl am gyfarfodydd ar safleoedd yr effeithiwyd arnynt wedyn gan Covid 19.

Cydweithio a Gweithio mewn modd Integredig: Cefnogi'r Gwasanaeth Bysiau Arfordirol

Fe barhaodd yr Awdurdod i roi cymorth ariannol trwy'r Bartneriaeth Greenways i'r gwasanaeth bysiau arfordirol. Mae'r gwasanaeth bysiau arfordirol yn galluogi pobl i fynd i rannau pellennig a gwahanol ddarnau o'r arfordir gan ddefnyddio cludiant cyhoeddus.

Bu gostyngiad ar y cyfan yn ffigyrau teithwyr y gwasanaeth bysiau arfordirol yn 2019/20 o'i gymharu â 2018/19. Y prif rheswm dros hyn yw bod 387/88 – Gwibfws yr Arfordir, 400 – Y Pâl Gwibio, 404 – Gwibiwr Strwmbel a 405 – Roced Poppit wedi cael eu lleihau i 1 diwrnod yr wythnos yn unig a bod cyfnod yr haf wedi cael ei fyrhau. Mae 315 – Y Pâl Gwibio wedi cael ei leihau i un diwrnod gyda gwasanaeth dydd Sadwrn wedi cael ei ddirwyn i ben.



Ffrwd Waith: Risg Newid yn yr Hinsawdd ac Addasu (A6)

Cydweithio a Gweithio mewn modd Integredig: Adroddiad ar y Cyd ar Ddigwyddiadau Tywydd Garw a Bygythiadau i Gymunedau

Cynrychiolir yr Awdurdod ar grŵp prosiect integredig y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a arweinir gan CNC ar gyfer asesu'r risgiau amgylcheddol ac o ran y newid yn yr hinsawdd. Comisiynwyd adroddiad ar y cyd ar gyfer Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion i asesu digwyddiadau tywydd garw yn y gorffennol, ac i ystyried bygythiadau i gymunedau. Mae hyn wedi helpu i ganfod pa gymunedau allai

wynebu'r risg fwyaf yn ystod digwyddiadau hinsoddol yn y dyfodol.

Ochr yn ochr â llunio'r adroddiad, cafodd yr ymgynghorwyr gomisiwn hefyd i ddatblygu holiadur ar dywydd garw ar y cyd â grŵp peilot yn Sir Benfro. Bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i ymgysylltu â gwahanol gymunedau ac i ddylunio sgriptiau hwyluso i'w defnyddio mewn gweithdai a chymunedau. Mae adroddiad pellach wedi cael ei gomisiynu.

Meddwl Hirdymor: Polisi Addasu i'r Hinsawdd a Chynllunio

Mae'r Cynllun Adneuo ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol 2 (a oedd yn cael ei archwilio yn 2019/20) yn cynnwys polisiâu ar y newid yn yr hinsawdd, dylunio cynaliadwy, ynni adnewyddadwy, a llifogydd.

Mae strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol yn cyfeirio datblygiadau newydd yn bennaf at drefi a phentrefi sydd â gwasanaethau a chyfleusterau i gefnogi twf newydd a lleihau'r angen i deithio.

Mae'r wybodaeth a geir yn y Cynlluniau Rheoli Traethlin wedi cael ei defnyddio i adnabod Ardaloedd Rheoli Newid Arfordirol yng Nghynllun Datblygu Lleol 2. Mae'r rhain yn:

Dinbych-y-pysgod	Solfach	Saundersfoot
Trefdraeth	Niwgwyl	Little Haven
The Gann	Dale	Broad Haven
Angle	Llanrath	Wiseman's Bridge

O fewn yr ardaloedd hyn byddir yn cyfyngu ar ddatblygiadau ac efallai y bydd eiddo presennol yn dymuno adleoli i mewn i'r tir fel rhan o broses addasu. Mae hyn yn un o'r newidiadau allweddol yn y Cynllun.

Mae hefyd yn ofynnol i'r Awdurdod gymhwyso polisi cynllunio cenedlaethol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru wrth ystyried ceisiadau cynllunio.

Ffrwd Waith: Rhinweddau Arbennig – Ysbrydoliaeth ac Ymgysylltu (A6)

Meddwl Hirdymor: Ailalinio ein Harlwy Addysg â'r Cwricwlwm Newydd (AC)

Mae Fframwaith Cwricwlwm newydd i Gymru (<https://llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru-trosolwg>) yn cael ei ddatblygu, a fydd yn cael ei ddefnyddio ledled Cymru o 2022, gydag ysgolion eisoes yn treialu'r dull newydd gyda disgyblion. Mae'r Cwricwlwm yn defnyddio dull mwy cyfannol o ran 'taith ddysgu' disgybl, gan roi mwy o bwyslais ar 'gwrwicwla lleol' a chynorthwyo ysgolion i ddylunio'u cwricwlwm a'u trefniadau asesu eu hunain. Mae hefyd yn cynnwys tri maes cymhwysedd, sef Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol.

Mae'r Cwricwlwm newydd yn cyflwyno heriau a chyfleoedd gwych i'r Awdurdod. Yn 2019/20 fe barhaodd yr Awdurdod â'i waith i sicrhau bod ein harlwy addysg yn gyson â'r cwricwlwm newydd ac y bydd yn parhau i fod yn berthnasol, gan

ddarparu cyfleoedd parhaus i ddisgyblion ddysgu, cael eu hysbrydoli a chael budd o ymgysylltu â'r Parc Cenedlaethol.

5

sesiynau ysgol newydd a ddatblygwyd (Data sylfaenol)

883

cymryd rhan mewn sesiynau ysgol newydd (Data sylfaenol)

Mae'r gweithgareddau wedi cynnwys:

- ✓ Ymarferion mapio adnoddau (yn erbyn Meysydd Dysgu a Phrofiad y Cwricwlwm) gyda Chastell Henllys a Chaeriw. Fe ddarparodd Castell Henllys sesiwn bwrrpasol ar gyfer 98 o ddisgyblion blwyddyn 7 yn Ysgol Preseli ar thema llythrennedd. Roedd yn canolbwyntio ar draddodiadau Llafar adrodd storïau, cystadleuaeth Frolio a defnyddio'r dirwedd ym marddoniaeth Gymraeg y canoloesoedd.
- ✓ 29 o staff sy'n ymwneud â disgyblion ar draws timau APCAP wedi bod yn y Gweithdy Addysgwyr Blynyddol. Roedd y gweithdy'n cynnwys sesiwn briffio gan athro o Ysgol Gynradd Waldo Williams ar y modd y mae datblygu a chynllunio'r cwricwlwm yn gweithio yn yr ystafell ddosbarth gydag enghreifftiau o waith disgyblion yn dilyn sesiynau a ddarparwyd gennym ni yn y Parc Cenedlaethol yn 2019. Clywodd y gweithdy adroddiadau gan dimau ar draws APCAP hefyd ar fentrau a datblygiadau sy'n ymwneud â'r cwricwlwm newydd.
- ✓ Datblygu a darparu modiwl thematig ar gyfer y dyniaethau, "Taith o amgylch Sir Benfro" ar gyfer Ysgol Uwchradd Hwlfordd a ddarparwyd ar gyfer ei holl ddisgyblion ym mlwyddyn 7. Roedd hyn yn cynnwys

sesiynau yng Nghastell Henllys, Caeriw ac Oriel y Parc. Fel rhan o'r sesiwn yn Oriel y Parc fe wnaeth y Parmon ardal weithgaredd senario cynllunio gyda'r disgyblion. Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r athro Dyniaethau o Ysgol Uwchradd Hwlfordd i werthuso'r gwaith a wnaed yn nhymor yr haf ac i oleuo datblygiad parhaus y rhaglen ddyniaethau ar lefel uwchradd.

- ✓ Fe arweiniodd un o Swyddogion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ar ymateb Parciau Cenedlaethol Cymru i'r ymgynghoriad ar y Cwricwlwm i Gymru.
- ✓ Rydym wedi sefydlu ystyriaethau o ran y cwricwlwm newydd yn ein prosiectau addysg gan gynnwys y prosiect Roots/ Gwreiddiau, Gwarcheidwaid Treftadaeth ac Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro. Er enghraifft, mae'r prosiect Roots/ Gwreiddiau yn enghraifft o ddisgyblion yn archwilio "Cynefin", sy'n thema gref yn y Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau, ac mae'r prosiect yn integreiddio â'r gwaith cynllunio thematig yn ysgolion Johnston, San Ffransis Aberdaugleddau a Gelliswick.

Meddwl Tymor Hir: Ymgysylltu â phlant ysgol a phobl ifanc â Rhinweddau Arbennig y Parc

Ochr yn ochr â chysoni cynnig addysg yr Awdurdod â'r cwricwlwm newydd mae'r Awdurdod wedi parhau i hwyluso cyfleoedd dysgu addysgol ar draws y Parc. Gwelodd yr Awdurdod ostyngiad o 4.9% yn nifer y cyfranogwyr a gymerodd ran yn ein rhaglen addysg o gymharu â 2018/19. Fodd bynnag, cafodd 5 sesiwn gydag ysgolion eu canslo ym

mis Mawrth 2020 oherwydd pandemig Covid 19, gan effeithio ar ffigur 2019/20.

10,293

cyfranogwyr yn ein rhaglen addysg yn 2019/20. Roedd hyn yn cymharu â 10,821 yn 2018/19 a 10,448 yn 2017/18.

Mesur Perfformiad	2017/18	2018/19	2019/20	2019/20 Targed
Sgôr adborth Ysgolion ar gyfartaledd (1-11)	9.9 (Ambr)	10.0 (Gwyrdd)	10.1 (Gwyrdd)	10

Cynnwys: Ysbrydoli'r Cyhoedd drwy ein Rhaglen Ddigwyddiadau

Mae ein rhaglen digwyddiadau a gweithgareddau'n galluogi pobl i fynd i rannau o'r Parc na fyddent fel arfer yn gallu mynd iddynt o bosibl neu'n rhoi profiad dysgu neu brofiad ymweld gwell o'r Parc i gyfranogwyr.

34,443

Cyfranogwyr yn rhaglen digwyddiadau a gweithgareddau cyhoeddus yn yn 2019/20. Mae hyn yn gynydd o 32,150 yn 2018/19 a 24,220 yn 2017/18.

4,691

Cyfranogwyr mewn digwyddiadau cyhoeddus yn ymwneud â Blwyddyn Darganfod Croeso Cymru. Mae hyn yn ostyngiad ar 7,425 o gyfranogwyr yn 2018/19, lle cafodd niferoedd y

cyfranogwyr a'r digwyddiadau eu hybu gan y ffaith mai Blwyddyn y Môr oedd y thema.

Mesur Perfformiad	2017/18	2018/19	2019/20	2019/20 Targed
Sgôr adborth y cyhoedd ar gyfartaledd (1-11)	10.2 (Gwyrdd)	10.4 (Gwyrdd)	10.4 (Gwyrdd)	10

Ni fyddai'n bosibl darparu ein rhaglen o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer y cyhoedd heb gymorth a gwaith caled ein harweinwyr gweithgareddau gwirfoddoli:

86

diwrnodau gwirfoddolwyr cyfrannwyd gan arweinwyr gweithgarwch gwirfoddolwyr yn 2019/20 at hwyluso digwyddiadau yn ein rhaglen digwyddiadau cyhoeddus. Roedd hyn ar draws 76 o ddigwyddiadau.

Y camau nesaf ar gyfer gwella: Bydd yr Awdurdod yn ceisio adolygu a gwella ei ffurflenni gwerthuso ar gyfer digwyddiadau yn 2020/21 a bydd yn symud i system archebu ar-lein ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus drwy ei wefan newydd.

Cynnwys: Awyr Dywyll ac ysbrydoliaeth bywyd gwyllt y nos

Parhaodd yr Awdurdod i ddarparu digwyddiadau a gweithgareddau awyr tywyll. Yn 2019/20 canolbwyntiodd y digwyddiadau hyn ar deithiau gyda'r nos a chyfleoedd i ddarganfod a dysgu mwy am ystlumod.

247

cyfranogwyr ar draws 14 digwyddiadau a gweithgareddau Awyr Dywyll a gynhaliwyd gan yr Awdurdod yn 2019/20. Mae hyn yn cymharu â 319 o gyfranogwyr ar draws 18 digwyddiad yn 2018/19.

Roedd lleoliadau ar gyfer digwyddiadau'n cynnwys Castell Caerw, Treginnis, Gardd Goetir Colby, Eglwys Gadeiriol Tyddewi a Phalas yr Esgob a Solfach. Mae datblygu'r ardd furiog yn 2019/20 yng Nghastell Caerw yn agor cyfleoedd pellach ar gyfer ennyn ymgysylltiad pobl â'r awyr dywyll a chyfleoedd cysylltiedig i archwilio byd natur.

Cynnwys: Cynllun Dehongli

Datblygwyd dau faes ffocws allweddol ar gyfer dehongli yn 2019/20 o ganlyniad i'r cynllun dehongli, sef:

- ✓ Gwaith ar ddatblygu cynllun dehongli newydd ar gyfer Oriol y Parc, i wneud y ganolfan yn brif borth i'r Parc Cenedlaethol trwy ddiweddarau'r arlwy ddehongli ar y

safle. Rhoddwyd comisiwn i ymgynghorydd dehongli i ddatblygu'r cynllun dehongli ar gyfer Oriol y Parc. Crëwyd cynllun drafft a oleuwyd gan ymgysylltiad â staff a rhanddeiliaid.

- ✓ Gwaith ar ddatblygu mannau darganfod mewn lleoliadau ledled y Parc. Roedd hyn yn cynnwys gwaith ar ddylunio map newydd ar gyfer y Mannau Darganfod. Y cynllun yw y bydd yn cael ei arddangos ochr yn ochr â thafleuni APCAP neu adnoddau eraill mewn detholiad o fusnesau yn ystod blwyddyn beilot y prosiect hwn.

Cynnwys: Gwyddor Dinasyddion

Ochr yn ochr â darparu hyfforddiant i wirfoddolwyr sy'n ymwneud â monitro ac arolygu bywyd gwyllt a chynefinoedd, mae'r Awdurdod wedi helpu i hwyluso cyfleoedd cofnodi ac arolygu i wirfoddolwyr drwy gydol 2019/20.

229.5	diwrnodau gwirfoddol sy'n gysylltiedig ag arolygu neu fonitro bywyd gwyllt a chynefinoedd cadwraeth yn 2019/20. Cynnydd o 70% ar 135 yn 2018/19.
2.5	diwrnodau gwirfoddol sy'n ymwneud â monitro safleoedd treftadaeth (Data sylfaenol ar gyfer 2019/20).
4	Diwrnodau gweithredu cymdeithasol yn ymwneud ag arolygu neu fonitro cadwraeth a chynefinoedd yn 2019/20, gan gynnwys monitro Brân goesgoch

rhwng Dwyrain Freshwater a Swanlake gyda disgyblion o Portfield Gate.

Fe ymgysylltodd ystod o grwpiau Gwirfoddolwyr â chyfleoedd monitro ac arolygu cadwraeth a chynefinoedd trwy APCAP yn 2019/20 gan gynnwys:

Gwirfoddolwyr Cyffredinol APCAP	Gwirfoddolwyr Corfforaethol Valero	Cyfeillion y Parc Cenedlaethol
Gwirfoddolwyr Llwybr APCAP	Wardeiniaid Gwirfoddol	Gwirfoddolwyr Boardwalk Gang
Grŵp Amffibiaid ac Ymlusgiaid Sir Benfro	FERN Gwarchodfa Natur Freshwater East	Gwirfoddolwyr Llwybrau MIND
Grŵp Agored Gwobr Dug Caeredin		

Mae enghreifftiau o weithgareddau monitro ac arolygu y cyfranogodd gwirfoddolwyr ynddynt yn 2019/20 yn cynnwys:

Adar
✓ Cyfrifon Arolwg Adar y Gwlypdir (WeBS) – Ardal Cyngor Cymuned Uzmaston, Boulston a Slebech
✓ Cyfrifon Adar Tir Fferm Gumpton – Ardal Cyngor Cymuned Ystagsbwl a Chastellmartin
✓ Monitro Brain Coesgoch – Ardaloedd Cyngor Cymuned yr Aberoedd, Marloes a Sain Ffraid, Llandyfái a Dale
Pili
✓ Gwirio am wyau brithribinau brown – Ardal Cyngor Cymuned Ystagsbwl a Chastellmartin

- ✓ Trawsluniau, monitro ac arolygon pili-palaod - Ardaloedd Cyngor Cymuned Marloes a Sain Ffraid, Llandyfái a Dale

Gwenyn

- ✓ Arolygon o gacwn fel rhan o'r Prosiect Peillwyr – Maes Awyr Tyddewi
- ✓ Arolwg cardwenyn main - Ardal Cyngor Cymuned Ystagbwl a Chastellmartin

Morol

- ✓ Ymarfer Gwyllo'r Môr ac Arolwg Morfilod Cyhoeddus gydag Ymddiriedolaeth y Môr – Ardal Cyngor Cymuned Abergwaun ac Wdig

Rhywogaethau Goresgynnol

- ✓ Mapio ac Arolygu Jac y Neidiwr – Ardal Cyngor Cymuned Pwllgwaelod, Neyland a Chwm Gwaun

Bywyd Gwyllt

- ✓ Arolwg Bywyd Gwyllt o gorlwyn yn barod ar gyfer Prosiect Pwll Slaes – Ardal Cyngor Cymuned yr Aberoedd
- ✓ Sesiwn fonitro ar Chwilod Olew – Gwarchodfa Natur Leol Freshwater East

- ✓ Arolwg Llyffant y Gwair - Skrinkle Haven

Ymlusgiaid a Gwiberod

- ✓ Monitro ac arolygon ymlusgiaid, mapio llwybrau arolygu ymlusgiaid a Theithiau Adnabod – Ardaloedd Cynghorau Cymuned yr Aberoedd, Sant Ismael, Marloes a San Ffraid, Dale
- ✓ Arolwg gwiberod - Musslewick, Dale, Marloes

Cynnwys: Cynnwys Pobl yn y Gwaith o Gasglu Erydu

Fel rhan o'r Prosiect Arfordir Newidiol mae 16 o byst ffotograffiaeth sefydlog ar hyd Llwybr Arfordir Sir Benfro.

Traeth Poppit	Abereiddi	Bae Sain Ffraid
Ceibwr	Bae Porth Mawr	Bae Gorllewin Angle
Traeth Mawr	Porth y Rhaw	Pont Werdd
Aber Hescwm	Niwgwl	Dwyrain Freshwater
Aber Bach	Llanrhath	Maenorbŷr
Haroldston Chins		

Mae'r pyst hyn yn annog pobl i dynnu ffotograffau pan ydynt allan yn cerdded, gan helpu i gofnodi newidiadau ar y safleoedd a chreu darlun o erydiad clogwyni, erydiad twyni, llystyfiant newidiol, lefelau tywod newidiol, newidiadau i fanciau cerrig crynion, newidiadau i gyrsiau nentydd a llifogydd. Yn 2019/20 fe barhaodd yr Awdurdod i weld lefel uchel o luniau'n cael eu cyflwyno i'r prosiect.

779

y ffotograffau a gyflwynwyd fel rhan o'r prosiect Arfordir Newidiol yn 2019/20. Mae hyn yn gynydd o 730 yn 2018/19 a 629 yn 2017/18.

Yn 2019/20 gosodwyd postyn newydd uwchlaw'r safle cynhanesyddol ym Mhorth y Rhaw, heneb gofrestredig. Ariannwyd y postyn ar y cyd â'r prosiect Climate, Heritage and Environments of Reefs, Islands and Headlands (CHERISH),

prosiect a ariennir â chyllid Ewropeidd ac a arweinir gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.



Cerddwr wrth bostyn ffotograffiaeth Porth y Rhaw

Llywodraethu a Chynaliadwyedd Ariannol.

Ffrydiau gwaith a roddodd gymorth i gyflawni'r amcan hwn yn 2019/20

Corfforaethol – Cynllunio Hirdymor	Codi Arian a Chreu Incwm	Cydnerth Gweithlu
Datblygu Aelodau	Cydymffurfiaeth Corfforaethol a Safonau	

Crynodeb o'r Diogelwr Taith – Ein Cynnydd yn erbyn yr Amcan hwn

Yn 2019/20, digwyddodd nifer o ddatblygiadau a gweithgareddau ymgysylltu a fydd yn cefnogi'r broses o adolygu blaenoriaethau ac amcanion llesiant a chynlluniau hirdymor yr Awdurdod. Mae cynlluniau busnes yn eu lle bellach ar gyfer pob un o'r tair canolfan ac mae gan yr Awdurdod Gynllun Rheoli newydd ar gyfer y Parc Cenedlaethol sy'n rhychwantu'r cyfnod 2020-24. Mae'r Awdurdod wedi diwygio'i fframwaith cofrestrau risgiau yn dilyn cyngor archwilwyr mewnol. Parhaodd yr Awdurdod i gefnogi Ymddiriedolaeth Elusennol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro sydd, ym mlwyddyn gyntaf ei gweithrediad, wedi helpu i godi arian ar gyfer nifer o brosiectau yn y Parc.

Gyda phenodiad Rheolwr Adnoddau Dynol newydd a Rheolwr Gwella Busnes a TG newydd yn 2019/20 mae'r Awdurdod yn cymryd y cyfle i chwilio am gyfleoedd ac arferion gwell o ran lechyd a Diogelwch, cydnerthedd a llesiant y gweithlu, trawsnewid digidol a chyfleu polisiau a safonau corfforaethol. Mae aelodau hefyd yn llywio eu datblygiad personol eu hunain trwy weithgareddau'r Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau.

Mae'r adran nesaf yn amlinellu ein perfformiad yn 2019/20 yn erbyn y ffrydiau gwaith sy'n cyfrannu at Lywodraethu a Chynaliadwyedd Ariannol.

Ffrwd Waith: Corfforaethol – Cynllunio Hirdymor

Meddwl Hirdymor: Ariannu, Blaenoriaethau ac Ymgysylltu ag Aelodau

Yn 2019/20, digwyddodd nifer o ddatblygiadau a gweithgareddau ymgysylltu a fydd yn cefnogi'r broses o adolygu blaenoriaethau ac amcanion llesiant yr Awdurdod. Roedd y rhain yn cynnwys:

- ✓ Trafodaethau parhaus gyda Llywodraeth Cymru am gyllidebau tymor canolig ac effaith gostyngiadau ariannol sylweddol yn y tymor canolig a hir.
- ✓ Trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru am y cynllun Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy gyda chynigion drafft ar gyfer prosiectau cyfalaf yn cael eu datblygu'n fewnol ar gyfer ymgynghori. Bydd y cynllun yn darparu cyllid cyfalaf ychwanegol yn 2020-21 i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac AHNEoedd fuddsoddi mewn gwaith datgarboneiddio, twristiaeth gynaliadwy a bioamrywiaeth.
- ✓ Ym mis Rhagfyr cynhaliwyd gweithdy cyllideb gyda rhestr o brosiectau posibl yn cael ei dosbarthu ac fe gynhaliwyd cyfarfod rhwng Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr

Awdurdod a'r Uwch Dîm Rheoli i drafod blaenoriaethau yn y dyfodol.

- ✓ Cytunwyd ar Gynllun Rheoli newydd ar gyfer y Parc Cenedlaethol a fydd yn rhychwantu'r cyfnod 2020-24 ym mis Rhagfyr 2019. I roi cymorth i integreiddio Effeithiau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol â Chynllunio Corfforaethol fel rhan o ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2020/21 fe adnabu'r Awdurdod 3 maes effaith allweddol y bydd ffrydiau gwaith sy'n cyflawni ei amcanion llesiant yn cyfrannu atynt hefyd – Ymateb i Argyfwng y Newid yn yr Hinsawdd, Ymateb i Golled Bioamrywiaeth a Thirweddau i Bawb. Cafodd Cynllun Gweithredu ar Ymateb i Argyfwng y Newid yn yr Hinsawdd sy'n eistedd dan Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol ei ddatblygu yn ystod y flwyddyn hefyd. Bydd y cam gweithredu hwn yn cefnogi dull hirdymor strategol o ran camau gweithredu'r Awdurdod ar draws swyddogaethau i gefnogi gweithgareddau lleihau allyriadau carbon, dal a storio carbon a lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd.
- ✓ Ym mis Mawrth 2020 fe ddrafftiodd swyddogion ragamcanion o effaith bosibl Covid-19 ar sefyllfa ariannol yr Awdurdod. Roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â sut i reoli'r effeithiau hyn.

Y Camau Nesaf ar gyfer Gwella: Mae disgwyl i waith pellach ar hyn gael ei wneud yn 2020/21 gyda Phanel y Prif

Weithredwr yn adnabod yr angen i ganolbwyntio yn 2020/21 ar y canlynol: “Cynnal adolygiad corfforaethol o ble y dylai ein blaenoriaethau fod gan gynnwys Aelodau, staff a rhanddeiliaid a fydd yn ystyried sut y mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn gallu ymateb i'r heriau ar gyfer y Parc Cenedlaethol a chymunedau lleol o ran ymateb i COVID-19, Brexit a ffactorau eraill;”

Meddwl Tymor Hir: Ymgysylltiad polisi ar ymadael â'r UE

Roedd gweithgareddau allweddol yn 2019/20 y cyfranogodd yr Awdurdod ynddynt mewn perthynas â chyfleoedd ymgysylltu ar ymadael â'r UE a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys:

- ✓ Y Prif Weithredwr yn mynychu Cyfarfodydd Grŵp Tasg a Gorffen Llywodraethu Amgylcheddol a chyfarfodydd bord gron Brexit Llywodraeth Cymru
- ✓ Yn ystod 2019/20 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr ymgynghoriad “Ffermio Cynaliadwy a'n Tir – Cynigion diwygiedig ar gyfer cefnogi ffermwyr Cymru ar ôl Brexit”. Cyflwynwyd papur ar yr ymgynghoriad i Aelodau yng Nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ar 4 Medi, gyda 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol Cymru'n cyflwyno ymateb ar y cyd i'r ymgynghoriad. Mynychodd Prif Weithredwr yr Awdurdod Gyfarfodydd Grŵp Tasg a Gorffen Llywodraethu Amgylcheddol a chyfarfodydd bord gron Brexit Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn.

Atal a meithrin cydnerthedd: Rheoli Risg

Yn dilyn argymhellion gan Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod mabwysiadwyd fframwaith a fformat newydd ar gyfer cofrestrau risgiau. Cafodd y fframwaith a'r fformat newydd eu trafod gan y Tîm Arwain a'u defnyddio i adrodd wrth yr Aelodau o fis Ebrill 2019 ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol.

Atal a meithrin cydnerthedd: Sarn Caeriw – Cynllun 5 mlynedd

Yn sgîl natur a heriau mewn perthynas â chynnal a chadw Sarn Caeriw, roedd cyllid yn ei le i dalu am y rhestr o waith dros 5 mlynedd. Roedd Cam 1 a 2 yn yr arfaeth ar gyfer 2019/20 yn amodol ar Adroddiad Blynyddol Peirianwyr y Gronfa Ddŵr. Cynhaliwyd yr arolygiad blynyddol ym mis Awst heb i unrhyw faterion mawr pellach gael eu nodi. Yn unol ag Adroddiad Blynyddol Peirianwyr y Gronfa Ddŵr cafodd gwaith Cam 1 ei ohirio tan haf 2020. Gall y gwaith adfer arfaethedig gael ei fonitro gan nad oes unrhyw newidiadau sylweddol wedi cael eu nodi ac oherwydd natur y gwaith ni all hyn ddigwydd yn ystod y gaeaf/ gwanwyn. Felly mae'r rhaglen 5 mlynedd wedi cael ei diwygio ac wedi dod yn rhaglen 4 blynedd yn unol â hynny. Mae'r gyllideb yn dal i fod fel a gymeradwywyd. Mae cynigion manwl gan y Peirianwyr yn cael eu paratoi.

Ffrwd Waith: Codi Arian a Chreu Incwm


Tueddiadau sy'n ymwneud â Chynhyrchu Incwm ar draws Canolfannau

Gwelodd yr Awdurdod ostyngiad o 3.8% mewn gwerthiannau nwyddau ar draws y canolfannau o gymharu â 2018/19. Caewyd y Canolfannau ganol mis Mawrth 2020 oherwydd mesurau a oedd yn gysylltiedig â Covid 19. Digwyddodd y gostyngiad mewn gwerthiant nwyddau o'i gymharu â 2018/19 ar draws yr holl Ganolfannau yn 2019/20.

£226,469

incwm o werthiannau nwyddau yn y Canolfannau yn 2019/20. Mae hyn yn ostyngiad o £235,528 yn 2018/19 a £243,079 yn 2017/18.

£ Tueddiadau incwm o werthiannau nwyddau wedi'u dadansoddi yn ol canolfan




Gwelodd yr Awdurdod gynnydd o 5.7% mewn incwm mynediad ar draws Caeriw a Castell Henllys yn 2019/20 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Digwyddodd y cynnydd hwn er gwaethaf gostyngiad mewn ymwelwyr ar draws y ddau safle rhwng 2018/19 a 2019/20. Gwelodd Caeriw gynnydd o 7.8% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol a gwelodd Castell Henllys gynnydd o 0.98%.

£216,156

Wedi'i gynhyrchu o tâl mynediad yn Caeriw a Castell Henllys yn 2019/20. Mae hyn yn ostyngiad o £204,552 yn 2018/19 a £226,558 yn 2017/18.

£ Tal Mynediad yn Caeriw a Castell Henllys




Gwelodd y Canolfannau gynnydd o 3.9% mewn incwm arall a gynhyrchwyd yn 2019/20 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

£77,488

from centres other income in 2019/20.
This is an increase on £74,610 in 2018/19 and £71,084 in 2017/18.

Cynhyrchwyd incwm o £72,112.57 o Gaffi Caeriw yn ei flwyddyn lawn gyntaf yn 2019/20. Cynhyrchwyd £24,760 o incwm o incwm rhent caffi yng Nghastell Henllys ac Oriol y Parc yn 2019/20, mae hyn yn cymharu â £25,541 yn 2018/19.

Mae Gwariant Ymwelwyr wedi cynyddu ar draws y tri safle yn 2019/20 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.



Y Camau Nesaf ar gyfer Gwella: Fe wnaed gwaith yn 2019/20 ar gynlluniau busnes newydd ar gyfer pob un o'r canolfannau a dylai cyflawni yn erbyn y cynlluniau hyn lywio gweithgareddau o fewn y canolfannau yn y dyfodol o ran creu incwm. Bydd angen i'r cynlluniau hyn gael eu hadolygu yn unol â chynllunio adferiad a heriau a chyfleoedd sy'n codi o'r amgylchedd gweithredu newydd o ganlyniad i Covid 19.


Meddwl Tymor Hir: Blaenoriaethu prosiectau

I helpu i adnabod prosiectau sy'n flaenoriaeth mae'r Awdurdod wedi datblygu proses blaenoriaethu prosiectau sy'n galluogi staff i gyflwyno prosiectau sydd wedyn yn cael eu hasesu yn erbyn nifer o feini prawf gan yr Uwch Dîm Rheoli. Mae'r meini prawf asesu'n cynnwys cyfraniad at gyflawni Amcanion Llesiant yr Awdurdod ac effeithiau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol.

Statws Prosiect 2019/20	Prosiect wedi'i Flaenoriaethu – Ym Mand A
Wedi'i Ariannu'n Llawn	Prosiect Profiadau i Bawb
	Prosiect Cerdded i Les Gorllewin Cymru
	Prosiect Pwyth Mewn Pryd Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro
Wedi'i Ariannu'n Rhannol - Cyllid hyd yma yn ddigon i ddechrau cyflawni	Prosiect Pobl, Llwybrau a Pheillwyr Ffiniau Traddodiadol
	Cydnherthedd Ecosystemau – Gwarchod y Parc

Wedi'i Ariannu'n Rhannol - Cyllid ddim digon i ddechrau cyflawni	Prosiect Y 1000 Diwrnod Cyntaf
Heb ei Ariannu	Sgiliau ar Waith
	Sioe Deithiol ar y Traeth
	Cysylltiadau Naturiol
	Prosiect Cymunedol Llygredd Golau

Cafodd 33.3% o'r prosiectau a gategoreiddiwyd ym mand A ar ddechrau 2019/20 gyllid yn ystod 2019/20 (pedwar allan o 12), gyda nifer o brosiectau'n cael cyllid rhannol.



- Heb ei Ariannu
- Wedi'i Ariannu'n Llawn
- Wedi'i Ariannu'n Rhannol - Cyllid hyd yma yn ddigon i ddechrau cyflawni
- Wedi'i Ariannu'n Rhannol - Cyllid ddim digon i ddechrau cyflawni

Mae prosiectau addas sydd wedi mynd drwy'r broses o flaenoriaethu prosiectau hefyd yn cael eu cyflwyno i Ymddiriedolaeth Elusennol Arfordir Penfro er mwyn chwilio am gyfleoedd ariannu.

Cydweithio: Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Yn 2017/18 fe recriwtiodd yr Awdurdod Reolwr Cyllid Allanol i roi cymorth i adnabod a mynd ar drywydd cyfleoedd i greu cyllid o ffynonellau amgen ac mae wedi hwyluso'r broses o sefydlu Ymddiriedolaeth Elusennol. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i roi cymorth ariannol tuag at gostau rhedeg yr Ymddiriedolaeth hyd 2023.

Fe wnaeth gweithgareddau Ymddiriedolaeth Elusennol APCAP godi'r arian canlynol ar gyfer prosiectau'r Awdurdod yn 2019/20:

Prosiect	Cyfraniad gan Ymddiriedolaeth Elusennol PCAP
Prosiect Pwyth Mewn Pryd	£10,000
Prosiect Pobl, Llwybrau a Pheillwyr	£5,000
Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro	£16,000
Gwreiddiau (ddarperir gan Parcmon addysg APCAP)	£10,000
Adfer Llwybrau Arfordirol	£2,000
Y 1000 diwrnod cyntaf	£1,500

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn rhedeg yr ymgyrch Creu Rhagor o Ddolydd ers mis Ebrill 2019. Mae'r arian a godwyd hyd yma'n cefnogi wyth safle newydd, sy'n ymestyn dros gyfanswm o 52 hectar trwy Gynllun Gwarchod y Parc yr Awdurdod. Mae'r dolydd hyn yn darparu 'camau graddol' ar gyfer bywyd gwyllt megis brith y gors, gan alluogi pryfed a phlanhigion i symud ar draws ardal ehangach fel bod eu rhywogaethau'n gallu ffynnu a chael eu cynnal.

£13,170	Codwyd o Ymgyrch Creu Mwy o Ddolydd yr Ymddiriedolaeth
----------------	--

Cynllun noddi iet

Mae'r cynllun noddi gât yn galluogi pobl i noddi un o'r 100 o gatiau ar hyd Llwybr Arfordir Sir Benfro sydd ar gael i'w noddi. Aeth y cynllun noddi gât y tu hwnt i'w darged creu incwm yn 2019/20, a hynny o 80%, gyda 18 o gatiau'n cael eu noddi.

Mesur Perfformiad	2019/20	2019/20 Targed
£ o gynllun noddi iet	£10,800 (Gwyrdd)	£6,000

Ffrwd Waith: Cydnerth Gweithlu


lechyd a Diogelwch

Gwelodd yr Awdurdod 3 RIDDOR (Digwyddiadau y dylid hysbysu'r Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch

amdanynt) yn 2019/20. Cymerwyd camau gweithredu dilynol o ganlyniad i'r digwyddiadau hyn. Bydd y Rheolwr Adnoddau Dynol yn darparu adroddiadau penodol â ffocws ar lechyd a Diogelwch ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol yn 2020/21 yn dilyn cais am ragor o wybodaeth gan Aelodau mewn perthynas â digwyddiadau ac ymateb yr Awdurdod. Ni welodd yr Awdurdod unrhyw ddigwyddiadau (anaf) â thros 3 diwrnod/ hyd at 7 diwrnod o absenoldeb.

Mesur Perfformiad	2017/18	2018/19	2019/20	2019/20 Targed
# RIDDOR (Digwyddiadau adroddadwy i'r HSE)	0 (Gwyrdd)	0 (Gwyrdd)	3 (Coch)	0
# damweiniau (Anafiadau) - absenoldeb dros 3 diwrnod/ hyd at 7 diwrnod	0 (Gwyrdd)	2 (Coch)	0 (Gwyrdd)	0

Ychydig o newid a fu mewn perthynas â nifer y mân ddigwyddiadau damweiniau (anaf) ers 2017/18. Fe welodd yr Awdurdod ostyngiad mewn digwyddiadau difrodi cerbydau yn 2019/20 o'i gymharu â 2018/19. Hysbyswyd am ddau ddigwyddiad gwrthdaro ym mhedwerydd chwarter 2019/20, sy'n cymharu â 0 digwyddiad yr hysbyswyd yn ei gylch yn 2017/18 a 2018/19.



Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau Diogelu yn 2019/20, a wnaeth barhau â'r duedd o ddim digwyddiad yn 2018/19 a 2017/18

Yn ystod 2019/20 fe gymeradwyodd yr Awdurdod Ddatganiad a Pholisi Diogelu wedi'u diweddarau sy'n ystyried newidiadau i ddeddfwriaeth (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) a'r ffordd y mae'r newidiadau hyn wedi cael eu dehongli a'i cyflawni ar lefel leol yng Ngorllewin Cymru. Mae Cyngor Sir Penfro, yr asiantaeth arweiniol o ran rheoli diogelu'n lleol, wedi rhoi cymorth i ddiweddarau'r datganiad a'r polisi.

Cafodd aelodau o'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol adroddiad gan y Rheolwr Gweithrediadau Rheoli Cefn Gwlad ar ddiogelwch ymwelwyr. Roedd yn rhoi diweddariad am ddull yr Awdurdod

o sicrhau diogelwch ymwelwyr a sut y mae egwyddorion diogelwch ymwelwyr yn cael eu mabwysiadu yn ymarferol wrth asesu risgiau ar yr ystâd y mae'r Awdurdod yn berchen arni.

Absenoldeb Oherwydd Salwch

Mae'r Awdurdod wedi gweld cynnydd parhaus yn ei gyfradd absenoldeb oherwydd salwch ers 2017/18. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod yr Awdurdod wedi gweld cynnydd yn nifer y diwrnodau o absenoldeb oherwydd salwch hirdymor ond nid salwch byrdymor yn 2019/20. Roedd hyn o ganlyniad i absenoldebau a oedd yn gysylltiedig â chyfran fach o staff â chyflyrau iechyd o bwys a oedd yn bodoli eisoes.

8.59

Nifer y diwrnodau a gollwyd i salwch am bob aelod o staff cyfwerth ag amser llawn yn 2019/20. Mae hyn yn gynydd o 7.86 yn 2018/19 a 5.83 yn 2017/18. Meincnodi 2019/20: APC Eryri – 11.5 days.

5.77

Nifer y diwrnodau a gollwyd i salwch am bob aelod o staff cyfwerth ag amser llawn heb gynnwys salwch hirdymor yn 2019/20.

Y Camau Nesaf ar gyfer Gwella: Bydd yr Awdurdod yn 2019/20 yn gweithio tuag at gyrraedd y Safon Iechyd Corfforaethol.

Ffyrdd Newydd o Weithio: Prosiect Trawsnewid Digidol

Yn gynnar yn 2019/20 fe benododd yr Awdurdod Reolwr Gwella Busnes a TG newydd â chylch gorchwyl sy'n cynnwys canolbwyntio ar gyfleoedd trawsnewid digidol o fewn y sefydliad. Roedd cam cyntaf y gwaith hwn yn cynnwys adolygiad a set o argymhellion ar gyfer y gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Rheoli Cefn Gwlad, Cymunedol ac Ymwelwyr. Roedd y broses yn golygu bod y Rheolwr Gwella Busnes a TG wedi treulio amser ar lawr gwlad gyda hyrwyddwyr Dx o dimau ar draws y gyfarwyddiaeth i adnabod cyfleoedd i wella ffyrdd o weithio o safbwynt digidol. Bydd camau nesaf y prosiect yn ystyried cyfleoedd pellach i ddigideiddio elfennau o'r gwasanaeth cynllunio.

Fel rhan o ddatblygu Cynllun Gweithredu ar gyfer Ymateb i Argyfwng yr Hinsawdd, mae swyddogion hefyd wedi adnabod meysydd blaenoriaeth ar gyfer digideiddio o ran sut y mae'n gweithredu a allai helpu i leihau allyriadau carbon yr Awdurdod yn y dyfodol.

Ffrwd Waith: Datblygu Aelodau

Ymgysylltu a Chynnwys: Y Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau

Yn ystod 2019/20 mae'r Awdurdod wedi bod yn cynorthwyo Aelodau trwy'r Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau mewn

gweithgareddau a fydd yn cefnogi eu cais yn y dyfodol am y Siarter Aelodau Uwch. Roedd gweithgareddau'n cynnwys:

- ✓ Rôl-ddisgrifiadau a manylebau person diwygiedig ar gyfer Aelodau a Strategaeth Datblygu Aelodau ddiwygiedig wedi'u mabwysiadu gan y Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau (PC a DA) ar 8 Mai 2019.
- ✓ Penderfynodd y Pwyllgor Datblygu ar 21 Gorffennaf y dylai cynllun cyfeillio gael ei fabwysiadu a'i ddefnyddio fel trefniant peilot gydag Aelodau Llywodraeth Cymru a oedd newydd gael eu penodi.
- ✓ Y Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau wedi cytuno ar broses Adolygu Datblygiad Personol ar 06 Tachwedd 2019. Hyfforddiant i gael ei drefnu ar gyfer yr holl Aelodau cyn cynnal adolygiadau.
- ✓ Cyfarfod wedi'i gynnal rhwng Cadeirydd y Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau, Rheolwr y Gwasanaethau Democraidaidd a CLILC i drafod y broses ar gyfer ymgeisio am Siarter Uwch.
- ✓ Gweithdy Adolygu Datblygiad Personol llwyddiannus, a hwyluswyd gan CLILC, wedi'i gynnal ar 5 Chwefror 2020.
- ✓ Aeth pedwar Aelod i sesiwn hyfforddi Cadeiryddion CLILC a gynhaliwyd ar y cyd gyda Chyngor Sir Penfro ar 03 Mawrth 2020.
- ✓ Roedd rhai Adolygiadau o Ddatblygiad Personol eisoes wedi cael eu cynnal cyn cyfyngiadau symud Covid 19 ac mae Aelodau wedi cael eu hannog i gynnal Adolygiadau o Ddatblygiad Personol trwy system fideogynadleda Lifesize neu dros y ffôn.

Presenoldeb yr Aelodau

Mae'r Awdurdod wedi gweld cynnydd parhaus yn nifer o Aelodau sy'n mynychu'r Pwyllgor ers 2017/18. Fodd bynnag, mae presenoldeb yr Aelodau mewn hyfforddiant wedi gostwng o gymharu â blynyddoedd blaenorol gyda'r 56.22% ar gyfer 2019/20 yn is na'r targed o 65%.

Mesur Perfformiad	2017/18	2018/19	2019/20	2019/20 Targed
% presenoldeb Aelodau	78.88% (Gwyrdd)	80.21% (Gwyrdd)	81.91% (Gwyrdd)	75
Meincnodi 2019/20: APC Eryri – 81%				
% presenoldeb Aelodau mewn hyfforddiant	63.78% (Ambr)	68.69% (Gwyrdd)	56.22% (Ambr)	65
Meincnodi 2019/20: APC Eryri – 52.5%				

Ffrwd Waith: Cydymffurfiaeth Corfforaethol a Safonau

Gwella cyfathrebu a gweithredu Polisiâu

Gweithgareddau a gynhaliwyd yn 2019/20 i roi cymorth i gyfleu polisiâu corfforaethol yn dilyn cynnig a gyflwynwyd i'r Tîm Arwain:

- ✓ Taenlen i fonitro dogfennau corfforaethol wedi'i sefydlu.

- ✓ Templed polisi newydd ar gyfer polisiâu mewnol ac allanol wedi'i greu.
- ✓ Lleoliad storio canolog ar gyfer polisiâu wedi'i sefydlu ar y Gyriant F.
- ✓ Proses wedi'i diweddarau mewn perthynas â'r camau datblygu polisiâu ac ymgynghori o ran y Tîm Arwain, staff ac Aelodau.
- ✓ Cyfeiriad at bolisiâu newydd wedi'i gynnwys yn y Cylchlythyr Mewnol

Cynhaliwyd cyfarfod ym mis Awst i fwrw golwg ar ddull cyfredol yr Awdurdod o ymdrin â chwynion, safonau gwasanaethau a chanmoliaeth. Roedd ffocws y drafodaeth hon ar rôl bwysig y broses sefydlu a hyfforddiant i staff ar ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid da a meysydd cydymffurfio eraill. Yn dilyn penodi Rheolwr Adnoddau Dynol newydd cynhaliwyd cyfarfod ym mis Chwefror i gwmpasu gwaith yn y maes hwn ymhellach.

Y Camau Nesaf ar gyfer Gwella: Gyda rheolwr Adnoddau Dynol newydd yn ei le, yn awr gall yr Awdurdod geisio canlyn arni ymhellach â'r gwaith hwn, gyda cham gweithredu ar adolygu proses sefydlu'r Awdurdod a datblygu rhaglen o hyfforddiant gwasanaethau cwsmeriaid ac ymwelwyr wedi'i gynnwys yn y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2020/21. Ochr yn ochr â hyn bydd yr Awdurdod yn parhau i adnabod ffyrdd o wella'r modd y mae'n cyfleu polisiâu a safonau corfforaethol.

Mesur Perfformiad	2017/18	2018/19	2019/20	2019/20 Targed
# cwynion i Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch methiant honedig i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg	1 (Coch)	0 (Gwyrdd)	0 (Gwyrdd)	0

Cwynion i'r Awdurdod

Gwelodd yr Awdurdod gynnydd bach yn nifer y cwynion a dderbyniodd yn 2019/20 o gymharu â 2018/19. The majority of complaints related to planning and car parking charges. Roedd y rhan fwyaf o'r cwynion yn ymwneud â cynllunio a taliadau parcio ceir.

10	cwynion ffurfiol a dderbyniwyd gan yr Awdurdod yn 2019/20. Mae hyn yn cymharu ag 8 cwyn yn 2018/19 a 2017/18. Meincnodi 2019/20: APC Eryri – 6.
----	---

Safonau'r Gymraeg

Ni dderbyniodd yr Awdurdod na Chomisiynydd y Gymraeg unrhyw gwynion yn ymwneud â'r Gymraeg am yr Awdurdod yn 2019/20.

0	cwynion ynghylch y Gymraeg a wnaed i'r Awdurdod yn 2019/20. Parhaodd hyn â'r duedd mewn cwynion yn 2018/19 a 2017/18.
---	---

Mae'r Awdurdod wedi gweld gostyngiad o 8.16% yn nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwr â'r Gymraeg yn hanfodol ers 2017/18.

30.30%	y swyddi newydd a swyddi gwag a hysbysebwyd â'r Gymraeg yn hanfodol yn 2019/20. Mae hyn yn ostyngiad o 33.33% yn 2018/19 a 38.46% yn 2017/18.
--------	---

Mae'r Awdurdod wedi gorfod ailhysbysebu nifer o swyddi a oedd â'r gofyniad hwn oherwydd diffyg ymgeiswyr addas. I fynd i'r afael â'r mater hwn mae'r Awdurdod wedi gosod gofynion i ddysgu Cymraeg ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus am nifer o swyddi gwag yn 2019/20. Yn y tymor hwy dylai hyn helpu i gynyddu nifer y staff sy'n gallu darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Diogelu Data


Yn 2019/20 adolygodd yr Awdurdod bolisiau allweddol yn ymwneud â diogelu data – Polisi Diogelu Data, Polisi Defnyddwyr TGCh a Pholisi Diogelwch Data a Gwybodaeth. Cymeradwywyd y polisiau hyn gan yr APC ym mis Medi 2019.

Cafodd yr Aelodau hyfforddiant ar Ddiogelu Data a'r polisiau newydd, a hwnnw wedi'i deilwra i'w rôl, ym mis Hydref 2019.

0 asesiadau effaith diogelu data wedi'u cwblhau (Data Sylfaenol 2019/20.) Fodd bynnag, cynhaliwyd dadansoddiad o'r risgiau ar Dewch â'ch Dyfais Eich Hun fel rhan o'r adolygiad o'r polisi defnyddwyr TGCh a'r Polisi Diogelwch Gwybodaeth a Data cyn i'r polisiâu hyn gael eu cyflwyno i'r APC i gael eu cymeradwyo.

Rhyddid Gwybodaeth (RG), Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (RGA) and Cheisiadau am Fynediad i'r Pwnc (FP)

Mae'r Awdurdod wedi gweld cynnydd bach yn nifer y ceisiadau RG ers 2017/18. Bu gostyngiad yn nifer y ceisiadau am EIR yn 2018/19 ond mae hyn wedi codi i 13 yn 2019/20. Mae'r Awdurdod wedi parhau i beidio â derbyn unrhyw geisiadau am fynediad at ddata gan y gwrthrych.



Nid oedd yr Awdurdod yn gallu ymateb i un cais RGA yn 2019/20 o fewn yr amserlenni gofynnol ym mis Mawrth oherwydd Covid 19.

Mesur Perfformiad	2017/18	2018/19	2019/20	2019/20 Targed
% yr ymatebion Rhyddid Gwybodaeth o fewn y terfyn amser gofynnol	100% (Gwyrdd)	100% (Gwyrdd)	100% (Gwyrdd)	100%
% yr ymatebion RGA o fewn y terfyn amser gofynnol	100% (Gwyrdd)	100% (Gwyrdd)	92.31% (Ambr)	100%

Monitoring Media Coverage

Effeithiwyd ar y % ar y cyfan yn 2019/20 gan adroddiadau negyddol yn y newyddion, a gafodd sylw eang yn y wasg genedlaethol ym mis Mawrth (am ddal llwynogod mewn maglau) nad oeddent yn gysylltiedig â'r Awdurdod ond a oedd yn crybwyll Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Mesur Perfformiad	2017/18	2018/19	2019/20	2019/20 Targed
% y sylw cadarnhaol/niwtral yn y cyfryngau	99.45% (Gwyrdd)	99.51% (Gwyrdd)	85.05% (Gwyrdd)	80%

Ffrwd Waith: Partneriaethau Strategol

Cydweithio a Gweithio mewn modd Integredig: Fframwaith Partneriaeth a Monitro

Mae cydweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid yn ganolog i waith yr Awdurdod a'i allu i gyflawni ei Amcanion Llesiant. Yn dilyn set Archwilio Cymru o argymhellion o ganlyniad i'w gwaith maes ar bartneriaethau yn 2018/19 cafodd Fframwaith Partneriaethau a Fframwaith Monitro Partneriaethau eu datblygu a'u darparu ar gyfer y Tîm Arwain. Bydd y fframwaith hwn yn cael ei ddiweddarau i'w gwneud yn bosibl monitro'r Partneriaethau sy'n weithredol ar hyn o bryd ar draws yr Awdurdod ac allbynnau a deilliannau'r rhain. Bydd hyn yn helpu i sicrhau mai'r partneriaethau y mae'r Awdurdod yn ymgysylltu â hwy ar hyn o bryd yw'r rhai cywir, eu bod yn gweithio'n effeithiol a'u bod yn rhoi cymorth i gyflawni Amcanion yr Awdurdod, effeithiau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a chyflawni'r amcanion ehangach yng Nghynllun Llesiant Sir Benfro a chyrraedd Nodau Llesiant Cymru.

Atodiad 1: Data a Dadansoddiad Cydraddoldeb Recriwtio a Gweithlu

Nodyn ar Ddata: I alinio ag adroddiadau ffynhonnell ddata agored Llywodraeth Cymru, trwy'r tablau canlynol, mae'r holl ffigurau wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf ac mae'r ffigurau o dan 5 wedi'u hatal ac yn cael eu dynodi gan *. Mae'r canrannau wedi'u talgrynnu a lle mae'r ffigurau'n is na 5 y ganran gyfatebol wedi'u hatal a'u dynodi gan *. Efallai na fydd cyfanswm yn swm oherwydd talgrynnu. Mae talgrynnu fel hyn hefyd yn helpu i gadw staff ac ymgeiswyr am swyddi'n ddienw. Mae data'r gweithlu yn seiliedig ar nifer y bobl o'r dyfyniad diwedd mis ar 31 Mawrth 2019, o ganlyniad ni fydd rhai gweithwyr tymhorol yn cael eu dal yn y ffigurau.

Fe hysbysebwyd 33 o swyddi gwag yn 2019/20, o'i gymharu â 36 yn 2018/19 a 26 yn 2017/18. Daw'r data ynghylch ymgeiswyr am swyddi o system ceisiadau am swyddi ar-lein yr Awdurdod.

Nifer y Ceisiadau am Swydd yn Gyffredinol

2017/18	2018/19	2019/20
310	590	640

Data'r gweithlu o system Pobl y Parc. Gall staff gyrchu, adolygu a chwblhau eu data monitro cydraddoldeb yn uniongyrchol ar y system. Nid yw data ar weithwyr yn cynnwys staff tymhorol.

Nifer y Gweithwyr

2017/18	2018/19	2019/20
150	150	140

Oedran

Bu cynnydd yn y % o ymgeiswyr am swyddi dan 40 a thros 60 gyda gostyngiad mewn ymgeiswyr 41-59 oed. Fodd bynnag, mae nifer yr ymgeiswyr yn dal i fod ar ei uchaf ar gyfer y grŵp dan 30 oed o'i gymharu â grwpiau oedran eraill.

Ymgeiswyr am Swyddi: Oedran

Oedran*	2017/18	2018/19	2019/20
30 mlynedd ac iau	32% (100)	25% (150)	30% (190)
31– 40	19% (60)	20% (120)	22% (140)
41 – 50	16% (50)	20% (120)	12% (80)
51 – 59	13% (40)	20% (120)	17% (110)
60 oed a throsodd	6% (20)	3% (20)	5% (30)
Gwell gennyf beidio â dweud	10% (30)	10% (60)	1% (10)
Heb ei ddatgan			12% (80)

* Cyflwynwyd categorïau oedran newydd o'r 1af o Ionawr 2018 ac o ganlyniad gallai hyn effeithio ar gywirdeb ffigurau ymgeiswyr o oedrannau ar y ffin rhwng dau gategori.

O ran cyflogaion ni fu unrhyw newidiadau mawr mewn proffiliau oedran dros y tair blynedd, ac eithrio gostyngiad

bach yn nifer y bobl yn y grŵp 41-50 a chynnydd bach yn nifer y bobl yn y grŵp oedran 51-60.

Mae 43% o'r staff dros 50, gydag ychydig o newid dros y tair blynedd. Cafwyd parhad o ran y ffaith mai dim ond 7% o'r staff sydd o dan 30.

Gweithwyr: Oedran

Oedran	2017/18	2018/19	2019/20
20 mlynedd ac iau	* (*)	* (*)	* (*)
21 - 30	7% (10)	7% (10)	7% (10)
31 - 40	13% (20)	13% (20)	14% (20)
41 - 50	33% (50)	40% (60)	36% (50)
51 - 60	27% (40)	27% (40)	29% (40)
60 oed a throsodd	13% (20)	13% (20)	14% (20)

Rhywedd Geni

O ran ymgeiswyr am swyddi, ychydig o newid a fu ac eithrio cynnydd bach yn nifer o bobl na ddarparodd yr wybodaeth hon neu yr oedd yn well ganddynt beidio ag ateb.

Ymgeiswyr am Swyddi: Rhywedd Geni

Rhywedd Geni	2018/19	2019/20
Yr un peth	90% (530)	86% (550)
Nid yr un peth	* (*)	* (*)
Anneuaidd	* (*)	* (*)
Gwell gennyf beidio â dweud	10% (60)	2% (10)

Heb ei ddatgan 12% (80)

Rydym yn adrodd ar y data hwn am y tro cyntaf.

Gweithwyr: Rhywedd Geni

Rhywedd Geni	2019/20
Yr un peth	71% (100)
Nid yr un peth	* (*)
Anneuaidd	* (*)
Gwell gennyf beidio â dweud	* (*)
Heb ei ddatgan	29% (40)

Anabledd

Ni fu unrhyw newid yn y % o'r ymgeiswyr am swyddi a ddwedodd fod ganddynt anabledd. Bu cynnydd bach yn nifer yr ymgeiswyr am swyddi na ddarparodd yr wybodaeth hon neu yr oedd yn well ganddynt beidio ag ateb.

Ymgeiswyr am Swyddi: Anabledd

Anabledd	2017/18	2018/19	2019/20
Wedi nodi fel un sydd ag anabledd	* (*)	3% (20)	3% (20)
Wedi nodi fel un sydd heb anabledd	87% (270)	85% (500)	80% (510)
Gwell gennyf beidio â dweud	13% (40)	10% (60)	3% (20)

Heb ei ddatgan			14% (90)
-----------------------	--	--	----------

Bu gostyngiad yn nifer y cyflogeion a ddwedodd fod ganddynt anabledd rhwng 2017/18 a 2019/20. Mae'r Awdurdod wedi gweld cynnydd yn y staff sy'n darparu'r wybodaeth hon.

Gweithwyr: Anabledd

Anabledd	2017/18	2018/19	2019/20
Wedi nodi fel un sydd ag anabledd	7% (10)	* (*)	* (*)
Wedi nodi fel un sydd heb anabledd	67% (100)	73% (110)	79% (110)
Heb ei ddatgan	27% (40)	27% (40)	21% (30)

Ethnigrwydd

Mae'r Awdurdod wedi gweld cynnydd bach yn y % o'r ymgeiswyr o gefndiroedd ethnig heblaw gwyn, sef 2% o'r ymgeiswyr. Mae'r Awdurdod wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymgeiswyr am swyddi na ddarparodd yr wybodaeth hon.

Ymgeiswyr am Swyddi: Ethnigrwydd

Ethnigrwydd	2017/18	2018/19	2019/20
Gwyn	87% (270)	88% (520)	83% (530)
Ethnigrwydd Arall	* (*)	* (*)	2% (10)
Gwell gennyf	13% (40)	12% (70)	2% (10)

beidio â dweud			
Heb ei ddatgan			14% (90)

Bu gostyngiad yn y gyfran o'r cyflogeion a ddarparodd yr wybodaeth hon. Lle mae cyflogeion wedi darparu data ni fu unrhyw newid dros y tair blynedd yn y % o'r cyflogeion a ddwedodd eu bod yn dod o gefndir ethnig heblaw Gwyn.

Gweithwyr: Ethnicity

Ethnigrwydd	2017/18	2018/19	2019/20
Gwyn	80% (120)	73% (110)	79% (110)
Ethnigrwydd Arall	* (*)	* (*)	* (*)
Gwell gennyf beidio â dweud / Heb ei ddatgan	26% (40)	20% (30)	21% (30)

Yn sgîl y niferoedd bach mewn perthynas ag Ethnigrwydd Arall, nid yw'r grŵp hwn wedi cael ei ddatgyfuno yn y ddau dabl blaenorol; fodd bynnag, cydnabyddir ei bod yn bwysig ystyried cynrychiolaeth a phrofiadau sy'n ymwneud â gwahanol gefndiroedd ethnig yn y categori Ethnigrwydd arall..

Crefydd neu Gred

Mae'r Awdurdod wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl a ddwedodd eu bod yn arddel Crefydd/Cred Arall a Christnogaeth a gostyngiad yn nifer y bobl a ddwedodd nad oes unrhyw grefydd na chred ganddynt. Roedd cynnydd yn nifer yr ymgeiswyr am swyddi na ddarparodd yr wybodaeth hon.

Ymgeiswyr am Swyddi: Crefydd neu Gred

Crefydd neu Gred	2018/19	2019/20
Dim Crefydd/ Cred	51% (300)	42% (270)
Cristongaeth	27% (160)	31% (200)
Crefydd/ Cred Arall	3% (20)	5% (30)
Gwell gennyf beidio â dweud	19% (110)	8% (50)
Heb ei ddatgan		14% (90)

Bu cynnydd yn nifer y cyflogeion a ddarparodd yr wybodaeth hon. Mae'r mwyafrif o staff naill ai'n bobl heb grefydd neu'n arddel y ffydd Gristnogol. Mae'n bwysig nodi bod 5% o'r ymgeiswyr am swyddi wedi dweud eu bod yn arddel Crefydd/Cred Arall.

Gweithwyr: Crefydd neu Gred

Crefydd neu Gred	2017/18	2018/19	2019/20
Dim Crefydd/ Cred	33%(50)	33% (50)	36% (50)
Cristongaeth	27% (40)	33% (50)	28% (40)
Crefydd/ Cred Arall	* (*)	* (*)	* (*)
Gwell gennyf beidio â dweud / Heb ei ddatgan	40% (60)	33% (50)	36% (50)

Rhyw

Bu cynnydd yn nifer yr ymgeiswyr am swyddi na ddarparodd yr wybodaeth hon o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol; o ganlyniad mae'n dangos gostyngiad yn y % o ymgeiswyr gwrywaidd a benywaidd yn 2019/20.

Ymgeiswyr am Swyddi: Rhyw

Rhyw	2017/18	2018/19	2019/20
Menyw	35% (110)	47% (280)	42% (270)
Gwryw	61% (190)	51% (300)	43% (280)
Term Arall			* (*)
Gwell gennyf beidio â dweud	* (*)	2% (10)	* (*)
Heb ei ddatgan			13%(80)

Mae'r data wedi'i dalgrynnu'n dangos rhaniad cyfartal rhwng Benywod a Gwrywod, gyda chynnydd yn y staff Benywaidd o'i gymharu â 2018/19.

Gweithwyr: Rhyw

Rhyw	2017/18	2018/19	2019/20
Menyw	47% (70)	47% (70)	50% (70)
Gwryw	53% (80)	53% (80)	50% (70)
Gwell gennyf beidio â dweud / Heb ei ddatgan	* (*)	* (*)	* (*)

Cyfeiriadedd Rhywiol

Gwelodd yr Awdurdod ostyngiad bach yn nifer yr ymgeiswyr am swyddi a ddwedodd eu bod yn Lesbïaidd, Hoyw, Deurywiol neu Arall yn 2019/20. Bu gostyngiad yn nifer yr ymgeiswyr am swyddi a ddarparodd yr wybodaeth hon yn 2019/20.

Ymgeiswyr am Swyddi: Cyfeiriadedd Rhywiol

Cyfeiriadedd Rhywiol	2018/19	2019/20
Heterorywiol	81% (480)	80% (510)
Lesbïaid, Dyn/ Menyw Hoyw, deurywiol neu Arall	5% (30)	3% (20)
Gwell gennyf beidio â dweud	14% (80)	3% (20)
Heb ei ddatgan		14% (90)

Mae nifer y cyflogaion a ddwedodd eu bod yn Lesbïaidd, Hoyw, Deurywiol neu Arall wedi aros yn gyson rhwng 2017/18 a 2019/20. Rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y cyflogaion na ddarparodd yr wybodaeth hon.

Gweithwyr: Cyfeiriadedd Rhywiol

Cyfeiriadedd Rhywiol	2017/18	2018/19	2019/20
Heterorywiol	60% (90)	67% (100)	64%(90)
Lesbïaid, Dyn/ Menyw Hoyw,	7% (10)	7% (10)	7% (10)

deurywiol neu Arall			
Gwell gennyf beidio â dweud	40% (60)	33% (50)	7% (10)
Heb ei ddatgan			34% (40)

Gweithwyr a adawodd ein cyflogaeth yn ystod y flwyddyn

Mae nifer y cyflogaion sydd wedi gadael yr Awdurdod wedi aros yn gyson, sef 10, ers 2017/18. Mae'r data wedi cael ei ddadansoddi'n fewnol gan bersonél i adnabod pa un a oes angen unrhyw gamau gweithredu pellach. Mae'r set ddata'n rhy fach ar gyfer adrodd ymhellach mewn modd ystyrlon ar draws unrhyw nodweddion gwarchoddedig.

Gweithwyr a adawodd ein cyflogaeth yn ystod y flwyddyn

2017/18	2018/19	2019/20
10	10	10

Proffil gweithlu yn erbyn y Math o Gontract/ Patrwm Gwaith: Rhyw


Mae'r Awdurdod yn cefnogi trefniadau gweithio hyblyg ac mae ganddo gyflogaion sy'n gweithio ystod fawr o batrymau gwaith o ran nifer yr oriau dros ddiwrnodau amrywiol. Mae llawer o staff yn gweithio cynllun oriau hyblyg a gall yr holl staff ofyn am drefniadau gweithio hyblyg megis pythefnosau 9 diwrnod; caiff ceisiadau eu cymeradwyo fel rheol. Mae staff yn symud i mewn ac allan o drefniadau wrth i amgylchiadau newid. Mae'r Awdurdod wedi gweld gostyngiad mewn staff benywaidd a

gwrywaidd sy'n gweithio'n rhan-amser ac ar gontractau dros dro o'i gymharu â 2018/19.

Math o Contract/ Patrwm Gwaith	Menyw		Gwryw		Cyfanswm	
	18/19	19/20	18/19	19/20	19/18	19/20
Llaw Amser	30	30	60	60	90	90
Rhan Amser	50	40	20	10	70	50
Parhaol	60	60	60	60	120	120
Dros-dro	20	10	20	10	40	20

Proffil y Gweithlu yn erbyn Graddfeydd – Rhyw

Mae'r Awdurdod yn cyflogi pobl mewn ystod eang o swyddi, a nifer ohonynt ag ond un deiliad swydd ac felly nid yw monitro yn ôl 'swydd' yn cael ei wneud. Rydym wedi cyfuno Graddau i atal adnabod unigolion. Nid oes unrhyw elfennau tâl sylweddol eraill sy'n daladwy ar ben y cyflog ar y raddfa. Nid yw'r ffigur yn cynnwys staff tymhorol a delir yn ôl taflen amser ac nad ydynt yn gyflogedig. Y prif newid fu gostyngiad yn nifer y Gwrywod ar Raddfa 1-3 o 30 yn 2018/19 a chynnydd yn y Gwrywod ar POA-CE. Mae talgrynnu'r data wedi ei lurgunio rywfaint; mae data heb ei dalgrynnu'n dangos nifer fwy o ddynion na menywod ar Raddfa 4-6, gyda llai o ddynion na menywod ar SO1-SO2.



Dadansoddi Hyfforddiant a Thâl

I alluogi dadansoddiad pellach yn erbyn cyfleoedd hyfforddi mae angen gwaith i wella dulliau cofnodi hyfforddiant yn yr Awdurdod. Fe wnaed gwaith i ddadansoddi'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau fel rhan o'r adolygiad o'r Cynllun Cydraddoldeb a chanfod a oedd angen amcan cydraddoldeb penodol.

Mynd i'r afael ag amrywiaeth y Gweithlu a gweithle cynhwysol trwy ein cynllun cydraddoldeb.

Rydym wedi nodi nod hirdymor yn ein Cynllun Cydraddoldeb 2020-24 o dan Ein Gweithlu – Yn Amrywiol, Yn Cefnogol ac Yn Gynhwysol:

Nod Tymor Hir 3: Bod ein gweithlu yn amrywiol, ein bod yn gyflogwr o ddewis a bod y staff yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth mewn amgylchedd gwaith sy'n gynhwysol ac yn deg.

Yn eistedd o dan y nod hwn mae'r amcanion cydraddoldeb canlynol

- Erbyn 2024, bydd gennym mwy o lwybrau posibl i gyflogaeth ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein gweithlu.
- Erbyn 2024, byddwn drwy fentrau llesiant, hyfforddiant a pholisïau cysylltiedig yn darparu gweithle sy'n gefnogol ac yn gynhwysol.
- Erbyn 2024, byddwn yn lleihau'r bwch cyflog yn yr Awdurdod rhwng y rhywiau, gan ganolbwyntio'n benodol ar brofiadau'r staff yn ein Chwartzel Isaf (ar Gyflogau Isaf)

Mae'r Meysydd Blaenoriaeth a'r Camau Gweithredu canlynol wedi cael eu hadnabod er mwyn cyflawni yn erbyn yr amcanion hyn a monitro cynnydd yn eu herbyn:

- Cynnal adolygiad cynhwysfawr o brosesau recriwtio a dethol yr Awdurdod i sicrhau tegwch o fewn y prosesau recriwtio, gan gynnwys edrych ar rwystrau posibl i ymgeiswyr iau.
- Cymryd rhan yng Nghynllun Lleoliadau Gwaith Coleg Sir Benfro (DGC) a datblygu neu gymryd rhan mewn cynlluniau cysylltiedig eraill (e.e. datblygu cynllun hyfforddiant Sgiliau ar Waith neu ddatblygu cyfleoedd prentisiaeth.)
- Archwilio'r cyfleoedd gyda'r Parciau Cenedlaethol eraill a'r darparwyr cadwraeth a threftadaeth i ddatblygu cynllun i hyrwyddo cyfleoedd gwaith yn y sector i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Dod yn sefydliad sy'n hyderus o ran anabledd (lefel 1 o leiaf, gan weithio tuag at lefel 2.)
- Cynnal adolygiad o'n holl weithgareddau llesiant a chefnogaeth i'r staff a gweithio gyda chynrychiolwyr staff i ddatblygu cynnig llesiant i staff sy'n amlygu'r arferion gorau ar hyn o bryd.
- Adolygu'r polisïau AD perthnasol i sicrhau eu bod yn amlygu'r arferion gorau ar hyn o bryd o ran hyrwyddo gweithle cynhwysol.
- Dod o hyd i gyfres o hyfforddiant i reolwyr llinell, a datblygu'r gyfres, i'w harfogi i reoli timau amrywiol a hyrwyddo diwylliant cynhwysol.
- Ymgysylltu â staff yn ein Chwartzel Is (cyflogau isaf) i archwilio ac adolygu tegwch ein cynnig cyflogaeth iddynt gan gynnwys tâl, oriau gwaith, gweithio oriau hyblyg, dilyniant a hyfforddiant. (Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau)
- Gwella monitro hyfforddiant a'r broses flynyddol o adolygu perfformiad. (Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau)
- Cytuno ag addewid EHRC '[Gweithio Ymlaen](#)' a gweithredu ei argymhellion. (Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau)
- Parhau i fonitro cydraddoldeb yn y gweithle, gan gyfrannu at brosiect Data Agored Llywodraeth Cymru a gwella'r gwaith o ddadansoddi ein data.